



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Iechyd Cyhoeddus Cymru

Perfformiad a Sicrwydd –
Adroddiad Cryno

26 Chwefror 2026

Cynnwys

1. Cyflwyniad

- 1.1 Swyddogaethau allweddol
- 1.2 Swyddogaethau statudol
- 1.3 Cefnogi'r system
- 1.4 Camau galluogi Ysgrifennydd y Cabinet

2. Darparu Gwasanaethau

- 2.1 Sgrinio
- 2.2 Sgrinio coluddion
- 2.3 Sgrinio'r Fron
- 2.4 Sgrinio Serfigol
- 2.5 Sgrinio Llygaid Diabetig
- 2.6 Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol
- 2.7 Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig
- 2.8 Sgrinio Clyw Babanod Cymru
- 2.9 Sgrinio Cyn Geni Cymru
- 2.10 Sgrinio Ysgyfaint
- 2.11 Brechu

3. Diogelu Iechyd

- 3.1 Gwyliadwriaeth
- 3.2 Gwasanaethau Heintiau
- 3.3 Genomeg
- 3.4 Brigiadau o achosion o glefydau trosglwyddadwy a pharodrwydd ar gyfer pandemig
- 3.5 Iechyd Rhywiol

4. Gwella Iechyd

- 4.1 Newid strategol i atal
- 4.2 Gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus
- 4.3 Pwysau Iach: Cymru Iach
- 4.4 Cynllun rheoli tybaco
- 4.5 Atal gamblo
- 4.6 Cynllun iechyd menywod

4.7 Mynd i'r afael â diabetes

4.8 Anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd

5. Cryfhau'r sefydliad

5.1 Diwylliant

5.2 Arweinyddiaeth, llywodraethu ac ansawdd

5.3 Gweithlu – Ein Pobl

5.4 Cyllid a chynllunio

6. Materion lleol

6.1 Digidol a data

Atodiad A: Partneriaethau Strategol

1. Cyflwyniad

1.1 Swyddogaethau allweddol

Rydym yn darparu amrywiaeth o swyddogaethau iechyd cyhoeddus craidd a gwasanaethau clinigol i'r cyhoedd a'n partneriaid, gan gynnwys GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ❖ **darparu rhaglenni sgrinio cenedlaethol** i gynorthwyo â chanfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin
- ❖ **darparu ein rhwydwaith labordy microbioleg clinigol achrededig** i gefnogi diagnosteg clinigol, gwyliadwriaeth a rheoli brigiadau o achosion
- ❖ **darparu gwasanaethau diogelu iechyd a chlinigol** sy'n galluogi ymateb rhagweithiol ac adweithiol arbenigol
- ❖ **darparu camau gweithredu gwella iechyd** i hybu iechyd, atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau
- ❖ **gwaith polisi ac iechyd rhyngwladol** i lunio polisi ac ymarfer i wella a diogelu iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- ❖ **defnyddio ymchwil, data, digidol, tystiolaeth a gwerthuso** i ysgogi dealltwriaeth a chefnogi gwelliannau mewn iechyd cyhoeddus

1.2 Swyddogaethau statudol

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bedair swyddogaeth statudol.

- i. Darparu a rheoli amrywiaeth o wasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cyngor iechyd, amddiffyn plant, labordai microbiolegol, gwyliadwriaeth, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy.
- ii. Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru am faterion sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru; cynnal a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant perthnasol.
- iii. Casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth yn systematig am iechyd pobl Cymru yn arbennig yn cynnwys achosion o ganser, cyfraddau marwolaeth a goroesi; a nifer yr achosion o anomaleddau cynhenid

- iv. Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a chynnal ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion yn ymwneud ag iechyd.

1.3 Cefnogi'r system

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau clinigol a swyddogaethau iechyd cyhoeddus ehangach. I gefnogi hyn, rydym wedi sefydlu amrywiaeth o rwydweithiau, cydweithrediadau a phartneriaethau traws-sector i gefnogi'r gwaith o ddarparu blaenoriaethau iechyd cyhoeddus allweddol, gan gynnwys:

- ❖ **Creu Cymru Iachach** – cydweithrediad amlasiantaethol i symud i atal
- ❖ **Ymgysylltu â Sgrinio** - gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd, gofal sylfaenol, partneriaid cymunedol a'r trydydd sector er mwyn gweithio gyda'n gilydd i wella nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio a lleihau annhegwch o ran manteisio ar ein gwasanaethau
- ❖ **Partneriaeth Strategol Hapus** - mae'n ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau i gefnogi'r nod o ehangu mynediad at weithgareddau i hyrwyddo llesiant meddyliol a chyfranogi ynddynt
- ❖ **Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru** – mae'n cysylltu rhwydwaith eang o bartneriaid, sy'n canolbwyntio ar rannu a dysgu ar draws ehangder iechyd cyhoeddus
- ❖ **Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)** – mae'n gweithio ar draws pob sector i ymgorffori dulliau ACE a dulliau sy'n ystyriol o drawma ledled Cymru
- ❖ **Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf** – mae'n dod â phartneriaid yng Nghymru ynghyd i adeiladu a lledaenu'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau yn y 1000 diwrnod cyntaf

Mae gennym hefyd Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda phartneriaid strategol allweddol, gan gynnwys y system blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Darperir crynodeb o'r partneriaethau hyn yn Atodiad A.

1.4 Camau galluogi Ysgrifennydd y Cabinet

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni camau galluogi Ysgrifennydd y Cabinet, lle y bo'n berthnasol. Darperir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y camau galluogi isod:

Cam Galluogi Ysgrifennydd y Cabinet	Cynnydd hyd yma
Gweithredu'r camau a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru ar Gyflog Amrywiol a'r Fframwaith Rheoli Asiantaethau yn llawn	GWYRDD: Ers mis Ionawr 2024, mae'r sefydliad wedi bod yn cymryd camau i weithredu gofynion WHC/2024/031 a WHC/2023/046 i gefnogi lleihau gweithlu asiantaethau a thrawsnewid y gweithlu yn ehangach.
Cyflawni gostyngiad parhaus a chynaliadwy pellach mewn gwariant asiantaethau, gyda tharged o ostyngiad o 30% yn 2025/26 o alldro 2024/25 a sicrhau nad oes unrhyw wariant oddi ar y contract.	GWYRDD: Mae cynllunio ar gyfer lleihau'r defnydd o asiantaethau wedi'i ymgorffori mewn adroddiadau perfformiad mewnol, gyda gwariant asiantaethau ar hyn o bryd yn 1% o gyfanswm y bil cyflog ym mis 9, gyda tharged o gyflawni'r gostyngiad o 30% yn 2025/26 o 2024/25.
Sicrhau gostyngiad mewn gwariant ar asiantaethau ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, staff Gweinyddol a Chlercol a staff Ystadau ac Ategol i sero erbyn 30 Medi 2025.	OREN: Mae gwariant asiantaeth gweinyddol a chlercol wedi gostwng o £105K ym mis 1 i £40K ym mis 9. Fodd bynnag, mae'r costau asiantaeth yn M1-M9 2025/26 yn peri risg i gyflawni'r targedau wedi'u diweddarau ar gyfer gwariant asiantaeth, yn benodol mewn perthynas â gwariant asiantaeth Gweinyddol a Chlercol. Ar y trywydd iawn i gyflawni'r gostyngiad gofynnol mewn gwariant asiantaeth HCSW ac Ystadau.
Sicrhau bod polisi cynllunio swyddi yn cael ei weithredu'n effeithiol, i gynnwys sicrhau bod gan > 90% o'r holl ymgynghorwyr gynllun swydd y cytunwyd arno ar waith bob amser erbyn 30 Medi 2025.	OREN: Ym mis Ionawr 2026, mae gan 55% o ymgynghorwyr meddygol a deintyddol gynllun swydd wedi'i gwblhau (wedi'i gwblhau o fewn y 12 mis blaenorol) naill ar system cynllunio e-swyddi Allocate neu fel fersiwn bapur.
Sicrhau gostyngiad mewn absenoldeb oherwydd salwch yn 2025/26 o gymharu â 2024/25, drwy'r gydymffurfiaeth fwyaf posibl â gofynion polisiau presenoldeb yn y gwaith y cytunwyd arnynt a chadw at safonau gwasanaeth gofynnol Iechyd Galwedigaethol Cymru gyfan.	COCH: Mae'r FTE % absenoldeb oherwydd salwch 12 mis treigl sefydliadol wedi amrywio o gwmpas 4% dros y tair blynedd diwethaf. Ar gyfer mis Rhagfyr 2025, roedd y FTE % absenoldeb 12 mis treigl yn 4.58% (1.51% absenoldeb tymor byr a 3.07% absenoldeb hirdymor). Ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2024, roedd yn 4.26%, a'r rhaniad oedd 1.51% absenoldeb tymor byr a 2.75% absenoldeb hirdymor.
Ystad - sicrhau camau parhaus i gryfhau'r defnydd o'r ystad gan gynnwys ailbwrpasu a gwaredu ystad nad yw'n cael ei defnyddio'n ddigonol yn briodol.	GWYRDD: Mae holl gamau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y trywydd iawn
Sicrhau cynnydd wrth weithredu llwybr Gwerth Uchel Effaith Uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd – Diabetes	GWYRDD: Mae holl gamau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y trywydd iawn. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o gamau nad ydynt o fewn pŵer Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd angen camau ac atebolrwydd pellach.
Dileu systemau a dyfeisiau heb eu cefnogi, a sicrhau cynllun ymateb seiber clir i'r sefydliad.	GWYRDD: Mae holl gamau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y trywydd iawn.

2. Darparu Gwasanaethau

2.1 Sgrinio

2.1.1 Cefndir

Nod sgrinio yw canfod camau cynnar clefyd neu atal clefyd rhag digwydd. Mae rhaglenni sgrinio yng Nghymru yn cael eu cynnig yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ac argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu saith rhaglen sgrinio genedlaethol: Bron Brawf Cymru, Sgrinio Coluddion Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Sgrinio Clyw Babanod Cymru, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru. Rydym hefyd yn cydlynu ac yn rheoli rhwydwaith clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r llwybrau sgrinio yn allweddol ar gyfer canfod clefyd yn gynnar yn y boblogaeth gyda'r llwybr sgrinio i ddiagnosis yn rhan sylweddol o'r llwybr canser sengl. Mae'r rhaglenni yn gyfrifol am y llwybrau sgrinio hyd at adeg y diagnosis, gyda sawl rhan allweddol o'r llwybrau wedi'u comisiynu gan fyrddau iechyd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i'r weledigaeth bod pawb sy'n gymwys i gael sgrinio yn cael mynediad teg a chyfle i fanteisio ar eu cynnig sgrinio, gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy i wneud dewis gwybodus personol. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy'r Strategaeth Tegwch Sgrinio a'r Cynllun Gweithredu sy'n mynd i'r afael â lleihau annhegwch a chynyddu cyfraddau'r rhai sy'n cael eu sgrinio drwy bum maes gweithredu allweddol, sef Cyfathrebu, Cymuned ac Ymgysylltu, Cydweithio, Darparu Gwasanaethau a Data a Monitro. Ar lefel Cymru gyfan, mae hyn yn cynnwys datblygu adnoddau a gwybodaeth hygyrch i gefnogi pobl ag anghenion cyfathrebu neu iaith i fanteisio ar eu cynnig. Mae adnoddau yn cael eu cydgynhyrchu i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cyfranogwyr. Mae adnoddau wedi'u teilwra hefyd wedi'u datblygu i fynd i'r afael â rhwystrau i sgrinio ar gyfer cymunedau lle nodwyd bod canran isel yn cael eu sgrinio er mwyn lleihau annhegwch sgrinio. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n drawsryweddol neu'n anneuaidd, gofalgwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi a phobl o'n cymunedau ethnig lleiafrifol. Rydym wedi sefydlu hyrwyddwyr tegwch ym mhob rhaglen er mwyn datblygu gweithgareddau i fynd i'r afael ag annhegwch sgrinio, a fydd yn cael eu cefnogi gan hyrwyddwyr Anabledd Dysgu sydd newydd eu sefydlu.

Rydym yn monitro'r data ar ganran y rhai sy'n cael eu sgrinio yn ôl clwstwr awdurdodau lleol a meddygon teulu yn rheolaidd i nodi unrhyw

ardaloedd lle ystyrir bod y ganran yn gyson islaw targed Cymru Gyfan. Lle nodir ardaloedd â chanran isel, byddwn yn ceisio gweithio ar y cyd â thimau gofal sylfaenol lleol a phartneriaid cymunedol i gynyddu ymwybyddiaeth o sgrinio. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau iechyd cymunedol lleol a chyfleoedd ymgysylltu, gweithio'n agos gyda'r trydydd sector, hyfforddiant cymunedol a chymorth i ddatblygu hyrwyddwyr ac eiriolwyr cymunedol.

Rydym yn adnewyddu'r Strategaeth Tegwch Sgrinio ar gyfer 2026 ymlaen i gyflawni'r weledigaeth o fynediad teg a chyfle i bawb fanteisio ar eu cynnig sgrinio. Wrth ddatblygu'r Strategaeth newydd, bu ymgysylltu â byrddau iechyd, y sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a'r trydydd sector gyda chyfranogiad gan grwpiau cynrychioliadol, fel Race Equality First. Mae hyn wedi cynnwys gweithdai wyneb yn wyneb a digwyddiadau ymgynghori ar-lein, gan gynnwys datblygu Gweithgor gyda chyfranogiad y trydydd sector i ddatblygu'r strategaeth ar y cyd.

Rydym wedi sefydlu ymyrraeth i gynnal galwadau ffôn i'r rhai nad ydynt yn ymateb i sgrinio am y tro cyntaf gan ddechrau yn y rhaglenni sgrinio nad ydynt yn ganser. Nod yr ymyrraeth yw cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar y cynnig sgrinio a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r ymyrraeth hon yn cael ei threialu yn rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru gyda'r bwriad o'i chyflwyno i gyfranogwyr sgrinio coluddion nad ydynt yn ymateb, gan ganolbwyntio ar bobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig a grwpiau oedran iau lle mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio yn is. Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflwyno hunansamplu ar gyfer sgrinio serfigol a fydd yn targedu'r rhai nad ydynt yn cael eu sgrinio'n ddigonol gyda'r ffocws ar leihau annhegwch o ran nifer y rhai sy'n manteisio ar y cynnig sgrinio serfigol. Mae cynllun peilot o'r llythyrau gwahoddiad sy'n cael eu llywio gan wyddor ymddygiad ar gyfer yr unigolion iau yn mynd rhagddo.

Mae ein Rhaglenni Sgrinio yn datblygu ac yn arloesi'n gyson yn unol â'r argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Sgrinio Coluddion wedi optimeiddio'n llawn yng Nghymru yn ddiweddar i gynnwys pawb rhwng 50 a 74 oed gyda lefel torri i ffwrdd fwy sensitif ac mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gweithio i gyflwyno hunansamplu i unigolion nad ydynt yn cael eu sgrinio'n ddigonol

2.1.2 Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol ar gyfer amseroldeb ar lefel y Bwrdd a'r Weithrediaeth:

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Sgrinio coluddion: Amser aros ar gyfer colonosgopi mynegeio o fewn 4 wythnos i archebu apwyntiad Ymarferydd Sgrinio Arbenigol	28.5% Rhagfyr 2025	90%
Sgrinio'r fron: Gwahoddiadau asesu o fewn 3 wythnos i'r sgrinio	28.3% Rhagfyr 2025	90%
Sgrinio serfigol: Amser aros ar gyfer apwyntiad colposgopi o fewn 8 wythnos i atgyfeirio uniongyrchol	95.3% Rhagfyr 2025	90%
Sgrinio llygaid diabetig: Cwmpas canlyniadau a adroddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf	38.5% Rhagfyr 2025	80%
Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol: Atgyfeirio amserol i'r Tîm Amlddisgyblaethol Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol (MDT)	100% Rhagfyr 2025	100%

Rydym wedi cynnal goruchwyliaeth a sicrwydd lefel Bwrdd mewn perthynas â pherfformiad rhaglenni sgrinio drwy graffu uniongyrchol y Bwrdd a goruchwyliaeth systematig gan Bwyllgor y Bwrdd, yn enwedig drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC). Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau manwl ar Wasanaethau Sgrinio ar adegau allweddol. Mae'r diweddariadau mwy diweddar yn cynnwys:

Mai 2025: Adolygodd y Bwrdd stori claf yn dangos effaith emosiynol ac ymarferol llwybrau sgrinio ac ystyriodd welliannau parhaus mewn ansawdd, llywodraethu, ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y claf.

- ❖ **Gorffennaf 2025:** Adolygodd y Bwrdd heriau perfformiad ar draws rhaglenni sgrinio, yn enwedig mewn sgrinio coluddion a'r fron, a cheisiodd sicrwydd pellach ar berfformiad sgrinio (gweler isod).
- ❖ **Medi 2025:** Cafodd QSIC ddiweddariad ffurfiol ar y rhaglen sgrinio yn amlinellu perfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol, meysydd sydd angen eu gwella, a champau gweithredu sy'n mynd rhagddynt i gryfhau gwydnwch y rhaglen ar draws sgrinio'r fron, llygaid diabetig a sgrinio coluddion. Cafodd y drafodaeth hon ei hadrodd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2025. Adolygodd y Bwrdd hefyd gynnydd yr Achos Busnes Sgrinio Ysgyfaint a thrafododd yr adolygiad mewnol o Bron Brawf Cymru a oedd yn cael ei gynnal.

- ❖ **Hydref 2025:** Ystyriodd y Bwrdd faterion gweithredol sy'n effeithio ar Bron Brawf Cymru, gan gynnwys cyfyngiadau sylweddol a grëwyd gan brinder gweithlu clinigol, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, ac unedau sgrinio symudol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd bod risgiau wedi cael eu huwchgyfeirio'n briodol a'u bod o dan reolaeth weithredol.
- ❖ **Tachwedd 2025:** ystyriodd y Bwrdd ddiweddariad cynhwysfawr ar raglenni sgrinio. Cafodd aelodau'r Bwrdd ddiweddariadau manwl ar faterion perfformiad ar draws y portffolio sgrinio, gan gynnwys:
 - Perfformiad Sgrinio'r Fron, Coluddion a Llygaid Diabetig, gyda chydabyddiaeth o heriau parhaus, cyfyngiadau'r gweithlu a'r angen am drawsnewid.
 - Modelu effaith llwybrau sgrinio sy'n tanberfformio ar y boblogaeth, yn enwedig y fron a choluddion, a phwysleisiwyd yr angen am arloesi er mwyn mynd i'r afael â phwysau system.

Cynhaliwyd archwiliad dwfn o risg strategol gyda'r Bwrdd ym mis Ionawr 2026 mewn perthynas â'n risg strategol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. Roedd y trafodaethau yn cynnwys y cynlluniau sy'n ymwneud â chryfhau rheolaethau, trywyddau adfer a newid trawsnewidiol i fynd i'r afael â dibyniaethau ar systemau, y gweithlu a digidol. Fel rhan o amserlen y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella mae archwiliad dwfn wedi'i gynllunio ar berfformiad y rhaglen sgrinio ar 24 Chwefror 2026.

2.2 Sgrinio coluddion

Nod Rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru yw lleihau'r marwolaethau a'r afiachedd sy'n gysylltiedig â chanser y coluddyn drwy roi diagnosis o ganserau ar gam cynnar, pan ellir eu trin, a thrwy atal canserau rhag datblygu drwy ganfod polypau cyn-ganseraidd a'u tynnu o'r coluddyn.

2.2.1 Ein rôl

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflwyno, a sicrhau ansawdd y Rhaglen Sgrinio Coluddion genedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn comisiynu byrddau iechyd i ddarparu'r gwasanaeth colonosgopi drwy gytundebau lefel gwasanaeth. Nodir unigolion cymwys rhwng 50 a 74 oed drwy System Ddemograffig Cymru ac anfonir prawf imiwnocemegol ar ysgarthion atynt bob dwy flynedd. Nid oes angen ymchwiliad pellach ar unigolion sydd â chanlyniad negatif ac fe'u gwahoddir i gymryd rhan mewn sgrinio eto ymhen dwy flynedd. Mae'r rhai sydd â chanlyniad positif, sy'n nodi presenoldeb gwaed yn y sampl, yn cael eu hatgyfeirio i asesiad pellach gan sgrinio colonosgopi mewn

byrddau iechyd i bennu achos y gwaedu ac i dynnu unrhyw dyfiant cyn-ganseraidd (polypau) yn y coluddyn. Gofynnir i'r holl gyfranogwyr y mae angen colonosgopi sgrinio arnynt i gysylltu â Sgrinio Coluddion Cymru i drefnu asesiad cyn-colonosgopi gyda nyrs sgrinio coluddion (Ymarferydd Sgrinio Arbenigol). Mae'r asesiad hwn yn pennu eu ffitrwydd meddygol cyn mynd ymlaen i gael colonosgopi. Mae'r rhaglen yn comisiynu byrddau iechyd i ddarparu'r gwasanaeth colonosgopi drwy gytundebau lefel gwasanaeth.

Efen Llwybr	Cyfrifoldeb
Galw ac Ailalw cyfranogwyr cymwys	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi gwahoddiadau sgrinio (pecynnau)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Profion labordy	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi canlyniadau profion imiwnocemegol ar ysgarthion	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Llinell gymorth dros y ffôn i'r cyhoedd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Asesiad cyn cael colonosgopi	Gwasanaeth wedi'i gomisiynu gan fyrddau iechyd
Colonosgopi sgrinio	Gwasanaeth wedi'i gomisiynu gan fyrddau iechyd
Trin canser wedi'i ganfod drwy sgrinio	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.2.2 Y sefyllfa bresennol

Gwahoddodd Sgrinio Coluddion Cymru fwy na 500,000 o bobl i gymryd rhan mewn sgrinio yn 2025. Dychwelwyd cyfanswm o 332,000 o brofion, sef canran flynyddol o 62.9% a gafodd eu sgrinio, gyda chanran y rhai a gafodd eu sgrinio yn codi i 65.3% yn ystod y misoedd diweddaraf (Tachwedd a Rhagfyr 2025). Cafodd cyfanswm o 8,837 o gyfranogwyr ganlyniad positif. Cynhyrchodd y canlyniadau positif hyn 11,669 o asesiadau cyn-colonosgopi gan Ymarferydd Sgrinio Arbenigol (gan gynnwys asesiadau cychwynnol a dilynol) gan arwain at gynnal 8,503 o golonosgopiau sgrinio. Dros y 12 mis diwethaf, rhoddwyd diagnosis o 414 o ganserau'r coluddyn wedi'u canfod drwy sgrinio a chafodd polypau eu canfod a'u tynnu ymhlith 4,668 o gyfranogwyr. Mae dangosyddion perfformiad allweddol ar draws y llwybr cyfan yn cael eu monitro'n fisol:


Dangosydd	Coch Oren Gwyrdd
Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio Coluddyn a Chwmpas: Mae canran y rhai a gafodd brawf sgrinio coluddion a'r chwmpas yn fwy na'r safon ofynnol 60% (canran y rhai a gafodd brawf sgrinio 65% a chwmpas 62% yn adroddiad mis Rhagfyr 2025)	Gwyrdd
Amseroldeb: Profion labordy sgrinio prawf imiwnocemegol ar ysgarthion – 100% o samplau sgrinio prawf imiwnocemegol ar ysgarthion wedi'u profi o fewn safon 7 diwrnod Sgrinio Coluddion Cymru	Gwyrdd
Amser aros ar gyfer asesiad cyn cael colonosgopi – mae'r holl ganolfannau Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cyrraedd y safon 14 diwrnod (amser aros cyfartalog o 6 diwrnod, ystod ar draws y 14 o ganolfannau sgrinio 3-11 diwrnod)	Gwyrdd
Amser aros ar gyfer colonosgopi sgrinio mewn byrddau iechyd – mae pob un o'r 14 o unedau endosgopi sgrinio mewn byrddau iechyd ar hyn o bryd y tu allan i safon cyfanswm amser aros 28 diwrnod Sgrinio Coluddion Cymru (amser aros cyfartalog o 58 diwrnod, ystod 36-116 diwrnod ar draws y 14 o ganolfannau)	Coch
Canlyniad Sgrinio: Cyfraddau canfod mewn Colonosgopi (i gyd yn unol â disgwyliadau'r boblogaeth sgrinio ddiwygiedig 50-74 oed): Cyfradd Canfod Canser – 6% Cyfradd Canfod Polypau – 71% Cyfradd Canfod Adenoma – 56%	Gwyrdd

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio coluddion – 90% i dderbyn triniaeth colonosgopi mynegeio/ sigmoidosgopi hyblyg o fewn 4 wythnos i drefnu apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol


Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn comisiynu colonosgopi sgrinio gan bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae amseroldeb yn allweddol ar gyfer canfod canser y coluddyn yn gynnar a chyflawni targedau llwybr canser sengl. Nid yw'r safon amseroldeb y dylai 90% o gyfranogwyr dderbyn colonosgopi mynegeio o fewn pedair wythnos i drefnu apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol yn cael ei chyrraedd ar hyn o bryd. Dangosodd adroddiad mis Tachwedd 2025 gydymffurfiaeth o 22.5%.

Amser aros ar gyfer apwyntiad triniaeth Colonosgopi Mynegeio/Sigmoidosgopi Hyblyg o fewn 4 wythnos i Drefnu

Apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol – Edrych yn ôl Fesul Bwrdd Iechyd



Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad triniaeth Colonosgopi Mynegeio/Sigmoidosgopi Hyblyg o fewn 4 wythnos i Drefnu Apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol – Edrych yn ôl (Cymru Gyfan)



Ar 6 Chwefror 2026, roedd yr amser cyfartalog ar gyfer colonosgopi sgrinio ledled Cymru yn wyth wythnos a dau ddiwrnod gyda'r amser aros yn amrywio o bum i 16 wythnos ar draws 14 o ganolfannau sgrinio mewn byrddau iechyd.

- **BIP Aneurin Bevan:**

Canolfan sgrinio – Ysbyty Fawr.

Amser aros – 8-wythnos 2-ddiwrnod.

- **BIP Bae Abertawe:**

Canolfan sgrinio – Singleton/Treforys.

Amser aros – 15-wythnos 3-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Tywysog Philip (rhestr Abertawe).

Amser aros – 16-wythnos 4-diwrnod.

- **BIP Betsi Cadwaladr:**

Canolfan sgrinio – Ysbyty Gwynedd.

Amser aros – 7-wythnos 3-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Ysbyty Glan Clwyd.

Amser aros – 7-wythnos 6-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Maelor Wrecsam.

Amser aros – 7-wythnos 5-diwrnod.

- **BIP Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro:**

Canolfan sgrinio – Llandochoau.

Amser aros – 5-wythnos 2-ddiwrnod.

- **BIP Cwm Taf Morgannwg:**

Canolfan sgrinio – Tywysog Siarl.

Amser aros – 10-wythnos 4-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Amser aros – 9-wythnos 1-diwrnod.

- **BIP Hywel Dda:**

Canolfan sgrinio – Glangwili.

Amser aros – 10-wythnos 4-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Llwynhelyg.

Amser aros – 5-wythnos 6-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Bronglais.

Amser aros – 5-wythnos 6-diwrnod.

Canolfan sgrinio – Tywysog Philip (rhestr Hywel Dda).

Amser aros – 5-wythnos 4-diwrnod.

- **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:**

Canolfan sgrinio – Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu.

Amser aros – 6-wythnos 0-diwrnod.

Mae amseroedd aros hir ar gyfer colonosgopi sgrinio yn cyflwyno gorbryder y gellir ei osgoi ymhlith cyfranogwyr sy'n cael prawf sgrinio positif, ac mae rhai ohonynt yn aros 16 wythnos ar hyn o bryd am golonosgopi sgrinio. Mae amseroedd aros hir yn cynyddu'r risg o ddatblygiad y clefyd. Dangosodd astudiaethau a gynhaliwyd yn sgil pandemig 2020 fod cleifion sy'n cael canlyniad positif am brawf imiwnocemegol ar ysgarthion yn profi niwed clinigol gan fod ganddynt gyfradd uwch o ganser y coluddyn o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae tystiolaeth o ddatblygiad y clefyd pan fydd amseroedd aros am golonosgopi yn fwy na 26 wythnos (Brenner, 2024; Pellise 2020). Er bod yr amseroedd aros am sgrinio ar hyn o bryd yn is na 26 wythnos yng Nghymru, gallai amseroedd aros hir am golonosgopi arwain at ganlyniadau clefyd andwyol i rai cyfranogwyr.

Mae Sgrinio Coluddion Cymru wedi gweithio'n agos iawn gyda'r holl fyrddau iechyd i gryfhau eu perfformiad yn erbyn safonau amser aros colonosgopi sgrinio a sicrhau bod gweithgarwch a gomisiynwyd yn cael ei gyflawni. Mae'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd hyd yma i fynd i'r afael â gwelliannau o ran amseroldeb colonosgopi sgrinio yn cynnwys:

- ❖ Cynnal cyfarfodydd Prif Weithredwr i Brif Weithredwr rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2025 gyda'r holl fyrddau iechyd, a oedd yn drafodaethau a ganolbwyntiodd ar atebion. Yn dilyn y rhain, mae llythyrau wedi'u hanfon at fyrddau iechyd gyda chamau gweithredu penodol ac adborth ar themâu. Roedd hyn yn cynnwys cais i fyrddau iechyd ddarparu cynllun i adfer elfennau'r gwasanaeth sydd o fewn eu rheolaeth uniongyrchol o fis Ebrill 2026.
- ❖ Gweithio gyda Pherfformiad a Gwella'r GIG ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu Rhestr Orlhain Cleifion (PTL), sy'n ddangosfwrdd ac offeryn cynllunio penodol i Sgrinio Coluddion y gall tîm olrhain canser y bwrdd iechyd eu defnyddio i gael offer cynllunio amser real er mwyn rheoli eu hatgyfeiriadau sgrinio cleifion yn well.
- ❖ Cynnal cyfarfodydd perfformiad misol gyda phob tîm endosgopi yn y byrddau iechyd er mwyn adolygu gweithgarwch, amseroedd aros, a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar ddeall pwysau lleol, asesu trywyddau Rhestr Orlhain Cleifion (PTL), a chytuno ar gamau gweithredu wedi'u targedu lle mae perfformiad yn is na'r safonau disgwylidig.
- ❖ Gweithio gyda byrddau iechyd i nodi atebion lle mae perfformiad yn erbyn asesiad cyn cael colonosgopi wedi gostwng, gan gynnwys darparu cymorth canolog a hwyluso cydgymorth rhwng byrddau iechyd. O ganlyniad, mae'r holl fyrddau iechyd bellach yn

cydymffurfio 100% â safon asesu cyn cael colonosgopi 14 diwrnod yr Ymarferydd Sgrinio Arbenigol.

- ❖ Ehangu nifer y colonosgopyddion sgrinio achrededig drwy ddiwrnodau mentoriaeth a diwrnodau asesu o fis Ionawr i fis Ebrill 2026, i gefnogi ymgeiswyr sy'n symud drwy'r llwybr achredu ar hyn o bryd – sy'n ofynnol i gynnal colonosgopiau sgrinio Disgwylir i hyn gynyddu capasiti colonosgopi sgrinio dros y misoedd i ddod.
- ❖ Treialu gweithredu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wella effeithlonrwydd gan ganolbwyntio ar leihau rhwystrau gweithredol, gwell amseroedd adrodd i gyfranogwyr, a rhyddhau capasiti colonosgopyddion ar gyfer gweithgarwch clinigol. Mae'r cynllun peilot wedi cael ei ehangu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gyda'r bwriad o'i ehangu ledled Cymru.
- ❖ Darparu cymorth â ffocws i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sy'n profi prinder sylweddol o ran capasiti colonosgopyddion. Gofynnwyd am gydgymorth gan fyrddau iechyd eraill, ac mae'r rhaglen sgrinio yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r sefydliad i gwblhau cynllun adfer.
- ❖ Yn dilyn y cyfarfodydd gyda'r byrddau iechyd, cynhaliwyd cyfarfod dilynol ar 2 Rhagfyr gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwella'r GIG i ystyried ac adolygu camau gweithredu sy'n cael eu datblygu.

2.2.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn bwriadu sefydlu 'Prosiect Gwella Sgrinio Colonosgopi' pwrpasol yn 2026. Bydd y prosiect yn dod â thimau endosgopi byrddau iechyd a phartneriaid cenedlaethol allweddol at ei gilydd, gan gynnwys Perfformiad a Gwella'r GIG a'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, i gydlynu ymdrechion i gryfhau gwydnwch gwasanaethau ac ehangu capasiti colonosgopi sgrinio craidd. Y nod cyffredinol yw gwella amseroldeb ymchwiliadau i gyfranogwyr sydd â chanlyniad prawf imiwnocemegol ar ysgarthion positif. Mae'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen wella hon, ynghyd â'r trywyddau perfformiad arfaethedig, wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Trywydd adfer: Amcangyfrifir y bydd o fewn y 6–12 mis safonol (Nid yw adfer o fewn rheolaeth uniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru o ystyried

bod mynediad at golonosgopiau o fewn y gwasanaeth wedi'i gomisiynu gan fyrddau iechyd).

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Sefydlu 'Prosiect Colonosgopi' ffurfiol mewn cydweithrediad â byrddau iechyd, y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, a Pherfformiad a Gwella'r GIG	Mawrth 2026
Datblygu'r Gweithlu:	
Datblygu templed asesu'r gweithlu a chynllunio olyniaeth Cymru gyfan	Ebrill - Mehefin 2026
Cwblhau llwybr achredu a chynllun capasiti mentoriaeth	Gorffennaf - Rhagfyr 2026
Adolygu'r fframwaith cymhwysedd Ymarferydd Sgrinio Arbenigol a rolau safonol	Ebrill - Medi 2026
Llunio Adroddiad Blynyddol ar Gapasiti a Chynaliadwyedd y Gweithlu ar gyfer Cymru	Gorffennaf 2026 - Mawrth 2027
Darparu Gwasanaethau a Rheoli Capasiti:	
Modelu capasiti a chynllunio byrddau iechyd	Ebrill - Mehefin 2026
Templedi amserlennu safonedig, rhagdybiaethau cynhyrchiant	Ebrill - Mehefin 2026
Gweithredu Rhestr Olrhain Cleifion (PTL) ar gyfer monitro amseroedd aros a chyfraddau prosesu	Gorffennaf - Medi 2026
Datblygu cynnig ar gyfer adnodd wrth gefn Cymru gyfan	Gorffennaf 2026 - Gorffennaf 2027
Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol diwygiedig a gwell yn erbyn y safon 28 diwrnod	Mawrth 2026 - Medi 2027
Cydweithio Rhanbarthol ac Optimeiddio Gwasanaethau:	
Ymgymryd â mapio adnoddau Cymru Gyfan	Ebrill - Mehefin 2026
Sefydlu cytundebau cydgymorth a chynlluniau peilot rhwng byrddau iechyd	Gorffennaf 2026 - Mawrth 2027
Cyflwyno pecyn cymorth rheoli ymchwydd a chynlluniau wrth gefn	Gorffennaf - Mehefin 2026
Cynnal adolygiad a dadansoddiad o fylchau'r Ganolfan Atgyfeirio Genedlaethol	Ionawr - Mawrth 2026
Diweddarau safonau cyflawni Ymarferydd Sgrinio Arbenigol a Threfniadau Gweithredu Safonol	Ionawr 2026 - Gorffennaf 2027
Monitro a Rheoli Perfformiad Parhaus	
Parhau cyfarfodydd perfformiad rheolaidd gyda thimau endosgopi byrddau iechyd	Parhaus
Datblygu camau lleol i leihau amseroedd aros gyda byrddau iechyd	Ionawr 2026 - Mawrth 2028
Sefydlu dulliau sicrwydd gan fyrddau iechyd ar gyfer gweithgarwch i reoli ôl-groniadau	Ionawr - Mawrth 2026
Achrediad JAG:	
Cynnydd cyflymach ymgeiswyr presennol i gyflawni achrediad	Ionawr - Mehefin 2026

2.3 Sgrinio'r Fron

Nod Rhaglen Sgrinio'r Fron yw lleihau cyfraddau marwolaethau drwy nodi cancer y fron yn ei gamau cynnar, yn aml cyn i symptomau ymddangos.

2.3.1 Ein rôl

Mae Bron Brawf Cymru yn cyflwyno'r rhaglen genedlaethol sgrinio'r fron sy'n seiliedig ar y boblogaeth ar gyfer Cymru. Mae'n gyfrifol am y llwybr sgrinio cyfan hyd at ddiagnosis o ganser y fron pan fydd y cyfranogwyr yn cael eu trosglwyddo i'r byrddau iechyd ar gyfer profion pellach (os oes angen) a thriniaeth ar gyfer y cancer wedi'i ganfod drwy sgrinio. Caiff menywod 50 i 70 oed, sy'n byw yng Nghymru ac wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu, eu gwahodd am famogram bob tair blynedd. Mae sgrinio yn cael ei gynnis naill ai ar uned symudol yn eu cymuned neu mewn un o'r canolfannau yn Llandudno, Wrecsam, Abertawe neu Gaerdydd. Os arsylwir unrhyw annormaleddau ar y mamogram, gwahoddir y fenyw i glinig asesu er mwyn cael rhagor o brofion.

Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf (sydd i'w gyhoeddi cyn bo hir) yn dangos bod 133,339 o fenywod wedi manteisio ar eu cynnis sgrinio gyda 174,364 o fenywod wedi'u gwahodd. Cafodd 1,303 o ganserau eu canfod ac o'r rhai roedd 1,081 yn friwiau ymledol gyda 432 wedi'u dosbarthu fel rhai bach (*llai na 15mm*).

Mae Bron Brawf Cymru yn prynu sesiynau drwy gytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gan y byrddau iechyd ar gyfer llawfeddygon, radiolegwyr a phatholegwyr dynodedig sy'n arbenigo mewn diagnosis a thriniaeth y fron gan y byrddau iechyd drwy CLG. Mae'r ymgynghorwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel timau amlddisgyblaethol ym mhob canolfan Bron Brawf Cymru. Mae'r llawfeddygon yn mynychu'r clinigau asesu a arweinir gan radiolegol, y tîm amlddisgyblaethol a'r clinig canlyniadau a'r arfer arferol wedyn yw ymgymryd â thriniaeth lawfeddygol i'r menywod y maent wedi'u gweld yn eu clinig.

Elfen Llwybr	Cyfrifoldeb
Galw ac ailalw cyfranogwyr cymwys	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi gwahoddiadau sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Mamograffeg	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Darllen delweddau/cyflafareddu	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi canlyniadau	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyswllt ffôn i gyfranogwyr	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Clinigau Asesu'r Fron	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol ar y Cyd	Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd
Triniaethau diagnostig eraill ar ôl diagnosis o ganser	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Trin canser y fron wedi'i ganfod drwy sgrinio	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.3.2 Y sefyllfa bresennol


Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio'r fron – 70% yn manteisio ar y cynnig sgrinio bob blwyddyn

Y targed cenedlaethol ar gyfer y ganran sy'n cael eu sgrinio am ganser y fron yw 70%, fel y pennwyd gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. Mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ac amrywiadau yn y ganran yng Nghymru yn cael eu monitro gyda'r ganran ddiweddaraf (menywod sy'n manteisio ar eu cynnig o fewn chwe mis) ychydig o dan y targed 70% ar 69.2%. Mae'r ffigurau blynyddol sydd i'w cyhoeddi cyn bo hir yn dangos bod y cwmpas wedi gwella gyda 70% o fenywod yn manteisio ar eu cynnig o fewn y tair blynedd diwethaf ac mae'n cyflawni'r targed o 70%. Noder bod yr oedi wrth gyhoeddi adroddiadau blynyddol oherwydd yr amser angenrheidiol i grynhoi a dilysu'r data canser.

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio'r fron – 90% o wahoddiadau asesu o fewn tair wythnos i'r sgrinio

Mae amseroldeb yn allweddol i sicrhau bod canser y fron yn cael ei ganfod yn gynnar a chyflawni targedau llwybr canser sengl. Nid yw'r safon amseroldeb y dylai 90% o wahoddiadau asesu gael eu rhoi o fewn tair wythnos i sgrinio yn cael ei chyrraedd ar hyn o bryd. Mae adroddiadau'n dangos bod 28.3% o gyfranogwyr ledled Cymru wedi cael eu gwahoddiadau asesu o fewn tair wythnos i'w mamogram sgrinio ym mis Rhagfyr 2025. Cafodd 65.3% o gyfranogwyr eu hasesiad o fewn y safon yn rhanbarth y Gorllewin, 26.4% yn y De a dim o fewn y safon yn rhanbarth y Gogledd.

Gwahoddiadau asesu a roddwyd o fewn 3 wythnos i'r sgrinio




Mae ôl-groniad yn rhanbarth y Gogledd gyda'r amseroedd aros am asesu dros 11 wythnos. Arweiniodd absenoldeb oherwydd salwch llawfeddygon a gafodd eu contractio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at ganslo clinigau asesu yn Bron Brawf Cymru Wrecsam am chwe mis. Cafodd y rhain eu hadfer ym mis Gorffennaf 2025, ond nid yw'r ôl-groniad sylweddol wedi'i ddatrys eto. Mae prinder clinigol difrifol yng Ngogledd Cymru, sy'n effeithio ar ddarllen ac mae diffyg gwydnwch y cymorth llawfeddygol yn effeithio ar gapasiti asesu. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Mae cyfyngiadau o ran staffio clinigau asesu yn uned Llandudno yng Ngogledd Cymru, gan na ellir cynnal clinigau asesu dan arweiniad radioleg o ganlyniad i ofynion clinigol lleol gan lawfeddygon. Mae hyn wedi arwain at ganslo clinigau a chynnydd mewn amseroedd aros am asesu. Mae hyn wedi'i uwchgyfeirio at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ac mae'n aros am ddatrasiad.

Mae amseroedd aros am asesu yng Ngorllewin Cymru a De Cymru yn well na Gogledd Cymru, ond nid ydynt yn cyrraedd y safon ym mis Rhagfyr 2025, gydag amseroedd aros o ddim mwy na phum wythnos. Mae'r capasiti clinigol yn well yn y De a'r Gogledd, ond mae gwydnwch a chwmpas cyfyngedig am gapasiti ychwanegol o fewn y timau rhanbarthol ac felly maer amser aros am asesu yn cael ei effeithio pan fydd staff yn y rhanbarthau yn cael absenoldeb heb ei gynllunio ac ar adegau pan fydd staff yn cymryd eu habsenoldeb wedi'i gynllunio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella gwydnwch amseroedd darllen drwy symud i weithredu tîm darllen Cymru gyfan.


Amser aros o sgrinio'r fron i apwyntiad asesu – Rhagfyr 2025



Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio'r fron – 90% o ganlyniadau normal yn cael eu hanfon o fewn pythefnos i'r sgrinio

Yr allwedd i amseroldeb asesu yw'r amser a gymerir i ddarllen y mamogramau gyda 90% o'r canlyniadau normal yn cael eu hanfon o fewn pythefnos i'r sgrinio. Mae'r safon hon yn cael ei chyrraedd yn gyson yn rhanbarthau'r De a'r Gorllewin. Mae'r safon hon wedi bod yn anodd ei chyrraedd yng Ngogledd Cymru o ystyried mai dim ond tri aelod o staff sy'n ddarllenwyr ffilm cymwysedig a'r amser aros oedd pedair wythnos ym mis Rhagfyr 2025. Cymhwysodd aelod ychwanegol o staff ym mis Rhagfyr 2025, ac mae dau aelod arall o staff yn cael eu hyfforddi a disgwylir iddynt gymhwyso erbyn mis Gorffennaf 2026.

Anfonwyd Canlyniadau Normal o fewn 2 Wythnos i'r Sgrinio



Effaith hyn yw bod amseroedd aros hir ar gyfer asesiad sgrinio'r fron yn cyflwyno gorbryder y gellir ei osgoi i gyfranogwyr y mae angen eu gwahodd i gael rhagor o brofion, ac mae rhai ohonynt yn aros dros 11 wythnos. Bydd oedi o ran asesu yn effeithiol ar amseroldeb diagnosis o ganser y fron a gallai effeithio ar amser y driniaeth gyntaf i gydymffurfio â thargedau'r llwybr canser sengl (triniaeth gyntaf 62 diwrnod). Mae effaith glinigol oedi wrth roi diagnosis o ganser y fron mewn menywod

asymptomatig yn dibynnu ar faint y tiwmor, cyfranogiad y nodau lymff a'r radd histolegol. Nododd tystiolaeth o adolygiad (Duffy, 2022) o effaith oedi wrth sgrinio yn ystod pandemig COVID-19 dair effaith bosibl oedi. Y rhain yw canser wedi'i ganfod drwy sgrinio yn cael ei ganfod yn ddiweddarach, carcinoma dwythellol yn y fan a'r lle yn datblygu'n ganser y fron a chanser y fron asymptomatig yn datblygu'n symptomatig. Amcangyfrifir bod yr amser cymedrig i ganser y fron asymptomatig ddod yn symptomatig yn dair blynedd (Taghipour, 2013).

Mae monitro gweithredol wythnosol o amseroldeb ym mis Chwefror 2026 yn dangos sefyllfa well yn y Gorllewin a'r De gydag amseroedd aros asesu wedi'u lleihau. Nododd monitro ar gyfer wythnos gyntaf mis Chwefror mai'r amser aros hiraf am asesu ar gyfer menyw yng Ngorllewin Cymru yw tair wythnos ac yn Ne Cymru mae'n bedair wythnos. Mae'r amseroldeb darllen yn gyson o fewn y safon yn rhanbarthau'r Gorllewin a'r De ac mae wedi gwella yn ddiweddar yn rhanbarth y Gogledd ac ar hyn o bryd mae'n cyrraedd y safon. Mae'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd hyd yma i wella amseroldeb asesu sgrinio yn cynnwys:

- ❖ Canolbwyntiodd cyfarfodydd ar lefel Cyfarwyddwr Meddygol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatrys yr ôl-groniad sy'n deillio o absenoldeb clinigau Wrecsam am chwe mis ar y bwrdd iechyd yn rhoi capasiti llawfeddygol gwydn ar waith a datrys llwybr llawfeddygol wrth symud ymlaen ar gyfer clinigau dan arweiniad radiolegol. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw ddatrysiad wedi'i ddatblygu hyd yma, anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2025 i uwchgyfeirio hyn a gofyn am ddatrysiad.
- ❖ Darparu cymorth darllen i Ogledd Cymru o ranbarthau'r Gorllewin a'r De a chynyddu'r capasiti drwy staff hyfforddedig ychwanegol.
- ❖ Optimeiddio archebion clinigol i sicrhau bod yr holl slotiau'n cael eu harchebu a bod apwyntiadau ar fyr rybudd yn cael eu cynnig.
- ❖ Cynnal clinigau dan arweiniad radiolegol i osgoi canslo clinigau asesu.
- ❖ Cytuno y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyllido clinigau asesu ychwanegol i leihau'r ôl-groniad, sy'n cael eu cynllunio ym mis Chwefror a mis Mawrth.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n cynnal adolygiad manwl o'r Rhaglen Sgrinio'r Fron, ac mae disgwyl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol ar ddechrau 2026.

Mae lleihau rhwystrau a gwella mynediad yn flaenoriaeth i'r rhaglen gydag 11 o unedau sgrinio symudol wedi'u lleoli yng nghanol cymunedau,

gan gynnwys meysydd parcio archfarchnadoedd a lleoliadau cymunedol eraill. Mae fideo llwybr sgrinio'r fron 'Sgrinio'r Fron – yr hyn i'w ddisgwyl' wedi'i ddatblygu i helpu pobl i ddeall beth yw sgrinio'r fron a pham mae'n bwysig. Yn ddiweddar, mae'r rhaglen wedi cyflwyno ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer mis ymwybyddiaeth o sgrinio'r fron, a oedd yn cynnwys cyfathrebu wedi'i dargedu ar gyfer gwahoddedigion tro cyntaf.

2.3.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Trywydd adfer:

- ❖ Darllen yn cyrraedd y safonau (De a Gorllewin Cymru o fewn y safon. Adferiad Gogledd Cymru ym mis Chwefror 2026)
- ❖ Asesu yn cyrraedd y safonau (Adferiad De a Gorllewin Cymru ym mis Mawrth 2026. Adferiad Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2026)

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Gwella Amseroldeb Darllen yn Rhanbarth y Gogledd	
Gweithredu cymorth darllen traws-ranbarthol o ranbarthau'r Gorllewin a'r De.	Ar waith
Gwella llif gwaith adrodd traws-safle drwy optimeiddio llif gwaith Cymru Gyfan.	Chwefror - Mai 2026
Archwilio a defnyddio sesiynau darllen ychwanegol gyda'r nos/ar benwythnosau os oes angen.	Chwefror 2026
Sicrhau bod cysylltedd rhwydwaith yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru yn dilyn datrysiad.	Chwefror 2026
Hyfforddi a chymhwyso darllenwyr ffilm newydd ledled Gogledd Cymru.	Ionawr - Gorffennaf 2026
Gwella amseroldeb Clinigau Asesu	
Rheoli clinigau asesu yn weithredol o amgylch gwyliau blynyddol llawfeddygon.	Ar waith
Cynnal capasiti asesu craidd ac osgoi achosion o ganslo.	Ionawr - Gorffennaf 2026
Adeiladu cymorth nyrsio gwydn yn ystod salwch/gwyliau.	Chwefror - Mawrth 2026
Recriwtio llawfeddygon ymgynghorol (Hywel Dda, PBC) i gryfhau gwydnwch y gweithlu	Chwefror – Medi 2026
Cynnal clinigau asesu ychwanegol yng Ngogledd Cymru i leihau ôl-groniadau.	Chwefror – Mawrth 2026
Datrys cyfyngiadau llawfeddygol i'r llwybr sgrinio yn PBC (Llandudno).	Mai 2026
Gweithio ar y cyd â PBC ar ddarpariaeth lawfeddygol gynaliadwy sy'n gyson â'r angen.	Ionawr – Mai 2026
Parhau i hyfforddi clinigwyr y fron a radiograffeg i ehangu capasiti.	Ionawr – Rhagfyr 2026
Gweithio gyda PBC i recriwtio radiologydd ymgynghorol ar y cyd ar gyfer swydd wag hirdymor	Hydref 2026

2.4 Sgrinio Serfigol

Nod sgrinio serfigol yw atal cancer serfigol rhag datblygu neu ei nodi ar gam cynnar. Mae'r prawf sgrinio serfigol yn chwilio am fathau risg uchel o Feirws Papiloma Dynol (HPV) sy'n gallu achosi newidiadau ar wddf y groth. Gall dod o hyd i newidiadau i'r celloedd ar gam cynnar atal cancer serfigol rhag datblygu.

2.4.1 Ein rôl

Mae'r rhaglen yn gwahodd unigolion 25-64 oed (anfonir y gwahoddiadau cyntaf yn 24.5 oed) i gael eu sgrinio, yn seiliedig ar gofrestru gyda meddyg teulu. Gwahoddir pob unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel menyw gyda'i meddyg teulu oni bai ei bod wedi optio allan neu mae ei chyfnod yn y rhaglen wedi dod i ben. Gall unigolion â gwddf y groth nad ydynt wedi cofrestru fel menyw gyda'u meddyg teulu gael sgrinio drwy gysylltu â Sgrinio Serfigol Cymru neu eu meddyg teulu yn uniongyrchol. Mae'r prawf sgrinio sylfaenol yn gwirio am bresenoldeb HPV risg uchel, sef prif achos cancer serfigol. Bydd unigolion sy'n cael canlyniad negatif yn cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd a'u gwahodd eto ymhen pum mlynedd i gael eu sgrinio eto.

Lle mae sampl yn profi'n bositif am HPV risg uchel bydd hyn yn destun sytolog adlewyrchol i chwilio am newidiadau i'r celloedd. Gwneir atgyfeiriad i golposgopi ar gyfer unrhyw unigolyn lle mae newidiadau i'r celloedd yn cael eu nodi. Os na nodir unrhyw newidiadau i'r celloedd, caiff yr unigolyn ei dychwelyd i ailalw cynnar ymhen 12 mis i gael ei sgrinio eto. Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r rhaglen hyd at y pwynt pan roddir diagnosis o ganser serfigol.


Elfen Llwybr	Cyfrifoldeb
Galw ac Ailalw cyfranogwyr cymwys	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi gwahoddiadau sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sampl sgrinio serfigol	Comisiynir gan feddygfeydd teulu neu glinigau iechyd rhywiol mewn byrddau iechyd
Profion HPV	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sytolog	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi canlyniadau	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyswllt ffôn i gyfranogwyr	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Colposgopi	Colposgopi wedi'i gomisiynu gan fyrddau iechyd – atgyfeirio a thrin newidiadau i'r celloedd
Trin cancer serfigol wedi'i ganfod drwy sgrinio	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan y rhaglen)

2.4.2 Y sefyllfa bresennol

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio serfigol – 90% yn cael apwyntiad colposgopi o fewn 8 wythnos i atgyfeirio uniongyrchol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn comisiynu colposgopi sgrinio gan fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae amseroldeb yn allweddol i sicrhau archwiliad cynnar o unrhyw newidiadau celloedd annormal i wddf y groth a'r meinwe. Nid yw'r safon amseroldeb y dylai 90% o gyfranogwyr dderbyn apwyntiad colposgopi o fewn wyth wythnos i atgyfeirio uniongyrchol yn cael ei chyrraedd yn gyson. Mae adroddiadau'n dangos bod 98.3% o'r cyfranogwyr wedi cael eu colposgopi o fewn y safon yn adroddiad mis Rhagfyr 2025.

Amser aros ar gyfer apwyntiad colposgopi – holl atgyfeiriadau uniongyrchol Sgrinio Serfigol Cymru (8 wythnos)



Amser Aros ar gyfer Apwyntiad Colposgopi – Holl Atgyfeiriadau Uniongyrchol Sgrinio Serfigol Cymru (8 wythnos) yn ôl Bwrdd Iechyd

Bwrdd Iechyd	Cyfartaledd yn 2025
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	98%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	97%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*	81%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	97%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	90%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	92%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	96%

*Data BIP Caerdydd a'r Fro Ionawr-Gorffennaf yn unig oherwydd diffyg argaeledd data o fis Gorffennaf ymlaen o ganlyniad i broblem mudo system yn atal echdynnu data.

Tabl 1: Amser Aros ar gyfer Apwyntiad Colosgopi – Pob Atgyfeiriad Uniongyrchol CSW (8 wythnos) gan y Bwrdd Iechyd

Proseswyd dros 105,000 o samplau sgrinio serfigol yn 2025. Mae hyn yn cynrychioli llai o samplau nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd y newid yn y cyfnod sgrinio o dair i bum mlynedd ar gyfer canlyniadau HPV negatiff a gyflwynwyd o fis Ionawr 2022. Rhagwelir y bydd y blynyddoedd i ddod yn gweld cynnydd mewn samplau (ar lefelau tebyg i'r rhai yn ystod misoedd cynharach y flwyddyn hon) wrth i'r carfanau hyn gael eu hailwahodd yn eu cyfnod newydd.

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio serfigol – 80% o gwmpas sy'n briodol i oedran

Mae cwmpas sgrinio serfigol wedi parhau i ddilyn tuedd sy'n gostwng fel y gwelwyd mewn gwledydd eraill y DU ac mae'n parhau i fod yn is na'r safon o 80%. Gyda'r newid yn y cyfnod sgrinio, bydd y metrig cwmpas yn cael ei safoni ar draws pob grŵp oedran cymwys. Mae data ar gyfer mis Hydref 2025 yn y tabl isod yn adlewyrchu'r cwmpas yn seiliedig ar y cyfnod pum mlynedd cyfredol.

Cwmpas Addas i'r Oedran Sgrinio Serfigol				
2025	Ionawr	Ebrill	Gorffennaf	Hydref
Cyfun	67.3	67.1	66.8	71.4
25-49 3.5 mlynedd	66.0	65.9	65.5	72.8*
50-64 5.5 mlynedd	69.5	69.3	69.1	69.1
*Priodol i oedran yn seiliedig ar gyfrifiad 5.5 mlynedd (h.y. ailalw pum mlynedd gyda lwfans 0.5 mlynedd ar gyfer manteisio ar y cynnig sgrinio)				

Tabl 2: Sylw sgrinio ceg y groth 2025

Noder mai targed Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer dileu canser serfigol yw sicrhau bod 70% o fenywod yn cael eu sgrinio erbyn 35 oed ac eto erbyn 45 oed gyda phrawf perfformiad uchel. Rydym wedi defnyddio arbenigedd gwyddor ymddygiad i adolygu llythyrau gwahoddiad a sicrhau'r effaith fwyaf posibl gyda galwad glir i weithredu. Mae canran y rhai sy'n cael sgrinio serfigol isaf yn y grwpiau oedran ieuengaf a gwahoddedigion tro cyntaf. Mae cynllun peilot o'r llythyrau gwahoddiad diwygiedig sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad ar gyfer yr unigolion iau yn mynd rhagddo.

2.4.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Camau gwella sy'n mynd rhagddynt:

- ❖ Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu ymyrraeth i gynnal galwadau ffôn i'r rhai nad ydynt yn ymateb i sgrinio am y tro cyntaf yn y rhaglenni sgrinio nad ydynt yn ganser. Mae hyn bellach yn cael ei dreialu yn rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru sy'n gweithio gyda phractisau meddygon teulu.
- ❖ Mae cynllun peilot o'r llythyrau gwahoddiad sy'n cael eu llywio gan wyddor ymddygiad ar gyfer yr unigolion iau yn mynd rhagddo. Nod hyn yw gwella canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ymhlith y rhai sy'n cael eu gwahodd am y tro cyntaf i gael sgrinio serfigol. Disgwylir y set gyntaf o ddata interim ar hyn ar ddiwedd y mis.
- ❖ Y ffocws ar gyfer 2026 fydd cyflwyno hunansamplu ar gyfer sgrinio serfigol wedi'i dargedu i'r rhai nad ydynt yn cael eu sgrinio'n ddigonol yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ac i gefnogi amcan Sefydliad Iechyd y Byd i ddileu canser serfigol. Bydd hyn yn golygu bod y cynnig o sampl sgrinio serfigol wedi'i hunangasglu ar gael i'r unigolion hynny sy'n anaml neu byth yn manteisio ar eu cynnig sgrinio.
- ❖ Mae gwaith eisoes wedi dechrau i bennu cwmpas a phenderfynu ar y model cyflawni, pecynnau profi, prosesau labordy, llwybrau, gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgysylltu â phartneriaid ar draws y system. Mae hyn yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Hunansamplu sydd â mewnbwn gan sefydliadau trydydd sector allweddol, arweinwyr o'r sector iechyd, a'r rhaglen sgrinio. Mae Sgrinio Serfigol Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno hunansamplu cyn diwedd y flwyddyn galendr.

2.5 Sgrinio Llygaid Diabetig

Nod Sgrinio Llygaid Diabetig (DESW) yw canfod retinopathi diabetig yn gynnar ac atal colli golwg o glefyd diabetig y llygaid. Mae sgrinio llygaid diabetig yn chwilio am arwyddion o retinopathi diabetig cyn i unrhyw symptomau ymddangos. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod nodi a thriniaeth gynnar yn gallu atal colli golwg mewn 70–90% o bobl â retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg.

2.5.1 Ein rôl

Mae DESW yn rhaglen sgrinio wedi'i thargedu ar gyfer pawb 12 oed a throsodd sydd â diagnosis o ddiabetes, sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru. Gwahoddir pobl sy'n gymwys i gael sgrinio retina gyda DESW. Mae sgrinio llygaid diabetig yn rhan bwysig o ofal

diabetes ac mae'n un o'r naw proses gofal a argymhellir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar gyfer pobl sy'n byw gyda diabetes.

Tan yn ddiweddar, roedd pob cyfranogwr yn cael ei ailalw am ei apwyntiad sgrinio llygaid yn flynyddol. Fodd bynnag, yn dilyn rhagor o ymchwil a thystiolaeth glinigol, argymhellodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU y dylid newid y cyfnod sgrinio i bob dwy flynedd ar gyfer y cyfranogwyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf risg isel. Meini prawf risg isel yw pan fydd cyfranogwr wedi cael dwy radd canlyniad yn olynol o 'dim retinopathi' (ROM0) o leiaf 12 mis ar wahân. Gweithredwyd yr argymhelliad hwn ledled y DU, gyda Chymru yn gwneud y newid hwn ym mis Mehefin 2023. Nod y llwybr ailalw risg isel (LRRP) yw cynyddu capasiti o fewn y rhaglen drwy leihau amllder ailalw ar gyfer cyfranogwyr risg isel a lleihau'r anghyfleustra o sgrinio blynyddol i'r rhai sy'n wynebu risg isel o retinopathi diabetig.

Mae DESW yn gyfrifol am nodi, gwahodd a chynnig prawf sgrinio yn dilyn atgyfeiriad i'r rhaglen gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ôl diagnosis o ddiabetes (nid yw diabetes yn ystod beichiogrwydd a chyflwr cyn-ddiabetes wedi'u cynnwys). Mae DESW yn ymgymryd â chipio delweddau a graddio'r delweddau i bennu presenoldeb retinopathi a/neu faciwlopathi diabetig. Ar ôl prawf sgrinio positif, anfonir atgyfeiriad i Wasanaethau Llygaid Ysbyty. Ar adeg yr atgyfeiriad, trosglwyddir gofal y cyfranogwyr i'r byrddau iechyd priodol.


Efen Llwybr	Cyfrifoldeb
Galw ac Ailalw cyfranogwyr cymwys	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi gwahoddiadau sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cipio delwedd o'r retina mewn clinig sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Darparu lleoliad ar gyfer clinig sgrinio	Byrddau iechyd gyda rhai safleoedd sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru
Graddio delweddau retinol	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi canlyniadau	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyswllt ffôn i gyfranogwyr	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Mae Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn derbyn atgyfeiriadau sgrinio positif sydd â mwy na retinopathi cefndirol wedi'i nodi	Gwasanaethau llygaid byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Trin retinopathi sy'n bygwth golwg	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.5.2 Y sefyllfa bresennol

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio llygaid diabetig – cwmpas o 80% ar ôl 12 mis ar gyfer ailalw blynyddol

Nid yw'r safon amseroldeb cwmpas o 80% cwmpas ar 12 mis ar gyfer ailalw blynyddol yn cael ei chyrraedd ar hyn o bryd. Mae adroddiadau'n dangos bod y cwmpas ar 12 mis ar gyfer ailalw blynyddol yn parhau i fod yn is na'r safon ar 38.5% ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r cwmpas ar 24 mis ar gyfer y llwybr ailalw risg isel yn uwch ar 72.5%.

Cwmpas 12 mis



Ar hyn o bryd mae'r cwmpas ar 12 mis yn 38.5% gydag amrywiad daearyddol cyfyngedig yn ôl rhanbarth darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, mae amrywiad daearyddol yn y cwmpas ar draws ardaloedd byrddau iechyd yn amrywio o'r isaf o 29.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'r uchaf o 44.2% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae hyn yn gysylltiedig ag argaeledd lleoliadau mewn ardaloedd byrddau iechyd yn ogystal â'r llai o gapasiti cyffredinol i ateb y galw ledled Cymru.

Cwmpas blynyddol sgrinio llygaid diabetig yn ôl bwrdd iechyd 2023-24


Bwrdd Iechyd	Cyfranogwyr gweithredol cymwys	Canlyniadau a gofnodwyd	Cwmpas (%)
BIP Aneurin Bevan	29,938	8,801	29.4
BIP Betsi Cadwaladr	28,352	11,971	42.2
BIP Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	19,072	6,193	32.5

BIP Cwm Taf Morgannwg	21,359	6,894	32.3
BIP Hywel Dda	17,523	7,416	42.3
BILI Addysgu Powys	5,470	2,420	44.2
BIP Bae Abertawe	16,962	5,408	31.9
Cymru Gyfan	139,728	49,469	35.4

Tabl 3: Sylw blynyddol sgrinio llygaid diabetig gan fwrdd iechyd 2023-24

Cwmpas y llwybr ailalw risg isel ar 24 mis yw 72.5%, gydag amrywiad daearyddol cyfyngedig yn ôl rhanbarth darparu gwasanaeth.

Cwmpas 24 mis



Ar hyn o bryd mae dros 200,000 o gyfranogwyr cymwys wedi'u cofrestru gyda DESW ar gyfer sgrinio llygaid. Mae nifer yr achosion o ddiabetes ledled Cymru yn cynyddu'n sylweddol ac mae'r gwasanaeth yn cael tua 1,400 o atgyfeiriadau newydd y mis, sy'n gofyn am apwyntiad o fewn 90 diwrnod gan fod y rhain yn gyfranogwyr risg uwch. Mae DESW yn rhoi apwyntiad i dros 99% o gyfranogwyr sydd newydd gofrestru o fewn y cyfnod o 90 diwrnod. Gyda'r boblogaeth gynyddol o bobl sydd â diabetes yng Nghymru, mae'r boblogaeth sydd angen sgrinio llygaid yng Nghymru wedi tyfu 11% rhwng 2019 a 2024. Mae hyn yn peri heriau sylweddol i berfformiad ac, er gwaethaf ymgymryd â rhaglen drawsnewid dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bydd angen model amrywiol yn y dyfodol.

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio llygaid diabetig – 80% yn manteisio ar sgrinio yn dilyn gwahoddiad

Yn 2025, ym mhob rhanbarth yng Nghymru, aeth 91,161 o gyfranogwyr i apwyntiad sgrinio wedi'i drefnu ymlaen llaw o 111,935 o apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd gan arwain at ganran o 81.7% a gafodd sgrinio llygaid

Mae'r ganran wedi'i chynnal yn uwch na'r safon 80% drwy gydol 2025. Mae DESW yn darparu sgrinio llygaid gan ddefnyddio model rhanbarthol ar draws y Gogledd, y De a'r Gorllewin. Mae amrywiad cyfyngedig yn y ganran sgrinio yn rhanbarthol.

Mae'r model darparu gwasanaethau presennol yn dibynnu ar ddarparu lleoliadau addas gan fyrddau iechyd yn unol â'r Cytundebau Hirdymor sydd ar waith rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd. Mae'r lleoliadau wedi'u lleihau'n sylweddol ers y pandemig ac nid oes digon o gyfleusterau lleoliadau ledled Cymru i ateb y galw daearyddol. Mae lefelau salwch staff uwchlaw cyfartaledd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn effeithio ar achosion o ganslo clinigau. Mae nifer uchel o achosion o ganslo apwyntiadau amser penodol a diffyg presenoldeb o tua 20% mewn apwyntiadau clinig wedi'u trefnu hefyd yn effeithio ar y defnydd o glinigau.

Gallai effaith llai o gwmpas oherwydd oedi mewn amseroldeb cynnig sgrinio gynyddu nifer yr achosion lle nad yw retinopathi diabetig yn cael ei nodi yn gynnar. Mae retinopathi diabetig sy'n cael ei ganfod yn ddiweddarach yn gysylltiedig â cholli golwg yn barhaol. Gallai nifer fwy o bobl â diabetes gyflwyno gyda retinopathi diabetig symptomatig. Gallai oedi mewn amseroldeb y cynnig gynyddu gorbryder cyfranogwyr sy'n aros yn hirach am eu hapwyntiad.

Mae'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd hyd yma i wella amseroldeb sgrinio yn cynnwys:

- ❖ Cefnogi'r broses o ddarparu lleoliadau drwy unedau sgrinio symudol a gomisiynwyd gan Tenovus a dwy ganolfan sgrinio ychwanegol Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerdydd ac Aberpennar.
- ❖ Cyflawni datblygiadau allweddol o ran optimeiddio a thrawsnewid, fel rhan o raglen drawsnewid fewnol, i gryfhau busnes fel arfer, gwella darpariaeth gwasanaethau cyfredol a gweithio i nodi model gwasanaethau yn y dyfodol.
- ❖ Mae gweithredu ffurflenni e-atgyfeirio i wella ansawdd data a phrosesu data nifer fawr o atgyfeiriadau newydd wedi rhyddhau capasiti gweinyddol llwybr sgrinio i ôl-lenwi apwyntiadau clinig i wella'r defnydd o glinigau.
- ❖ Darparu clinigau estynedig gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- ❖ Modelu galw a chapasiti, a nododd y bydd angen amcangyfrif o 15,000 o apwyntiadau bob mis i ateb y galw disgwylidiedig. Mae'r model darparu gwasanaethau presennol sydd ar waith yn cynnwys 9,000 – 10,000 o apwyntiadau wedi'u trefnu ar gyfartaledd y mis.

- ❖ Cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r camerâu newydd, a gyflwynwyd ym mis Medi 2024. Mae'r rhaglen bellach yn edrych ar sut i wireddu budd posibl y camerâu, a fyddai'n canolbwyntio mwy ar y person ac yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau amseroedd apwyntiadau cyfranogwyr.
- ❖ Sefydlu Grŵp Prosiect Cynyddu Capasiti Clinigol ym mis Awst 2025, lle mae tri phrosiect gwella gwasanaethau mewnol wedi'u treialu a'u gwerthuso.
- ❖ Cynnal arfarniad opsiynau yn ystod 2026, ac achos busnes posibl sy'n deillio o hynny, i ddatblygu model gwasanaeth cynaliadwy, y mae modd ei ehangu sy'n ymgorffori'r cymwysiadau technoleg gorau posibl.

2.5.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Trywydd adfer: cwmpas o 60% erbyn 12 mis, cwmpas o 70% erbyn 24 mis, cwmpas o 80% erbyn 36 mis. (adferiad wedi'i fodelu yn seiliedig ar gynnydd amcanestynedig mewn capasiti o brosiectau gwella a nodir isod a defnydd gwell o glinigau)

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Prosiect Gwella Gwasanaethau Cynyddu Capasiti Clinigol:	
Gweithredu a gwerthuso modelau clinig galw heibio i wella hygyrchedd a chynyddu canran y rhai sy'n mynd i apwyntiadau.	Ionawr - Gorffennaf 2026
Cyflwyno a phrofi'r model clinig llwybr ailalw risg isel (LRRP) ar draws rhanbarthau i wella effeithlonrwydd gwasanaeth a phrofiad cyfranogwyr.	Ionawr – Gorffennaf 2026
Delweddu Retinol Heb Ymledu Arferol: Prosiect Gwerthuso:	
Cynllunio a chynnal clinigau gwerthuso ar gyfer diogelwch, dichonoldeb a derbynioldeb defnyddio dull mydriatig fesul cam o ddelweddu retinol.	Ionawr - Mai 2026
Gwerthuso'r dull delweddu retinol mydriatig fesul cam ac, os yw'n llwyddiannus, datblygu protocol mydriatig fesul cam i'w weithredu fel model clinig a mynd drwy brosesau llywodraethu perthnasol.	Ebrill - Hydref 2026
Cynllunio a gweithredu dull mydriatig fesul cam i optimeiddio capasiti clinig a gwella profiad cyfranogwyr.	Hydref 2026 - Ionawr 2027
Gwella'r Defnydd o Glinigau:	
Gweithredu'r modiwl Autobook i awtomeiddio amserlennu apwyntiadau a gwella effeithlonrwydd gwasanaeth.	Ionawr - Mehefin 2026
Cynyddu'r apwyntiadau sydd ar gael i gyrraedd safonau rhaglen interim (80%, 85%, 90%) drwy ôl-lenwi wedi'i dargedu ac optimeiddio capasiti.	Gorffennaf - Hydref 2026
Cryfhau mynediad digidol at apwyntiadau sgrinio drwy hyrwyddo ymarferoldeb archebu ar-lein drwy ymgysylltu â Grŵp Gofynion Defnyddwyr Apiau GIG Cymru.	Ionawr 2026 – Rhagfyr 2027

2.6 Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol

Nod Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru (WAAASP) yw lleihau marwolaethau o ganlyniad i ymlediad aortig toredig. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos y gall sgrinio dynion 65 oed leihau marwolaethau oherwydd ymlediad aortig toredig tua 50% mewn dynion 65-74 oed.

2.6.1 Ein rôl

Mae WAAASP yn gwahodd dynion 65 oed sy'n byw yng Nghymru am sgan uwchsain untro i wirio a oes ganddynt ymlediad aortig abdomenol (ymlediad). Mae'r prawf yn cynnwys sgan o'r aorta abdomenol, gan fesur rhan letaf yr aorta. Mae'r sgrinio yn cael ei gynnal mewn tua 60 o glinigau sgrinio cymunedol ledled Cymru gan gynnwys ysbytai cymunedol, clinigau iechyd, canolfannau adnoddau sylfaenol a phractisau meddyg teulu.

Mae dynion â diamedr aortig abdomenol o lai na 3cm yn cael eu rhyddhau o'r rhaglen. Mae dynion ag ymlediad bach neu ganolig yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gwylidwriaeth. Mae dynion ag ymlediad mawr 5.5cm neu fwy (neu dwf o 1cm neu fwy mewn 12 mis) yn cael eu hatgyfeirio i'r tîm Amlbroffesiynol Rhwydwaith Fasgwlaidd dewisol (y Tîm Amlddisgyblaethol).


Elfen Llwybr	Cyfrifoldeb
Galw ac Ailalw cyfranogwyr cymwys	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyhoeddi gwahoddiadau sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sgan uwchsain o'r aorta abdomenol, gan fesur rhan letaf yr aorta mewn clinig sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Darparu lleoliad ar gyfer clinig sgrinio	Byrddau iechyd gyda rhai safleoedd sefydlog Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyswllt ffôn i gyfranogwyr	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gwylidwriaeth o ddynion ag ymlediadau bach a chanolig	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfeirio dynion ag ymlediadau mawr yn brydlon i'r Tîm Amlddisgyblaethol Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol Rhanbarthol	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Y Tîm Amlddisgyblaethol Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol Rhanbarthol yn cael atgyfeiriad dynion ag ymlediadau mawr.	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Trin ymlediadau mawr	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.6.2 Y sefyllfa bresennol

Mae'r safon o atgyfeirio amserol i'r Tîm Amlddisgyblaethol Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol yn cael ei chyrraedd ar hyn o bryd. Mae adroddiadau'n dangos bod 100% o ddynion ag ymlediad mawr neu fawr iawn a ganfuwyd gan y rhaglen sgrinio wedi cael eu hatgyfeirio o fewn amserlenni. Ar gyfer ymlediaidau mawr iawn mae hyn yn digwydd ar yr un diwrnod ac erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol ar gyfer ymlediaidau mawr.


Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio ymlediaidau aortig abdomenol – 100% Atgyfeiriad amserol i'r Tîm Amlddisgyblaethol Fasgwlaidd Dewisol

Atgyfeiriad Amserol i'r Tîm Amlddisgyblaethol Rhwydwaith Fasgwlaidd Dewisol - Cymru Gyfan



Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio ymlediaidau aortig abdomenol – 80% Derby'n sgrinio o fewn 4 mis

Derbyn sgrinio o fewn 4 mis



Bwrdd Iechyd	Gwahoddwyd	Profwyd	% y rhai a gafodd brawf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	4,004	3,062	76.5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	5,520	4,267	77.3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	3,751	2,823	75.3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2,898	2,280	78.7
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	3,187	2,521	79.1
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	1,242	1,044	84.1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	2,806	2,166	77.2
Anhysbys	21	17	81.0
Cymru Gyfan	23,429	18,180	77.6

Tabl 4: Canran y rhai a gafodd sgrinio ymlediadau aortig abdomenol yn ôl bwrdd iechyd preswyl

2.6.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Mae'r Rhaglen wedi sefydlu ymyrraeth i gynnal galwadau ffôn i'r rhai nad ydynt yn ymateb i sgrinio am y tro cyntaf. Nod yr ymyrraeth yw cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar y cynnig sgrinio a lleihau anghydraddoldebau. Mae gwerthusiad o'r chwe mis cyntaf wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda gwelliant o ran canran y rhai sy'n cael eu sgrinio a hefyd gwelliant o ran nifer yr ymlediadau a ganfuwyd yn y garfan hon o bobl nad oeddent wedi ymateb yn flaenorol. Bydd gwerthusiad deuddeg mis yn cael ei gynnal cyn bo hir.

2.7 Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig

Nod Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig yw cynnig prawf sgrinio i bob babi cymwys, sgrinio am glefydau prin ond difrifol a fyddai'n cael budd o ymyrraeth gynnar a lleihau marwolaethau a/neu afiachedd yn sgil y cyflwr.

2.7.1 Ein rôl

Mae sampl fach o waed yn cael ei chymryd o sawdl y babi pan fydd tua phum diwrnod oed. Mae'r sampl gwaed yn cael ei sgrinio ar gyfer cyflyrau prin ond difrifol sy'n gallu achosi salwch difrifol neu hyd yn oed farwolaeth os na chânt eu trin yn gynnar. Yng Nghymru, cynigir sgrinio i bob babi am nifer o gyflyrau, gan gynnwys anhwylderau metabolig sy'n cael eu hetifeddu, yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Elfen Llwybr	Cyfrifoldeb
Gwybodaeth ddigidol sydd ar gael i alluogi cydsyniad ar sail gwybodaeth	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cynnig a chynnal sampl smotyn gwaed newydd-anedig	Byrddau iechyd
Cludo cardiau smotyn gwaed wedi'u cwblhau i'r labordy	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gwiriadau difeth bod cardiau smotiau gwaed wedi'u derbyn	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dadansoddi smotyn gwaed newydd-anedig	Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Atgyfeirio Cyflwr a Amheuir (sgrinio positif) yn brydlon i'r llwybr clinigol priodol	Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Llythyrau canlyniadau at deuluoedd	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Atgyfeiriad wedi'i dderbyn gan dîm clinigol priodol ar gyfer asesu a diagnosteg	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Trin y baban newydd-anedig â chyflwr clinigol	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.7.2 Y sefyllfa bresennol

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig – 95% yn cael canlyniad pendant erbyn diwrnod 17 o fywyd

Mae'r cwmpas ar gyfer Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig yn parhau i fod yn gyson uwchlaw'r safon o 95% o fabanod newydd-anedig cymwys yn cael canlyniad sgrinio smotyn gwaed pendant erbyn diwrnod 17 o fywyd.

Mae gennym wiriadau di-feth ar waith ar gyfer babanod nad oes ganddynt ganlyniad wedi'i ddilysu ar y system. Mae gwaith i fyrhau amserlenni o amgylch gwiriadau di-feth wedi arwain at ein gwiriad di-feth yn ysgogi ar gyfer babanod ar ddiwrnod 11 o fywyd nawr, tra ei fod yn flaenorol ar ddiwrnod 15. Gwnaed y gwelliant hwn yn bosibl drwy newidiadau mewn strwythurau tîm ac addasiadau mewn ffyrdd o weithio gan ddefnyddio model Cymru Gyfan yn hytrach na thimau rhanbarthol.

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig – 2% Cyfradd yr ail samplau y gellir eu hosgoi

Maes o ffocws cyson ar gyfer y rhaglen yw cyfradd yr ail samplau y gellir eu hosgoi sydd, er ei bod wedi'i lleihau'n sylweddol o'r sefyllfa yn y blynyddoedd blaenorol, yn parhau i fod yn gyson allan o'r safon. Maes ffocws penodol yw Unedau Newyddenedigol. Er bod cyfraddau mewn unedau gofal dwys i'r newydd-anedig (NICU) wedi gwella'n sylweddol, maent yn parhau i fod yn uchel - cyfradd yr ail samplau y gellir eu hosgoi

mewn NICU oedd 14% ym mis Rhagfyr 2024 a 5.5% ym mis Tachwedd 2025. Manylir ar y camau gwella yn 2.7.3 isod.

Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU wedi argymhell cyflwyno cyflwr metabolig pellach sy'n ei etifeddu i'r rhestr o gyflyrau y sgrinnir amdanynt fel rhan o'r cynnig sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig. Mae cynlluniau ar gyfer gweithredu Tyrosinemia Etifeddol Math 1 (HT1) yn mynd rhagddynt gyda dau brif rwystr wedi'u nodi, sef y seilwaith TG o fewn y rhaglen a'r seilwaith labordy yn y Labordy Smotyn Gwaed Newydd-anedig ym mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, sy'n cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth fel yr unig labordy i Gymru. Disgwylir i raglen o waith datblygu TG gael ei chwblhau erbyn mis Ebrill 2026.

❖ 2.7.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Mae cyfradd yr ail samplau y gellir eu hosgoi ar gyfer y rhaglen yn methu'n gyson â chyrraedd y safon 2%, y gyfradd oedd 3.1% ym mis Rhagfyr 2025. Mae angen ailadrodd sampl yn golygu bod angen tynnu gwaed o fabanod am yr eildro, mae'n effeithio ar amseroldeb ac yn cynyddu llwyth gwaith i gydweithwyr bydwreigiaeth. Fodd bynnag, mae'r holl samplau a dderbynnir yn y labordy yn cael eu profi a gweithredir arnynt os amheuir cyflwr hyd yn oed os gofynnwyd am ail brawf, er mwyn sicrhau trosglwyddo prydlon a diogel i ofal clinigol os oes angen. Mae camau parhaus i wella a chynnal cyfradd yr ail samplau y gellir eu hosgoi yn dibynnu ar weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y byrddau iechyd.

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Cydlynwyr y rhaglen i adolygu cynnwys adnoddau e-ddysgu, gan ymgorffori adborth o'r hyfforddiant hyd yma. Cymorth digidol i addasu'r platfform e-ddysgu. Cymorth addysgwyr i sicrhau bod y cynnwys yn ddiddorol.	Newidiadau cynyddol i'w gweithredu yn ystod 2025-2026
Adolygu templedi adborth e-bost i'r rhai sy'n cymryd samplau sydd wedi cyflwyno sampl o ansawdd gwael er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddysgu	Mehefin 2026
Gwaith penodol gydag arweinwyr nyrsio mewn unedau newyddenedigol ledled Cymru	Medi 2026
Cyflwyno cardiaid smotyn gwaed o ddyluniad newydd gyda phecon hyfforddi cysylltiedig.	Medi 2026

2.8 Sgrinio Clyw Babanod Cymru

Nod Sgrinio Clyw Babanod Cymru yw nodi babanod â cholled clyw cyn gynted â phosibl, gan fod tystiolaeth yn dangos bod cyflwyno rhaglen cymorth cynnar cyn chwe mis oed yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith.

2.8.1 Ein rôl

Caiff un neu ddau o fabanod o bob 1000 eu geni â nam ar y clyw a all effeithio ar ddatblygiad eu lleferydd ac iaith. Mae sgrinio clyw babanod yn helpu i ddod o hyd i'r babanod hynny a chynnig help a chymorth o'r cychwyn cyntaf. Mae sgrinio clyw yn dweud wrthym pa fabanod a allai fod wedi colli eu clyw. Mae'r prawf sgrinio yn dangos i ni pa fabanod sydd angen rhagor o brofion i benderfynu a ydynt wedi colli clyw. Mae'r prawf yn cael ei gynnal gan Sgrinwyr Clyw Babanod sy'n weithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n cael eu cyflogi a'u hyfforddi gennym ni. Mae'r sgrinio naill ai'n cael ei gwblhau yn yr ysbyty cyn i'r babanod fynd adref ar ôl genedigaeth (tua 70% o'r sgrinio) neu mewn lleoliadau cymunedol.

Elfen Llwybr	Cyfrifoldeb
Gwybodaeth ddigidol sydd ar gael i alluogi cydsyniad ar sail gwybodaeth	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cynnig a chynnal prawf Clyw Babanod.	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Canlyniadau'r prawf sgrinio	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Atgyfeirio babanod sy'n cael prawf sgrinio positif i awdioleg	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Asesu a thrin babanod sy'n cael prawf sgrinio positif	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.8.2 Y sefyllfa bresennol

Dangosydd perfformiad allweddol sgrinio clyw babanod – 99% Cwmpas a chyflawnrwydd y cynnig

Mae cwmpas a chyflawnrwydd y cynnig ar gyfer sgrinio clyw babanod (canran y babanod cymwys ac addas sy'n cwblhau sgrinio) yn parhau i fod yn gyson uchel iawn ac yn uwch na'n safonau o 99%.

2.8.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Mae mesurau perfformiad ar gyfer Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW) yn parhau i fod yn dda, gyda rhai heriau'n codi o bryd i'w gilydd o ran

amseroldeb babanod a atgyfeiriwyd yn cael eu gweld mewn awdioleg. Fodd bynnag, mae'r metrigau yn cael eu heffeithio gan niferoedd bach a dewis rhieni.

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Lleihau diffyg presenoldeb mewn clinigau, sef achosion o ganslo a digwyddiadau Heb eu Cludo, drwy wella prosesau ynghylch archebion clinigau a nodiadau atgoffa yn ogystal â mynd i'r afael â materion penodol a nodwyd gyda safleoedd lleol	Parhaus
Ychwanegu sgrinio arall yn y gymuned ar gyfer rhai babanod na ellir eu rhyddhau ar ôl cael eu sgrinio yn yr ysbyty, er mwyn lleihau atgyfeiriadau diangen i awdioleg	Mehafin 2026
Gweithio gyda chydweithwyr awdioleg i ddatblygu model gwasanaeth wedi'i gostio sy'n gwella penodolrwydd y llwybr sgrinio ac yn lleihau atgyfeiriadau diangen i awdioleg, ar gyfer symud i fodel clir ar gyfer y ddwy glust	Medi 2026

2.9 Sgrinio Cyn Geni Cymru

Nod ein Rhaglen Sgrinio Cyn Geni yng Nghymru yw canfod cyflyrau penodol sy'n bresennol naill ai yn y fam neu yn y babi sy'n debygol o effeithio ar iechyd y naill neu'r llall, lle mae dull effeithiol o ymyrryd neu driniaeth ar gael ar eu cyfer.

2.9.1 Ein rôl

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn rhwydwaith clinigol a reolir ac mae wedi sefydlu polisïau, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y profion sgrinio cyn geni a ddarperir gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae pob menyw feichiog sy'n byw yng Nghymru yn cael cynnig sgrinio ym mhob beichiogrwydd.

Elfen Llwybr	Cyfrifoldeb
Gwybodaeth ddigidol sydd ar gael i alluogi cydsyniad ar sail gwybodaeth	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Hyfforddi ac addysgu cydweithwyr bydweigiaeth ar sgrinio cyn geni	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cynnig a chynnal samplau sgrinio cyn geni	Byrddau iechyd
Cynnal dadansoddiad o samplau sgrinio cyn geni	Bwrdd iechyd
Atgyfeirio profion sgrinio positif yn brydlon i'r llwybr clinigol priodol	Byrddau iechyd
Llwybr clinigol priodol yn derbyn atgyfeiriad	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Trin y baban newydd-anedig â chyflwr clinigol	Byrddau iechyd (heb eu comisiynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)

2.9.2 Y sefyllfa bresennol

Mae arolygon profiad mamolaeth (sy'n cael eu cyflwyno ledled Cymru yn 2025/26) yn dangos, mewn un bwrdd iechyd, fod 92.5% o'r ymatebwyr (n=255) wedi dweud bod eu gwybodaeth a'u cyngor mewn perthynas â phroffion sgrinio cyn geni yn ddefnyddiol. Mae SCG yn monitro dadansoddeg y we i sicrhau bod ein fformat digidol yn gyntaf yn hygyrch ac yn cael ei ddefnyddio'n llawn gan ein poblogaeth feichiog.

Ym mis Mai 2024, ychwanegodd SCG DNA di-gell y ffetws at y profion sgrinio a gynigir. Mae'r prawf gwaed mamol hwn yn galluogi rhagweld math gwaed y babi yn y groth (D positif neu negatif) yn gywir. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i weithredu'r prawf hwn fel rhan o'u rhaglen sgrinio genedlaethol ac mae'r gwerthusiad gan deuluoedd yn ogystal â chlinigwyr wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

2.9.3 Trywydd perfformiad a chamau gwella

Mae dangosyddion perfformiad a adroddir bob chwe mis, yn darparu lefel uchel o oruchwyliaeth a sicrwydd o ansawdd cyflawni rhaglen SCG gan y byrddau iechyd. Bydd y dangosyddion perfformiad yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2026 drwy Adroddiad Ystadegol Blynyddol SCG.

Bydd gweithredu Safonau Data Mamolaeth Cymru yn sicrhau y bydd diweddariad ein profion sgrinio yn cael ei adrodd am y tro cyntaf o fis Ebrill 2026 ac yn cael ei rannu'n feini prawf amddifadedd a meini prawf economaidd-gymdeithasol eraill.

2.10 Sgrinio Ysgyfaint

Cyflwynwyd adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 yn nodi llwybr a model cyflawni a argymhellir ar gyfer rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint yng Nghymru. Yna cymeradwywyd yr argymhellion gan Bwyllgor Sgrinio Cymru ym mis Ebrill 2025. Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, yn nodi y byddai rhaglen genedlaethol sgrinio canser yr ysgyfaint yn cael ei chyflwyno yng Nghymru. Yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru, nododd y cyfathrebu dilynol y gofyniad am achos busnes pellach ar gyfer y cyllid cyfalaf sydd ei angen i weithredu'r rhaglen, yn ogystal â'r hyn a oedd eisoes wedi'i gyflwyno. Cyflwynwyd yr Achos Cyfiawnhad Busnes i Lywodraeth Cymru ar 24 Tachwedd 2025. Ar 12 Rhagfyr, anfonodd Llywodraeth Cymru restr o gwestiynau a materion i'w hegluro, ac ymatebwyd iddynt ar 28 Ionawr 2026 ac mae disgwyl ymateb.

Nid oedd y gofyniad am achos busnes pellach yn hysbys pan nodwyd yr amserlen ddangosol wreiddiol (i ddechrau sgrinio canser yr ysgyfaint ddiwedd 2027), yn yr adroddiad cwmpasu ac felly mae hyn wedi effeithio ar amserlen y rhaglen weithredu fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod yr amserlen wedi'i gohirio chwe mis, ac amcangyfrifir mai Ebrill 2028 fydd y sgrinio cyntaf a gynigir nawr os bydd cyllid cyfalaf a refeniw yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn mis Ebrill 2026. Gwneir asesiad terfynol o'r effaith ar y dyddiad targed ar gyfer mynd yn fyw unwaith y bydd y cyllid wedi'i gymeradwyo.

2.11 Brechu

2.11.1 Cefndir

Brechu yw un o'r ymyriadau iechyd cyhoeddus mwyaf effeithiol ar gyfer atal clefydau heintus a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae cynnal canran uchel sy'n manteisio ar frechlynnau ar draws pob grŵp cymwys yn hanfodol i amddiffyn unigolion a chymunedau, lleihau pwysau'r gaeaf ar wasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd a chyflawni targedau imiwneiddio cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cymorth i'r GIG yng Nghymru ac i Lywodraeth Cymru ar raglenni brechu a chlefydau y gellir eu hatal drwy frechu. Mae hyn yn cynnwys:

- ❖ **Cymorth Clinigol Proffesiynol** – darparu cymorth clinigol arbenigol, gan gynnwys datblygu cyngor, arweiniad a hyfforddiant, ar gyfer brechwyr a gwasanaethau brechu ledled Cymru.
- ❖ **Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyfathrebu** - cyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol i hyrwyddo brechu (e.e. ymgyrch fflw)

tymhorol) yn ogystal â chyfathrebu cyhoeddus drwy gydol y flwyddyn drwy gyfryngau newyddion a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd i ddeall teimladau am frechlynnau, casglu mewnwelediad i'r rhwystrau o ran manteisio ar frechlynnau i lywio gweithredu a lleihau annhegwch o ran canran y rhai sy'n cael eu brechu.

- ❖ **Cynhyrchu Tystiolaeth** – cynnal rhaglen o adolygu, ymchwil a gwerthuso tystiolaeth er mwyn helpu i ddeall ac eirioli dros y dulliau gorau o frechu a'u heffaith, gan gynnwys ar frechu teg.
- ❖ **Gwylidwriaeth** - gwylidwriaeth o ganran y rhai sy'n cael eu brechu a brechu teg yng Nghymru a thystiolaeth a chyfrannu at gydweithrediadau yn y DU ac yn rhyngwladol ar effeithiolrwydd ac effaith brechlynnau.
- ❖ **Arweinyddiaeth Systemau** – cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi brechlyn a byrddau iechyd, sy'n gyfrifol am gyflawni rhaglenni brechu yn weithredol.

2.11.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Tabl 5: Sefyllfa bresennol y defnydd o Frechu yn erbyn y targed cenedlaethol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Canran y rhai sy'n derbyn brechlyn ffliw ymhlith pobl 65 oed a throsodd	68.9% Ionawr 2025	75%
Derbyn brechlyn ffliw ymhlith oedolion iau mewn risg glinigol	37.9% Ionawr 2025	75%
Canran y rhai a gafodd y brechlyn ffliw ymhlith menywod beichiog	Ddim ar gael tan ddiwedd y tymor	Dd/B
Canran y rhai a gafodd y brechlyn ffliw ymhlith gweithwyr gofal iechyd	38.4% Tachwedd 2025	Dd/B
Canran y rhai a gafodd y brechlyn ffliw ymhlith staff Iechyd Cyhoeddus Cymru	28.7% Tachwedd 2025	Dd/B
Canran y rhai a gafodd y brechlyn ffliw ymhlith staff rheng flaen Iechyd Cyhoeddus Cymru	28.7% Rhagfyr 2025	Dd/B

Canran y plant a gafodd 3 dos o 6 mewn 1 erbyn 1 oed	93% Mis Gorffennaf i fis Medi 2025	95%
Canran y plant a gafodd 2 ddos o MMR erbyn 5 oed	89.8% Mis Gorffennaf i fis Medi 2025	95%
Canran y merched sy'n derbyn 1 dos o HPV erbyn 15 oed	77.9% Mis Gorffennaf i fis Medi 2025	90%
Canran y plant a gafodd y pigiad atgyfnerthu cyn ysgol 4 mewn 1 a'r 2il MMR erbyn 5 oed	88.7% Mis Gorffennaf i fis Medi 2025	Dd/B

2.11.3 Y sefyllfa bresennol

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gynyddu canran y rhai sy'n cael eu brechu a lleihau anghydraddoldebau ledled Cymru. O'r ffigurau sydd ar gael uchod, bu cynnydd yn y ganran ymhlith rhai o'r grwpiau cymwys ar gyfer y brechlyn fflw. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas ag ehangu'r Amserlen Brechu yn ystod Plentyndod. Cyflwynwyd y newid diweddaraf ym mis Ionawr 2026.

Mae ein hymgyrchoedd dros y gaeaf yn canolbwyntio ar amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau rhag salwch difrifol a lleihau'r pwysau dilynol ar y GIG yn ystod yr adeg brysuraf o'r flwyddyn. Rhoddir ffocws ar hysbysu'r boblogaeth am fanteision brechu amserol ar gyfer fflw, feirws syncytiol anadlol (RSV) a COVID-19 yn unol â chynghor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Rydym yn ymgysylltu â phartneriaid gwasanaeth i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau a'r wybodaeth angenrheidiol wrth law i hyrwyddo a chyflwyno'r brechlynnau yn hyderus mewn ffordd amserol.

Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod y DU wedi colli ei statws dileu'r frech goch ar ôl i'r frech goch fynd ar led yn barhaus am fwy na blwyddyn yn seiliedig ar ddata o 2024. Yng Nghymru, nid yw'r frech goch wedi mynd ar led ac mae nifer y brigiadau o achosion yn dilyn mewnfario achosion achlysurol wedi bod yn fach iawn. Mae Cymru yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dileu. Fodd bynnag, dyfernir y statws ar lefel y DU. Yn hanesyddol, mae canran y rhai sy'n derbyn brechiadau yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gefnogi byrddau iechyd gyda'u gweithgarwch dal i fyny ar gyfer y frech goch, a gyda thystiolaeth i gefnogi targedu a gwerthuso camau dileu yng Nghymru.

Dangosodd gwyliadwriaeth ddiweddar o MMR mewn plant oedran ysgol fod derbyn un dos yn fwy na 95% ym mhob carfan oedran. Mae'r newidiadau diweddar i'r amserlen frechu yn ystod plentyndod i ddod â'r ail ddos o MMR ymlaen i 18 mis wedi'u gweithredu o 2 Ionawr 2026. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o Loegr ei fod yn arwain at gynnydd yn rhai sy'n derbyn yr ail ddos sydd yn hanesyddol yn is na'r dos cyntaf ar 1 flwyddyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i bryderu'n fawr am y risg o fewnforio achosion wrth i'r trosglwyddo yn cael ei gynnal yn Lloegr ac mae'n parhau i weithio i nodi'r poblogaethau a'r grwpiau hynny y mae'r risg o achosion mwy ar ei huchaf.

Mae Cymru yn parhau i fod yn ddibynnol ar Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i gynnal rhai agweddau ar system gwyliadwriaeth perfformiad uchel sy'n ofynnol ar gyfer dileu, gan gynnwys profi hylif geneuol a genomeg.

2.11.4 Camau gwella

Er gwaethaf cynnydd mewn llawer o feysydd, mae heriau'n parhau o ran cyflawni'r defnydd gorau posibl ymhlith rhai carfanau, gan gynnwys ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd gan gynnwys petruster brechu, materion hygrychedd, a bylchau llythrennedd iechyd. Mae Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru yn nodi blaenoriaethau i wella llythrennedd brechlynnau, cryfhau cyfathrebu ac ymgorffori tegwch mewn rhaglenni brechu. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, fel Rhaglen Frechu Cymru, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i gyflwyno dull system gyfan.

Rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgarwch gwella parhaus, gan gynnwys:

- ❖ Cynyddu ein heffaith drwy lywio ein cyfathrebu ymgyrch brechlynnau yn seiliedig ar ymddygiad a mewnwelediad y cyhoedd
- ❖ Sicrhau bod ein holl adnoddau yn hygrych (e.e. Hawdd ei Ddeall, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a phrint bras)
- ❖ Cynnal rhaglen o ymgysylltu wedi'i dargedu â grwpiau agored i niwed drwy arolygon a grwpiau ffocws
- ❖ Cynnal rhaglen o adolygiadau tystiolaeth, gydag adolygiadau ar gydsyniad a ffobia nodwyddau yn cael eu cyflwyno yn 2025/6.

3. Diogelu Iechyd

3.1 Gwyliadwriaeth

3.1.1 Cefndir

Mae systemau gwyliadwriaeth effeithiol yn darparu data amserol, cywir sy'n llywio ymyriadau iechyd cyhoeddus, penderfyniadau polisi, a dyrannu adnoddau. Mae'r Ganolfan Wylidwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwyliadwriaeth integredig ar draws sawl parth, gan gynnwys heintiau anadlol, salwch gastroberfeddol, ymwrthedd gwrthficrobaidd, a dangosyddion iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae gweithgareddau gwyliadwriaeth yn cyd-fynd â safonau rhyngwladol a strategaethau cenedlaethol ar gyfer dileu clefydau. Mae'r datblygiadau diweddar yn cynnwys y symudiad tuag at aeddfedrwydd blaengar o dan Fframwaith y Gymdeithas Ryngwladol o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI), integreiddio egwyddorion Iechyd Cyfunol a datblygu system gwyliadwriaeth newid hinsawdd i asesu effeithiau newidiadau amgylcheddol ar iechyd.

3.1.2 Y sefyllfa bresennol

Rydym yn parhau i ddarparu adroddiadau arferol ac adweithiol ar epidemioleg clefydau trosglwyddadwy, cymhwyso dulliau epidemiolegol i ymchwilio i frigiadau o achosion o glefydau ac arwain hyfforddiant gyda phartneriaid, fel awdurdodau lleol. Rydym wedi darparu adroddiadau gwyliadwriaeth anadlol amserol a dylanwadol drwy dymhorau'r feirws syncytiol anadlol (RSV) a ffliw, gan ychwanegu adroddiad cartref gofal, rhagamcanion tymor byr ar gyfer derbyniadau, a chyfraniadau at amcangyfrifon o effeithiolrwydd brechlynnau yn ystod y tymor ac effaith brechu RSV.

Ym mis Tachwedd 2025, gwnaethom gyflwyno ymarfer Bite Back, sef ymarfer amlasiantaethol ar yr ymateb i fogsitos ymledol a chlefydau a gludir gan fector, a fynychwyd gan dros 100 o gyfranogwyr.

3.1.3 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Sefydlu system gwyliadwriaeth newid hinsawdd sy'n darparu mewnwelediad amserol, gweithredadwy ar risgiau hinsawdd a'r effeithiau ar iechyd.	Mawrth 2027
Prosiectau i optimeiddio gwyliadwriaeth TB gan gynnwys adrodd clwstwr.	Parhaus

3.2 Gwasanaethau Heintiau

3.2.1 Cefndir

Mae ein Gwasanaeth Heintiau yn darparu'r mwyafrif sylweddol o wasanaethau Diagnosteg Microbioleg a Microbioleg Clinigol i GIG Cymru, gan gynnwys yr unig arbenigedd Clefydau Heintus, sydd wedi'i leoli yn ein Hunedau yng Nghaerdydd ac Abertawe. Yn ogystal, rydym yn darparu unedau Arbenigol a Chyfeirio yn y DU a/neu Cymru ar gyfer anerobau, tocsoplasma, cryptosporidiwm, mycobacteria, mycoleg, ymwrthedd gwrthficrobaidd, feiroleg arbenigol, a genomeg pathogen, ynghyd â thri labordy bwyd, dŵr ac amgylcheddol. Mae holl wasanaethau'r Is-adran Heintiau wedi'u hachredu gan ISO 15189:2022 ac yn ddiweddar gwnaethom drosglwyddo o ISO 15189:2019, sy'n gyflawniad sylweddol i bob un o'n labordai.

Mae ein gwasanaeth diagnostig yn profi tua 2.1 miliwn o samplau y flwyddyn ac mae'r galw yn cynyddu'n raddol gydag amrywiad tymhorol sylweddol (>15%). Mae Clefydau Heintus Clinigol (Caerdydd ac Abertawe) yn darparu mwy na 2,000 o ymgynoriadau ward y flwyddyn ac yn darparu gofal uniongyrchol i 400 o bobl sy'n byw gyda HIV.

3.2.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Profi samplau / y flwyddyn	2,007,824	Dd/B
Yr amseroedd dychwelyd canlyniadau targed yw	Cyflawnwyd ar gyfer >90% o'r samplau.	90%
Sgoriau Sicrhau Ansawdd Allanol	Y mwyafrif yn cyflawni'r targed <u>O dan y targed</u> Abertawe: 96.5% Caerfyrddin: 96.6% Canolfan Feiroleg Arbenigol Cymru: 96.8% Uned Gyfeirio Anerob: 93% Uned Genomeg Pathogen: 92% Canolfan Mycobacteria Cymru: 94% Labordy Gwib Tywysoges Cymru: 96% Labordy Gwib Llandochoau: 94%	97%
Ymgynoriadau a ddarperir gan y gwasanaeth Microbioleg Glinigol	Cyflwynwyd >44,000 o ymgynoriadau yn 2025	Dd/B
Ymgynoriadau'r flwyddyn a ddarperir gan Clefydau Heintus Clinigol (Caerdydd ac Abertawe)	Yn darparu mwy na 2,000 o ymgynoriadau ward y flwyddyn	Dd/B

3.2.3 Y sefyllfa bresennol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheoli 15 o labordai ledled Cymru i ddarparu amrywiaeth llawn o ddiagnosteg heintiau safonol, gyda phrofion arbenigol ychwanegol mewn sawl maes. Mae'r rhwydwaith labordai wedi'i gynllunio i sicrhau mynediad teg at ddiagnosteg i ddarparu canlyniadau diagnostig amserol o ansawdd uchel ym mhob ysbyty aciwt. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae platfformau moleciwlaidd cyflym wedi'u cyflwyno i bob labordy, gan gynnwys datblygu pum 'Labordy Gwib', er mwyn darparu profion (<dwyr awr) am feirysau anadlol, a thargedau allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli heintiau (e.e., norofeirws, C. difficile, MRSA ac organebau sy'n cynhyrchu carbapenemase). Mae hyn yn cefnogi rheoli cleifion yn amserol a chamau rheoli heintiau priodol ac yn gwella llif yr ysbyty.

Mae amseroedd dychwelyd canlyniadau profion yn cael eu pennu i raddau helaeth gan y dechnoleg sydd ar gael a nodweddion biolegol yr organeb darged. Mae'r mwyafrif helaeth o brofion yn cael eu cwblhau o fewn saith diwrnod, a llawer o fewn 24 awr. Mae profion am feirysau a gludir yn y gwaed (BBV - HIV, hepatitis B, hepatitis C) wedi'u canoli yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae her gydnabyddedig i optimeiddio mynediad at samplu ar gyfer profion BBV ar gyfer y poblogaethau sydd fwyaf mewn perygl. Mae'r tîm prawf yn y man lle y rhoddir gofal wedi gweithio gyda thimau byrddau iechyd ac eraill i wella mynediad at samplu.

3.2.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Adolygu ac edrych i ehangu ein repertoire o brofion enterig moleciwlaidd i gynyddu targedau diagnostig	31 Mawrth 2027
Dychwelyd profion escherichia coli 0145 sy'n cynhyrchu tocsin shiga i Wasanaeth Heintiau Cymru	31 Mawrth 2027
Amnewid awtomeiddio labordy yng Ngogledd Cymru i sicrhau a gwella darpariaeth gwasanaeth	31 Rhagfyr 2027
Cwblhau opsiynau gwella ystadau ar draws gwasanaethau heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru	31 Rhagfyr 2026

Mae tri labordy microbiolog sy'n dal i fod y tu allan i rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y rhain yw Ysbyty Llwynhelyg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac Ysbyty Brenhinol Gwent ym Mwrdd

Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes yn darparu llawer iawn o brofion sylfaenol ac arbenigol ar gyfer y labordai hyn. Byddai dod â'r gwasanaethau hyn o fewn rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru galluogi ad-drefnu profion ymhellach a byddai'n sicrhau arbedion oherwydd arbedion maint. Yn ogystal, byddai'n gwella gallu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i ofynion profion ychwanegol ar gyfer pwysau arfaethedig y gaeaf a brigiadau annisgwyl o achosion os bydd pandemig yn y dyfodol.

3.3 Genomeg

3.3.1 Cefndir

Mae ein gwasanaethau genomeg labordy a biowybodeg yn cael eu darparu gan yr Uned Genomeg Pathogen (PenGU). Mae gweithgarwch genomeg yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno fel rhan o Bartneriaeth Genomeg Cymru (GPW). Mae PenGU yn darparu gwasanaethau dilyniannu a dadansoddi achrededig ISO 15189 ar gyfer TB, *C. difficile*, profion ymwrthedd HIV, a feirysau anadlol dethol.

3.3.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Cyfraddau prosesu genomau pathogen - Dychwelyd canlyniadau o fewn yr amser disgwylidig. (Yn cynnwys gwasanaethau sy'n cwmpasu <i>C. difficile</i> , HIV, TB a Mycobacteria nad ydynt yn dwbercwlaidd, ffliw, bacteria AMR a SARS-CoV-2.)	99.3% yn 2025	Dd/B
Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru 2022-2026: Ffurio Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus	Cyflawnwyd	Cwblhau'r amcan
Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru 2022-2026: Cyflwyno Cynllun Cyflawni Genomeg Pathogen	Cyflawnwyd	Cwblhau'r amcan

3.3.3 Y sefyllfa bresennol

Rydym yn gweithio fel rhan o Bartneriaeth Genomeg Cymru i gyflawni Cynllun Cyflawni Genomeg Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae ein gweithgarwch genomeg yn cael ei oruchwylio a'i gydlynu gan ein Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus. Mae gan y Rhaglen genhadaeth i adeiladu

ac ymgorffori genomeg iechyd cyhoeddus yng Nghymru i alluogi'r ymyrraeth gywir yn well, yn y boblogaeth gywir ar yr adeg iawn. Yn ogystal â darparu cyfres o wasanaethau genomeg pathogen sy'n cwmpasu diagnosteg a gwyliadwriaeth, mae'r Rhaglen hefyd yn arwain ymdrechion i brif ffrydio genomeg ar draws yr amrywiaeth llawn o weithgareddau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid ym Mhartneriaeth Genomeg Cymru i ddefnyddio data genomig dynol i ddatblygu a darparu gwasanaethau poblogaeth ac iechyd cyhoeddus yn y dyfodol a fydd yn diogelu ac yn gwella iechyd a llesiant ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru.

Rydym yn darparu set o wasanaethau genomeg pathogen Cymru gyfan sy'n cwmpasu amrywiaeth o bathogenau, gan ddilyniannu bron 15,000 o samplau yn 2025. Mae pob gwasanaeth yn cael ei arwain gan staff o labordai arbenigol o fewn y rhwydwaith labordai Heintiau ac yn cael ei gyd-ddarparu gyda staff o bob rhan o Heintiau a Diogelu Iechyd, yn ogystal â'r GIG ehangach. Mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i berfformio'n dda, gydag amseroedd dychwelyd canlyniadau rhagorol yn cael eu cofnodi, a gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth agos â defnyddwyr gwasanaethau.

Rydym hefyd yn datblygu galluoedd newydd sy'n canolbwyntio ar sawl pathogen blaenoriaeth, gan gynnwys bacteria AMR, enterofeirws, Mpox (gyda'r achos cyntaf o frech M Clade 1b yng Nghymru yn cael ei ddilyniannu gennym ym mis Tachwedd 2025) a metagenomeg feirysol. Mae ein staff genomeg hefyd yn chwarae rôl flaenllaw mewn mentrau genomeg ledled y DU, gan gynnwys gweithgareddau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau gydag UKHSA, Iechyd Cyhoeddus yr Alban a Gwasanaeth Gofal Iechyd Gogledd Iwerddon a chefnogi'r gwaith o ddatblygu gallu Fforensig Microbaidd y DU fel rhan o Ganlyniad 11 y Strategaeth Diogelwch Biolegol Genedlaethol, mewn cydweithrediad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

3.3.4 Camau gwella

Mae sawl maes lle rydym yn gweithio i wella ein gwasanaeth genomeg a chynnig galluoedd newydd i Gymru. Bydd y gwelliannau hyn yn arwain at wasanaethau newydd a galluoedd newydd sy'n cefnogi ein rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Ansawdd. Mae'r meysydd allweddol fel a ganlyn:

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Gweithio i weithredu gwasanaeth metagenomeg sy'n seiliedig ar banel ar gyfer dilyniannu feirysol brys, a fydd yn cefnogi ymdrechion i wella diogelwch biolegol yn y DU yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diagnostig gwell yng Nghymru.	I'w gytuno fel rhan o weithgareddau o dan y Cynllun Cyflawni Genomeg Pathogen.
Darparu gallu newydd a fydd yn cefnogi ymchwilio i frigiad o achosion o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yn ysbytai Cymru, gyda'r nod o wella ein gallu i nodi ac atal brigiad o achosion.	Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw sy'n ddisgwyliedig ym mis Ebrill 2026
Treialu'r defnydd o ddata HIV sy'n cael ei gynhyrchu yn rheolaidd fel rhan o weithgareddau diagnostig ar gyfer nodi digwyddiadau trosglwyddo neu glystyrau a gollwyd mewn mannau eraill.	Mae'r treial yn mynd rhagddo

3.4 Brigiadau o achosion o glefydau trosglwyddadwy a pharodrwydd ar gyfer pandemig

3.4.1 Cefndir

Mae ein Tîm Diogelu Iechyd yn darparu rheoli achosion a digwyddiadau ar gyfer pob clefyd trosglwyddadwy hysbysadwy yng Nghymru ar sail 24/7. Yn 2025, cawsom 12,206 o hysbysiadau (8,919 o achosion, 2,662 o ymholiadau a 325 o ddigwyddiadau). Mae'r gwaith yn sicrhau bod trosglwyddiad clefydau trosglwyddadwy ymlaen yn cael ei atal er mwyn atal rhagor o achosion a chlefydau ym mhoblogaeth Cymru. Mae achosion o glefydau trosglwyddadwy a pharodrwydd ar gyfer pandemig yn parhau i fod yn flaenoriaethau hanfodol ar gyfer diogelu iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae pandemig COVID-19 a digwyddiadau clefydau heintus eraill wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwyliadwriaeth amserol, cydlynu effeithiol ar draws byrddau iechyd, a seilwaith digidol cryf i gefnogi rheoli brigiad o achosion.

Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru, yn enwedig y Prif Swyddog Meddygol, i sicrhau ymwybyddiaeth o'r system a datblygu polisi ehangach ym maes diogelu iechyd a rheoli clefydau trosglwyddadwy. Mae hyn yn cynnwys cyfranogiad gweithredol yn natblygiad gweithredu Fframwaith Diogelu Iechyd Cymru dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys arweinyddiaeth yr is-grŵp rheoli meddyginiaethau i sicrhau llwybrau clir a chadarn ar gyfer defnyddio meddyginiaethau diogelu iechyd ledled Cymru.

3.4.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Amseroedd ymateb AWARe yn ôl blaenoriaeth: Brys (<4 awr)	100% Tachwedd 2025	90%
Amseroedd ymateb AWARe yn ôl blaenoriaeth: Uchel (<24 awr)	100% Tachwedd 2025	90%
Amseroedd ymateb AWARe yn ôl blaenoriaeth: Canolig (<48 awr)	100% Tachwedd 2025	90%

3.4.3 Y sefyllfa bresennol

Mae'r perfformiad yn erbyn amseroedd ymateb Gwasanaeth Ymateb Acíwt Cymru Gyfan (AWARe) yn ôl blaenoriaeth yn parhau i fod yn eithriadol o gryf a sefydlog. Ar draws pob lefel flaenoriaeth mae'r gwasanaeth yn cyflawni cydymffurfiaeth 100% yn erbyn y targed gweithredol o $\geq 90\%$. Mae perfformiad wedi bod yn gyson ar y targed am y 12 mis diwethaf.

Chwaraeodd Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl allweddol wrth ymateb i Ymarfer PEGASUS a sicrhodd ein cyfranogiad helaeth fod arbenigedd iechyd cyhoeddus Cymru yn cael ei gynrychioli'n llawn a bydd yn allweddol wrth lunio trefniadau parodrydd ac ymateb cryfach y DU ar gyfer pandemigau yn y dyfodol. Mae'r dysgu o'r ymarfer hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a chryfhau deunyddiau parodrydd ar gyfer pandemig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd, awdurdodau lleol, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU a rhanddeiliaid eraill (er enghraifft, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru) i weithredu mesurau rheoli priodol ac i ymchwilio i ffynonellau haint a'u hatal. Pan fo brigiad o achosion, rydym yn llunio adroddiadau ar y brigiad (gan gynnwys briffio amlasiantaethol gyda chefnogaeth ein Tîm Parodrydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb), sy'n manylu ar y wybodaeth epidemiolegol, y mesurau rheoli a gymerwyd, a dysgu systemau i lywio rheoli brigiadau yn y dyfodol yn unol â'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (CDOP).

Cyhoeddwyd y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ym mis Ionawr 2024. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid systemau i ddatblygu cynllun wedi'i ddiweddarau ar ddechrau 2027 sy'n adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o

frigiadau diweddar, adborth systemau ar gynllun 2024, ac Ymarfer PEGASUS.

Mae'r system rheoli achosion digidol bresennol a ddefnyddir ym maes diogelu iechyd (gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol) – Tarian – yn y broses o gael ei disodli. Mae rhaglen gaffael a gweithredu lawn, gan gynnwys bwrdd Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol, lle cynrychiolir yr holl randdeiliaid allweddol (mewnol ac allanol). Cwblhaodd y rhaglen ymarfer caffael yn 2025 ac mae bellach yn gweithio gyda darparwr i ddarparu'r system newydd, y disgwylir iddi fod ar gael yn 2027.

Mae'r ddesg ddyletswydd ymateb aciwt wedi newid ers mis Hydref 2025, lle mae'r cymorth a ddarparwyd gan dîm cemegau a pheryglon amgylcheddol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) wedi dod i ben. Mae'r rota ddyletswydd yn ystod oriau bellach wedi'i staffio'n gyfan gwbl gan staff o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cymorth y tu allan i oriau yn parhau i gael cymorth gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU. Mae trafodaethau parhaus ynglŷn â hyn gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i gysoni â thrafodaethau sy'n dod i'r amlwg ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

3.4.4 Camau gwella

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu argymhellion o adolygiad gwasanaeth diweddar a mentrau cenedlaethol allweddol i gryfhau effeithlonrwydd, ansawdd a gwydnwch:

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Cyflwyno rhaglen trawsnewid digidol ar gyfer Hysbysu Clefydau Heintus yn electronig (eNOIDS)	Dechreuodd y cynllun peilot yn 2025 a bydd yn cael ei ehangu yn 2026
Cyflwyno rhaglen trawsnewid digidol ar gyfer System Rheoli Gwybodaeth Labordy WEDINOS (LIMS)	Chwefror 2026
Cyflwyno Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol	Ionawr 2028
Gwneud gwaith mewn perthynas â System Rheoli Achosion Iechyd Rhywiol	Mawrth 2026

3.5 Iechyd Rhywiol

3.5.1 Cefndir

Ym mis Tachwedd 2025, daeth yr Is-adran Diogelu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o nifer o faterion o fewn y gwasanaeth profi a phostio iechyd rhywiol sydd wedi'i leoli yn ei Raglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy. Dechreuwyd adolygiad i ddeall cwmpas a maint y materion a nodwyd ac mae cynllun gweithredu ar gyfer lliniaru'r materion wedi'i greu. Mae'r materion a nodwyd yn ymwneud â diogelu, llywodraethu gwybodaeth, diogelwch cleifion, llywodraethu a goruchwyllo.

3.5.2 Y sefyllfa bresennol

Ar 8 Rhagfyr, cododd Iechyd Cyhoeddus Cymru hysbysiad Rhybudd Cynnar i Lywodraeth Cymru (2126/2025-26) yn ymwneud â phryderon sy'n ymwneud yn benodol ag arferion diogelu data yn y Gwasanaeth Iechyd Rhywiol. Mae archwiliad diogelu wedi dod i'r casgliad bod hyd at 1,800 o bobl ifanc a ddatgelodd ffactor risg bregusrwydd posibl i Wasanaeth Iechyd Rhywiol Iechyd Cyhoeddus Cymru lle efallai nad ydym wedi gweithredu yn unol â'r broses y cytunwyd arni, neu, lle bo'n berthnasol, heb weithredu yn unol â'n dyletswydd statudol i adrodd. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol hefyd ar 16 Ionawr 2026 mewn perthynas â risgiau diogelu.

Dosbarthwyd nodyn briffio ar y materion sy'n dod i'r amlwg i aelodau'r Bwrdd ychydig cyn Nadolig 2025 gan roi ymwybyddiaeth gychwynnol o'r pryderon. Dilynwyd hyn gan friffio ffurfiol i'r Bwrdd ar 20 Ionawr 2026, gan gynnwys trafodaethau ar y camau lliniaru uniongyrchol a'r adolygiad allanol a gynlluniwyd. Darparwyd diweddariad manylach yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ar 29 Ionawr 2026, lle cafodd yr aelodau sicrwydd ar gynnydd yr ymateb i'r digwyddiad, adolygiad achos parhaus, cryfhau trefniadau llywodraethu, a pharatoadau ar gyfer cyfathrebu cyhoeddus rhagweithiol, a darparwyd diweddariad pellach mewn un o gyfarfodydd y Bwrdd ar 5 Chwefror 2026. Mae datganiad cyhoeddus ar y digwyddiad wedi'i gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 16 Chwefror 2026.

3.5.3 Camau ymateb

Mae Tîm Rheoli Digwyddiad ar waith, ac mae'r digwyddiad yn cael ei oruchwyllo gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio/Cyfarwyddwr Meddygol, gyda chymorth nifer o Swyddogion Gweithredol ychwanegol, gydag adrodd rheolaidd i'r Tîm

Gweithredol a'r Bwrdd. Mae'r ymateb i bob mater yn canolbwyntio ar dri dull:

- ❖ Gwneud yn ddiogel - mae'r holl brosesau a gweithdrefnau presennol yn gymesur ac yn briodol yn enwedig o safbwynt rhannu gwybodaeth, ymdrin â chanlyniadau a diogelu pobl ifanc mewn amser real.
- ❖ Edrych yn ôl – bydd hyn yn cynnwys diogelu, dadansoddi unrhyw achosion posibl o dor-diogelwch data a sicrwydd ynghylch rheoli canlyniadau.
- ❖ Model y dyfodol – bydd hyn yn edrych ar y model arfer gorau hirdymor ar gyfer y gwasanaeth hwn, yn seiliedig ar gyngor arbenigol a meincnodi

Mae gan y Tîm Rheoli Digwyddiad gynllun gwella manwl ar waith ac mae wedi gofyn am gyngor allanol wrth iddo weithio drwy'r camau gweithredu fel y bo'n briodol. Mae strategaeth gyfathrebu wedi'i datblygu ac yn dilyn y camau gweithredu uniongyrchol sy'n cael eu cymryd, bwriedir cynnal adolygiad allanol i asesu sut y digwyddodd y digwyddiad ac i sicrhau bod safonau uchaf y gwasanaeth ar waith yn y dyfodol. Mae yna hefyd asesiad sicrwydd cyflym o'r holl swyddogaethau bach eraill sy'n wynebu'r cyhoedd yn y sefydliad sy'n digwydd, gan gymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn. Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i hadolygu yng ngoleuni'r digwyddiad, i ailedrych ar y tair llinell sicrwydd amddiffyn.

4. Gwella Iechyd

4.1 Newid strategol i atal

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ysgogi newid system gyfan tuag at atal ac ymyrraeth gynnar, gan leoli atal fel sylfaen ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor yn wyneb clefydau anhrosglwyddadwy cynyddol, anghydraddoldebau sy'n ehangu, a phwysau cynyddol ar y system iechyd a gofal. Mae ein gwaith ar helpu Cymru i wneud y newid strategol i atal ar draws pob gwasanaeth (o gynllunio gofodol i gyflogaeth a gofal iechyd) yn amrywio o ddarparu cyngor, adnoddau a thystiolaeth a chymorth ymarferol arall i helpu gyda symud llwybr a dylunio gwasanaethau i atal, ynghyd â gweithio gyda phartneriaid fel Addysg a Gwella Iechyd Cymru i wella iechyd ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi llunio'r ddau achos busnes cyntaf yn seiliedig ar fodelu effaith ymyriadau ataliol, gan arwain at brosiect cenedlaethol i atal strôc a thrawiadau ar y galon ac un arall i wella iechyd y gweithlu.

Er mwyn ymgorffori gwerth y dull hwn, gwnaethom baratoi a lledaenu offer allweddol ar gyfer y saerniaeth genedlaethol ar draws y GIG a sectorau ehangach, gan gynnwys:

- ❖ Fframwaith Gofal Iechyd o ran Iechyd Cyhoeddus i Gymru a'r Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal sy'n rhoi dull unedig i'r GIG ar gyfer cynllunio ar lefel y boblogaeth a nodi risg yn gynharach.
- ❖ Cyhoeddwyd y *Cynllun Atal Clefyd Cardiofasgwlaidd* ar gyfer y system, gyda chefnogaeth offer gweithredu a rhaglen gwella ansawdd genedlaethol ar bwysedd gwaed i leihau strôc a thrawiadau ar y galon.
- ❖ Cyhoeddwyd modiwl e-ddysgu Lefel 2 Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) i ehangu gallu ymyrraeth fer ar draws y gweithlu.
- ❖ Cyflwynwyd a gwerthuswyd *Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan*, gan gychwyn mentrau hunanreoli cleifion drwy'r rhaglen *Datrys Diabetes Gyda'n Gilydd*, ariannu cynlluniau peilot gwella o ran derbyn wyth proses gofal a chyflwyno offer diabetes digidol ledled Cymru.

4.2 Gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus

Er mwyn cefnogi cyflawni 'Cymru Iachach', a'r newid i atal, rydym wedi ceisio adnewyddu rôl bwysig gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus drwy'r fframwaith diwygiedig hwn, a gyd-gynhyrchir gan bobl ar draws ein

system. Mae'r *Fframwaith Gofal Iechyd o ran Iechyd Cyhoeddus* yn ymgorffori gwerthoedd iechyd cyhoeddus mewn dulliau gofal iechyd yng Nghymru, er mwyn hyrwyddo atal a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r Fframwaith yn ceisio darparu gweledigaeth system gyfan yn ogystal ag arweiniad ymarferol drwy egwyddorion ac offer ar gyfer integreiddio egwyddorion iechyd cyhoeddus mewn cynllunio a darparu gofal iechyd. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys set o offer y gall systemau iechyd lleol eu defnyddio, a chynnig cyngor a chymorth.

4.2.1 Cymuned drwy Ddylunio

Rydym yn cefnogi'n weithredol y gwaith o ddatblygu a gweithredu Cymuned drwy Ddylunio drwy ddod â GIG Cymru a phartneriaid systemau at ei gilydd i ddylunio Model Cenedlaethol ar gyfer Atal sy'n cynnwys system rheoli iechyd y boblogaeth wedi'i hymgorffori. Rydym hefyd yn cefnogi'r ddwy golofn arall sy'n ymwneud â gofal brys a chyflyrau hirdymor, gan ymgorffori atal.

Drwy'r gwaith hwn, rydym yn helpu'r system i symud gweithgarwch i ffwrdd o fodolau sy'n canolbwyntio ar ysbytai, gan gryfhau gallu lleol, a sicrhau bod gofal yn cael ei drefnu o amgylch anghenion y boblogaeth, yn lleihau anghydraddoldebau ac yn darparu cymorth mwy hygyrch, ataliol o fewn cymunedau.

4.3 Pwysau Iach: Cymru Iach

4.3.1 Cefndir

Mae byw gyda bod dros bwysau a gordewdra yn cynyddu'r risg o glefydau lluosog, gan gynnwys diabetes Math 2, gorbwysedd a chlefyd cardiofasgwlaidd (gan gynnwys strôc), clefyd anadlol, a rhai canserau. Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gostio'n uniongyrchol dros £500 miliwn i GIG Cymru a'r costau ehangach amcangyfrifedig i gymdeithas rhwng £2-3 biliwn bob blwyddyn. Gall bod dros bwysau a gordewdra ddechrau'n gynnar iawn mewn bywyd, ac yng Nghymru mae hyn eisoes yn bryder sylweddol, gyda mwy nag un o bob pedwar o blant rhwng pedwar a phump oed a 15% o fabanod 27 mis oed neu drosodd yn cael eu dosbarthu fel rhai dros bwysau neu ordew.

4.3.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Mae meysydd allweddol ein cynllun cyflawni wedi'u hamlinellu isod:

- ❖ Dull system gyfan – cydlynu gweithredu ar draws partneriaid, sectorau a lleoliadau i greu newid cynaliadwy, hirdymor.

- ❖ Teuluoedd a blynyddoedd cynnar – canolbwyntio ar bwysau iach o feichiogrwydd, babandod a phlentyndod cynnar i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
- ❖ Ysgolion a lleoliadau gofal plant – sicrhau bod amgylcheddau addysg a gofal yn hyrwyddo bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol a llesiant.
- ❖ Amgylcheddau bwyd iachach – gwella argaeledd, fforddiadwyedd a marchnata dewisiadau bwyd iachach mewn cymunedau.
- ❖ Bywydau egniïol – cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol drwy arferion dyddiol, mannau cymunedol a chwarae.
- ❖ Llwybrau triniaeth a chymorth – cefnogi ymyrraeth gynnar a gwasanaethau arbenigol i blant a theuluoedd sydd mewn perygl o bwysau afiach.

4.3.3 Y sefyllfa bresennol

Dull Systemau Cyfan

Rydym wedi sefydlu'r Dull Systemau Cyfan at y Rhaglen Pwysau Iach ledled Cymru, gan roi llywodraethu cadarn ar waith, darparu hyfforddiant cynhwysfawr, ac adeiladu cymunedau ymarfer gweithredol i ysgogi dull cydgysylltiedig, systemgyfan ar gyfer pwysau iach. Gwnaethom gyflwyno gwerthusiad cychwynnol o'r gwaith hwn ac rydym yn parhau i alluogi'r Dull Systemau Cyfan ledled Cymru. Gwnaethom sefydlu PIPYN, sef dull systemau sy'n cynnwys ymyrraeth sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd â phlant ifanc (3-7 oed) a chymunedau sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yn Ynys Môn, De Caerdydd a Merthyr Tudful ar fentrau o fwyta'n iach i gyllidebu teuluoedd a chwarae egniïol. Rydym hefyd wedi datblygu safonau newydd ar gyfer ysgolion sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant. Mae'r safonau'n cwmpasu saith maes ar gyfer camau gweithredu sy'n helpu i wella iechyd a llesiant, fel gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach.

Teuluoedd a'r blynyddoedd cynnar

Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad pwrpasol o ffactorau risg ar gyfer magu pwysau'n cyflym a BMI ar ôl 27 mis mewn carfan genedigaeth yng Nghymru, gan gefnogi atal gordewdra cynnar a llywio mesurau poblogaeth yn y dyfodol. Mae fframwaith data bwydo babanod meintiol unwaith i Gymru yn cael ei weithredu i sicrhau casglu data cyson ac ysgogi gwelliant.

Ysgolion a lleoliadau gofal plant

Gwnaethom ddatblygu adnoddau cwricwlwm bwyd a maeth mewn ymateb i geisiadau gan athrawon, i gefnogi dull ysgol gyfan ar gyfer bwyta'n iach.

Mae gwerthusiad o hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Gwnaethom gynghori a chyfrannu'n llwyddiannus at ddull iechyd cyhoeddus yn y ddeddfwriaeth newydd Bwyta'n Iach mewn Ysgolion Cynradd a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2025 a phartneru ar gais llwyddiannus Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) i ymchwilio i ddarparu, derbyn a bwyta prydau ysgol am ddim i bawb gan ddefnyddio dull systemau.

Adnoddau'r Cwricwlwm/Addysgu

Rydym yn parhau i baratoi rhagor o adnoddau i'w hychwanegu at y gyfres o adnoddau cwricwlwm y mae ysgolion yn eu defnyddio i ddarparu'r Maes Iechyd a Lles Dysgu a Datblygu. Mae'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau iechyd a lles, gan gynnwys defnyddio sylweddau, llesiant emosiynol a meddyliol a bwyd a maeth.

Bywiog Bob Dydd

Gan weithio gyda Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru, rydym yn cyflwyno Bywiog Bob Dydd, sef dull ysgol gyfan o weithgarwch corfforol (sy'n elfen graidd o'r Rhaglen Ysgolion sy'n Hybu Iechyd a Llesiant). Rydym yn datblygu adnodd ar-lein newydd ar gyfer ysgolion yn 2026, gan ymgorffori safonau cenedlaethol ar weithgarwch corfforol ochr yn ochr ag adnoddau i helpu ysgolion i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn ystod ac o amgylch y diwrnod ysgol.

Llwybrau triniaeth a chymorth gan gynnwys cynigion digidol

Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom lansio Pwysau Iach, Byw'n Iach i gefnogi oedolion yng Nghymru i gyflawni a chynnal pwysau iach. Ers ei lansio, mae'r wefan wedi cael dros 300,000 o ddefnyddwyr, gyda 130,000 a mwy yn cwblhau asesiadau iechyd ac yn dewis teithiau cynnwys wedi'u teilwra. Mae ymgysylltu yn parhau i fod yn gryf ar 80% - uwchlaw'r targed o 75%. Mae ymwybyddiaeth Pwysau Iach, Byw'n Iach wedi codi 15 pwynt canran i 24% (targed o 27% erbyn mis Mawrth 2026), gyda chefnogaeth ymgyrchoedd a brofwyd gan gynulleidfa, fel Ailosod eich Ffordd o Feddwl.

4.3.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Adolygiad cynllun cyn-ysgol o effaith ac effeithlonrwydd: Adolygu'r Cynllun Cyn-ysgol Iach i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol i leoliadau blynyddoedd cynnar i hyrwyddo iechyd a llesiant o fewn y dirwedd polisi a chyflawni bresennol.	Rhagfyr 2026
Gweithredu safonau newydd gan gynnwys canllawiau Bywiog Bob Dydd.	Rhagfyr 2026
Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff: Dechrau adolygiad a phrosiect gwella ansawdd ar y cynllun yn 2026 i sicrhau cyfraddau cadw gwell.	Rhagfyr 2026
Materion gyda thrwyddedu meddyginiaethau rheoli pwysau newydd: Parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i lunio cyngor ar gynllun i fynd i'r afael â'r materion hyn.	Rhagfyr 2026
Gwell cynnig rheoli pwysau cenedlaethol a lleol: (yn amodol ar gymeradwyo cynnig) darparu cynnig cenedlaethol a lleol gwell i gefnogi pobl i gyflawni a chadw pwysau iach.	Gwelliannau fesul cam sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2029 (yn amodol ar y cynnig)

4.4 Cynllun rheoli tybaco

4.4.1 Cefndir

Mae smygu yn parhau i fod yr achos mwyaf o farwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru, gyda chyfartaledd o 3,845 o farwolaethau y flwyddyn, mwy na 10% o'r holl farwolaethau ymhlith y rhai dros 35 oed. Gan gyfrif am dros 17,000 o dderbyniadau i'r ysbyty y flwyddyn, amcangyfrifir bod smygu yn costio tua £1.56 biliwn y flwyddyn i Gymru. Mae canran yr achosion wedi gostwng o 13% o'r boblogaeth oedolion (16 oed a throsodd) yn 2022/23 i 10% yn 2024/25 (Arolwg Cenedlaethol Cymru), gydag Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi 11.4% yn 2024. I'r gwrthwyneb, mae canran yr achosion o feipio wedi bod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ymhlith pob grŵp oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc, sy'n bryderus. Mae fêps yn gymorth pwysig i roi'r gorau iddi i oedolion sy'n smygu ac rydym yn cefnogi eu defnydd yn y cyd-destun hwn.

4.4.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol


Mae Helpa Fi i Stopio yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd. Roedd y mesurau llwyddiant allweddol ar gyfer system Helpa Fi i Stopio yn 2024-25 yn cynnwys:

Tabl 6: Mesurau llwyddiant allweddol ar gyfer system Helpa Fi i Stopio yn 2024-25


Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Atgyfeiriadau	33,487	Dd/B*
Amcangyfrif o'r boblogaeth smygu fel smygwyr sy'n cael eu trin (h.y. cael o leiaf un sesiwn driniaeth a gosod dyddiad rhoi'r gorau iddi)	5.3% 2025-2026	Targed bwrdd iechyd 5%
Cyfran o roi'r gorau iddi 4 wythnos a ddilyswyd gan fonitor carbon monocsid	18% 2024-2025	Dd/B*
% o smygwyr a 'roddodd y gorau i smygu' yn ystod beichiogrwydd	17% 2024-2025	Dd/B*
% statws smygu a fepio a gofnodwyd wrth dderbyn i'r ysbyty	89% 2024-2025	Dd/B*
% o smygwyr sydd wedi'u hysbysu am bolisi di-fwg ar dir ysbytai	76 % 2024-2025	Dd/B*
% y rhai sy'n fepio sydd wedi'u hysbysu am bolisi di-fwg ar dir ysbytai	72% 2024-2025	Dd/B*

* Nid oes unrhyw dargedau wedi'u nodi ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru na'r system Helpa Fi i Stopio yn ei chyfanrwydd a gosodir targedau ar lefel y bwrdd iechyd.

Hunanatgyfeiriadau wedi'u cofnodi ar gronfa ddata atgyfeirio QuitManager




Atgyfeiriadau proffesiynol wedi'u cofnodi ar gronfa ddata atgyfeiriadau QuitManager



Mae atgyfeiriadau smygwyr i Helpa Fi i Stopio yn cael eu cofnodi ar system rheoli cleientiaid QuitManager. Mae'r rhain yn cynnwys 1) hunanatgyfeiriadau drwy'r we neu neges destun, 2) atgyfeiriadau proffesiynol (mae'r olaf fel arfer gan weithwyr iechyd proffesiynol). Mae'r graffiau uchod yn dangos y cynnydd mewn hunanatgyfeiriadau ac atgyfeiriadau proffesiynol ers 2017/18 i 2024/25.

Smygwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n cael eu trin (pob gwasanaeth) Ffynhonnell y data: StatsCymru – Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu



Mae'r graff uchod yn dangos cyfanswm nifer yr smygwyr sydd wedi'u trin ers 2017/18 a'r ganran gyfatebol o'r boblogaeth smygu a gafodd eu trin.

4.4.3 Y sefyllfa bresennol

Rydym wedi gweithio'n llwyddiannus i leihau anghydraddoldebau iechyd o smygu. Mae canlyniadau rhoi'r gorau iddi yng Nghymru yn debyg ar draws pob anghydraddoldeb (amddifadedd, ethnigrwydd, rhywedd,

cyfeiriadedd rhywiol, ac ati). Mae atgyfeiriadau i Helpa Fi i Stopio o ofal eilaidd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers sefydlu'r Rhaglen Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty yn 2022-2023, gyda 3,330 o atgyfeiriadau yn 2022-23 yn cynyddu i 10,574 o atgyfeiriadau yn 2024-25. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd i weithredu'r Rhaglen Lleihau Smygu yn ystod Beichiogrwydd o fewn gwasanaethau mamolaeth. Er gwaethaf hyn, mae'r ganran o smygu yn ystod beichiogrwydd yn parhau i fod yr uchaf ar draws gwledydd y DU (13.1% o'i gymharu ag 8.2% yn yr Alban). Yn 2024-25, roedd gwasanaethau Helpa Fi i Stopio i Fy Mabi yn trin 1,049 o smygwyr beichiog, gyda dim ond 167 (16%) o smygwyr a gafodd eu drin yn cael eu dilysu gan Garbon Monocsid fel rhai a roddodd y gorau iddi ar ôl pedair wythnos.

Rydym wedi datblygu a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol allweddol sydd wedi llwyddo i annog pobl i fynd i wasanaethau rhoi'r gorau iddi neu i gael mynediad at offer digidol newydd, gan gynnwys:

- ❖ Ymgyrch wedi'i thargedu i fanteisio ar y Gwaharddiad ar Fêps Untro newydd ym mis Mehefin/Gorffennaf 2025 a chyhoeddi Cynlluniau digidol Rhoi'r Gorau i smygu a fepio ar wefan Helpa Fi i Stopio – yn ystod yr ymgyrch edrychodd 11,980 o bobl ar dudalen lanio'r wefan fepio a chwblhaodd 1,026 Eich Cynllun Stopio
- ❖ Rhagor o anogaeth gan yr ymgyrch 'Teimla'r Gwahaniaeth' yn ystod 2025 i ysgogi hunanatgyfeiriadau i Helpa Fi i Stopio. Gwelodd yr ymgyrch 40,348 o atgyfeiriadau a 14,162 o gleientiaid yn dechrau eu taith rhoi'r gorau iddi

Yn 2025, gwnaethom gynnal Adolygiad Gwasanaeth Helpa Fi i Stopio, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd hyn fod Helpa Fi i Stopio yn wasanaeth o ansawdd uchel ond gwnaeth hefyd argymhellion fel rhan o'n dull gwella parhaus i wella a chynnal ansawdd ymhellach yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd a llywodraethu lleol/cenedlaethol.

Mae fepio yn llawer llai niweidiol na smygu ond nid yw'n rhydd o risg. Er y gall fêps gefnogi rhai oedolion i roi'r gorau i smygu, y gefnogaeth orau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r rhai sy'n fepio yw atgyfeirio i Helpa Fi i Stopio. Mae'r gwaith presennol yn canolbwyntio ar:

- ❖ sicrhau bod deddfwriaeth a pholisi yn cael eu datblygu a'u gweithredu i leihau gwelededd fêps a'u hygyrchedd i blant a phobl ifanc
- ❖ atal y defnydd o fepio ymhlith pobl nad ydynt yn smygu ac ymhlith yr holl blant a phobl ifanc

- ❖ sicrhau bod cymorth effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chost-effeithiol ar gael i'r rhai sy'n fepio yn unig sy'n dymuno rhoi'r gorau iddi.

4.4.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Datblygu ac integreiddio ein cynnig digidol ymhellach, gan gynnwys ap Helpa Fi i Stopio ac offer ar y we i gynyddu amrywiaeth y cynigion rhoi'r gorau iddi	Mawrth 2027
Integreiddio a datblygu System Rheoli Cleientiaid ymhellach gyda systemau clinigol eraill, gan gynnwys sgrinio, gofal eilaidd a mamolaeth i alluogi atgyfeirio un clic	Medi 2026
Ymyrraeth ar gyfer cyswllt rhagweithiol smygwyr 55-74 oed, i gefnogi datblygiad y llwybr rhoi'r gorau i smygu ar gyfer Sgrinio Canser yr Ysgyfaint wedi'i Dargedu	Mawrth 2027
Datblygu dulliau modelu cadarn i archwilio canran y smygwyr mewn ardaloedd bach ac ymhlith cymunedau ymylol ac effaith gwahanol opsiynau polisi.	Rhagfyr 2026
Datblygu dulliau sy'n seiliedig ar leoliadau i atal dechrau smygu (a fepio) ymhlith pobl ifanc 16-24 oed	Mawrth 2027
Rhoi mewnwelediad o gyfraniad smygu a fepio at dlodi a thlodi plant yng Nghymru i gefnogi buddsoddiad mewn ymyriadau tybaco sy'n targedu grwpiau incwm is.	Mawrth 2027

4.5 Atal gamblo

4.5.1 Cefndir

Mae'r ardoll gamblo statudol sydd newydd ei gyflwyno ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ym mis Ebrill 2025, yn disodli'r system ariannu wirfoddol flaenorol. Bydd Cymru yn derbyn tua £5m bob blwyddyn o hyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i benodi'n Gydlynnydd Atal Arweiniol a Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn Gydlynnydd Triniaeth Arweiniol, gyda'r llinyn ymchwil yn cael ei oruchwylio gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU i sicrhau cynrychiolaeth deg o flaenoriaethau Cymru.

4.5.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Mae'r rhaglen rydym yn ei harwain yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella'r GIG ar draws tair ffrwd waith:

- ❖ Ffrwd waith, 1: asesiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer lleihau niwed gamblo yng Nghymru.
- ❖ Ffrwd waith, 2: sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn parhau pan fydd gwasanaethau Gamble Aware yn cael eu dirwyn i ben.
- ❖ Ffrwd waith, 3: dylunio, profi ac ymgorffori'r llwybr atal Niwed Gamblo yn y dyfodol ledled Cymru.

4.5.3 Y sefyllfa bresennol

Cawsom gadarnhad o gyllid ym mis Medi 2025 ac mae recriwtio i rolau allweddol o fewn y rhaglen a sefydlu'r rhaglen wedi'i gwblhau. Datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fanyleb ar gyfer arolwg o nifer yr achosion ar gyfer Cymru, nododd ddarparwr a bydd yn cwblhau'r gwaith caffael ym mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn sail i'r gwaith o fonitro cynnydd triniaeth ac atal yng Nghymru.

Gan weithio gyda'r byrddau iechyd, rydym wedi sefydlu bwrdd rhaglen ar gyfer ein rôl, gan ddod â rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr systemau ynghyd i lywio'r gwaith o gyflawni hyn. Rydym wedi cyflwyno adnoddau cwricwlwm newydd ar niwed hapchwarae a gamblo i'w defnyddio mewn ysgolion o fis Ebrill 2026 ac wedi sicrhau trwyddedau meddalwedd i drigolion Cymru sy'n galluogi defnyddwyr i rwystro mynediad at blatfformau gamblo ar-lein.

4.5.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu cynlluniau lleol i leihau niwed gamblo.	Mawrth 2026
Hwyluso cydweithio â byrddau iechyd a'r sector gwirfoddol i gyd-greu gweithgareddau atal yng Nghymru	Mai 2026
Cwblhau'r cam darganfod digidol	Gorffennaf 2026
Dyluniad Gwasanaeth Atal Gamblo ar gyfer y dyfodol wedi'i weithredu	Mawrth 2027

4.6 Cynllun iechyd menywod

4.6.1 Cefndir

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl graidd wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd arferol o ansawdd uchel i fenywod ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau arweinyddiaeth a sicrwydd

cenedlaethol ar draws rhaglenni atal ac iechyd poblogaeth allweddol, fel gwasanaethau sgrinio, bwydo ar y fron, rhoi'r gorau i smygu yn ystod beichiogrwydd, asesu anghenion camddefnyddio sylweddau a Cymru Iach ar Waith yn ymgysylltu â chyflogwyr ar iechyd menywod yn y gweithle. Yn ogystal â'r swyddogaethau arferol a system gyfan hyn, rydym wedi cynnal gweithgarwch wedi'i dargedu i gefnogi'n uniongyrchol y gwaith o gyflawni Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru o dan feysydd blaenoriaeth penodol.

Mae gennym hefyd rôl strategol ehangach wrth ddarparu arweinyddiaeth systemau i ymgorffori lens rhywedd cyson ar draws yr holl wasanaethau iechyd, gan sicrhau bod anghenion, anghydraddoldebau a phrofiad byw menywod yn cael eu hystyried yn rheolaidd wrth ddatblygu polisi, cynllunio gwasanaethau, defnyddio data a gwerthuso. Mae'r dull hwn yn cefnogi ansawdd mwy cyson, yn lleihau amrywiad diangen mewn canlyniadau, yn cryfhau atal ac yn gwella tegwch. Mae cyfle pellach i ddatblygu a ffurfioli'r rôl arwain hon i ysgogi dull mwy systematig a chynaliadwy ledled GIG Cymru.

Mae ein gwaith ar degwch rhywedd yn cynnwys y weminar *Llunio Dyfodol Tecach: Rhywedd, Cydraddoldeb a'r Economi Llesiant*, a agorwyd gan Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru, a daeth â rhanddeiliaid allweddol o'r llywodraeth, iechyd cyhoeddus, economeg a pholisi ar draws gwledydd yr economi llesiant at ei gilydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cefnogi'r Cynllun Iechyd Menywod drwy weithio gyda byrddau iechyd i dreialu hyfforddiant iechyd y boblogaeth ac arweinyddiaeth systemau, gan gefnogi mabwysiadu lens sensitif i rywedd ar draws yr holl wasanaethau iechyd a gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Cyfrannodd gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac arferion sy'n ystyriol o drawma/atal trais at wybodaeth am anghenion iechyd menywod ar drothwy'r system cyfiawnder troseddol. Gan weithio gyda'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod a'r Ganolfan i Fenywod yng Ngogledd Cymru, mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar gyffredinrwydd adfyd yn ystod plentyndod a thrawma yn ystod oedolaeth gan gynnwys cam-drin domestig, anaf caffaeledig i'r ymennydd ac effaith strategaethau ymdopi negyddol ar iechyd menywod, gan gynnwys iechyd meddwl.

4.6.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymadau cenedlaethol perthnasol

O fewn Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru 2025-35, mae pedair blaenoriaeth allweddol y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu harwain:

- ❖ Blaenoriaeth 1: Iechyd Mislifol - Datblygu deunyddiau addysgol i ategu gwybodaeth a dysgu i bawb, gan gynnwys bechgyn a dynion.
- ❖ Blaenoriaeth 3: Atal cenhedlu, atal cenhedlu ôl-enedigol a gofal erthyly - Mwy o wybodaeth ddibynadwy ar gael ar-lein ar ddewisiadau dulliau atal cenhedlu a gofal erthyly i fenywod, a sut i gael atynt yn lleol.
- ❖ Blaenoriaeth 4: Cyn Cenhedlu - Cynnal 'proses wrando' i ddarganfod beth yn union y mae cyn cenhedlu yn ei olygu i bobl, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- ❖ Blaenoriaeth 5: Iechyd y Pelfis ac Anymataliaeth - Darparu mynediad i wybodaeth o ansawdd uchel, seiliedig ar dystiolaeth, ar iechyd y pelfis ac iechyd amenedigol (gan gynnwys fideos), trwy wefan iechyd menywod GIG Cymru.

Mae dwy flaenoriaeth ychwanegol yn y cynllun yr ydym hefyd yn eu cefnogi, ochr yn ochr â sefydliadau eraill y GIG:

- ❖ Blaenoriaeth 7: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – cefnogi addysg ar VAWDASV dros gwrs bywyd i bob gweithiwr proffesiynol gofal iechyd er mwyn meithrin hyder a chymhwysedd y gweithlu
- ❖ Blaenoriaeth 8: Heneiddio'n Dda a Chyflyrau Hirdymor dros Gwrs Bywyd – cefnogi menywod i reoli eu hanghenion iechyd eu hunain, deall y broses heneiddio ac ymyriadau ataliol a sut i gael at systemau iechyd i'w cefnogi

4.6.3 Y sefyllfa bres0065nnol

Mae Sgiliau ar gyfer Arweinwyr Systemau i Leihau Anghydraddoldebau yn cael ei dreialu i adeiladu gallu mewn defnyddio data, cydgynhyrchu, cynllunio gwasanaethau a gwerthuso i gefnogi datblygiad Hybiau Iechyd Menywod. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gryfhau gallu'r gweithlu, dylunio gwasanaethau cynhwysol a'r defnydd o ddata wedi'u dadgrynhoi. Rydym hefyd yn cefnogi cyflwyno drwy'r Uned Gwyddor Ymddygiad ar gyfer datblygu modiwl e-ddysgu, gan gryfhau dylunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynyddu'r defnydd o atal cenhedlu ar ôl beichiogrwydd a gwella mynediad at atal cenhedlu a gofal ataliol effeithiol.

Mae mynediad at wybodaeth am atal cenhedlu ac erthyly yn cael ei wella, gyda mwy o wybodaeth ddibynadwy ar-lein am ddewisiadau atal cenhedlu, gofal erthyliad a llwybrau mynediad lleol. Rydym hefyd yn adeiladu gallu i ddarparu gofal sy'n gymwys yn ddiwylliannol, fel bod poblogaethau amrywiol yn derbyn addysg a gwasanaethau iechyd priodol, wedi'u teilwra.

Mae ffocws ar hunansamplu, gwell strategaethau cyfathrebu ac allgymorth wedi'i dargedu yn cefnogi ymdrechion i gynyddu'r ganran sy'n derbyn sgrinio serfigol ledled Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae allgymorth dros y ffôn yn cael ei dreialu a'i weithredu ar draws rhaglenni sgrinio i sicrhau dull rhagweithiol, sy'n canolbwyntio ar y person i gyrraedd y rhai lleiaf tebygol o fynychu, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig ac ymhlith grwpiau oedran iau lle mae'r defnydd o wasanaethau sgrinio yn is.

Yn ogystal, mae cydweithio rhwng gwledydd cyflymu (Cymru, y Ffindir, Gwlad yr Iâ a'r Alban) yn cael ei gryfhau i hyrwyddo polisi sy'n canolbwyntio ar degwch rhywedd, atal a llesiant. Ochr yn ochr â hyn, darperir mewnbwn arbenigol i Fenter Arbennig Cyfarwyddwyr Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd ar Atal Trais yn erbyn Menywod a Merched, i gyfrannu at dystiolaeth aml-wlad yn seiliedig ar nifer yr achosion ac ymatebion y system iechyd.

4.6.4 Camau gwella

Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgarwch gwella parhaus yn unol â gweithredu Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru ar gyfer 2025-2035, gan gynnwys:

- ❖ Sefydlu strwythur llywodraethu mewnol clir a mecanwaith cydlynu ar gyfer iechyd menywod a thegwch rhywedd i gryfhau cysondeb strategol, blaenoriaethu a goruchwylio cyflawni ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- ❖ Datblygu a hyrwyddo fframwaith cyson ar gyfer cynllunio gwasanaethau sy'n sensitif i rywedd, gan gefnogi byrddau iechyd i gymhwyso dull safonol ar draws llwybrau a phoblogaethau.
- ❖ Cryfhau gallu arwain systemau mewn byrddau iechyd drwy ddatblygu arweinyddiaeth, rhwydweithiau dysgu cymheiriaid ac offer ymarferol sy'n cefnogi gweithredu.
- ❖ Cefnogi mwy o gysondeb yn y defnydd o ddata drwy'r lens rhywedd, gan alluogi'r system i ddefnyddio hyn ar gyfer cynllunio, gwella a sicrwydd.
- ❖ Sefydlu mesurau canlyniadau clir a gwireddu manteision i ddangos effaith ar anghydraddoldebau, ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau iechyd menywod.

4.7 Mynd i'r afael â diabetes

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain a datblygu dwy Raglen Diabetes genedlaethol. Datrys Diabetes gyda'n Gilydd a Rhaglen Atal

Diabetes Cymru Gyfan. Mae Datrys Diabetes gyda'n Gilydd yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl â Diabetes, gan gynnwys gwaith gwella sylweddol dan arweiniad cleifion, ac mae Datrys Diabetes gyda'n Gilydd a Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn canolbwyntio ar atal achosion o ddiabetes rhag cynyddu. Mae'r ddwy raglen yn cydweithio'n agos â phartneriaid systemau.

4.7.1. Datrys Diabetes gyda'n Gilydd

Mae Datrys Diabetes gyda'n Gilydd yn rhaglen genedlaethol gyda chyllid a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnull a chysoni'r system o amgylch dau nod cyffredinol, sef a) lleihau nifer yr achosion o ddiabetes math 2 a b) lleihau'r cymhlethdodau ymhlith pobl sy'n byw gyda diabetes (er enghraifft, trychiadau).

Buddsoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru £700K yn y rhaglen, a ariannwyd yn fewnol hyd at fis Mawrth 2027, i gynnull y system. Mae'r rhaglen yn adrodd i Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, ac mae'n gweithredu fel partner craidd yn y 'Fforwm Diabetes' a sefydlwyd gan Berfformiad a Gwella'r GIG a'r Rhwydwaith Clinigol Diabetes cenedlaethol. Mae'n darparu arweinyddiaeth a chydlynu systemau cenedlaethol ar draws gwelliant digidol, ansawdd clinigol, newid ymddygiad, a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac mae cyflwyno rhaglenni hefyd yn adrodd drwy ein Tîm Gweithredol. Rydym wedi sicrhau goruchwyliaeth systemau gryfach drwy ymgorffori metrigau diabetes yn y fframwaith perfformiad cenedlaethol a sicrhau bod y bwndel o 8 proses gofal yn cael ei adolygu drwy ddull Ansawdd, Cynllunio a Chyflenwi Integredig Llywodraeth Cymru.

4.7.1.1 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymadau cenedlaethol perthnasol

Er nad oes targedau ffurfiol wedi'u gosod, mae'r rhaglen yn monitro canlyniadau system allweddol fel a ganlyn.

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed/Ymrwymiad Cenedlaethol
Cyfanswm % y cleifion (≥ 12 oed) â diabetes a dderbyniodd bob un o'r 8 proses gofal NICE (NDA)	44.87% Rhagfyr 2025	Dd/B
Diabetes math 2 – cydymffurfio â phrosesau gofal	46.61% Rhagfyr 2025	Dd/B
Diabetes math 1 – cydymffurfio â phrosesau gofal	23.04% Rhagfyr 2025	Dd/B

4.7.1.2 Y sefyllfa bresennol

Ni yw cynullydd y rhaglen system gyfan hon. Fodd bynnag, nid oes gennym gyfrifoldeb am lawer o'r camau gweithredu ac rydym yn dibynnu ar bartneriaid eraill, gan gynnwys y Rhwydwaith Diabetes a byrddau iechyd, i gyflawni ar draws amrywiaeth o gamau gweithredu. Gwnaed cynnydd ar draws pum thema:

- ❖ Newid ymddygiad sy'n canolbwyntio ar y claf, hunanreoli a grymuso - mae apiau digidol wedi'u cyflwyno am ddim ledled Cymru ar gyfer pobl â diabetes, rydym wedi lansio ymgyrchoedd gwybodaeth sy'n gweithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd ac yn gweithio gyda Pherfformiad a Gwella'r GIG a'r Fforwm Diabetes sefydledig i nodi rhwystrau i gwblhau'r 8 proses gofal.
- ❖ Gwella clinigol a systemau – lansio Prosiect Gwella Ansawdd Clefydau Cardiofasgwlaidd cenedlaethol, treialu llythyrau galw safonedig a nodiadau atgoffa SMS i wella'r defnydd gan gleifion, datblygu cynigion ar gyfer camau allweddol i wella'r defnydd o'r 8 proses gofal.
- ❖ Galluogi ac arloesi digidol- cwblhawyd darganfyddiad digidol ar gyfer dull digidol yn gyntaf o ddarparu'r 8 proses gofal, a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu swyddogaeth diabetes o fewn ap GIG Cymru. Dangosodd ein treial digideiddio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg welliant o 58.5% mewn cydymffurfiaeth ag 8 proses gofal diabetes mewn practisau sy'n cymryd rhan.
- ❖ Cysylltedd systemau, arweinyddiaeth a chydlynu cenedlaethol - prosiectau arddangos lleol a ariennir gyda'r nod o ledaenu dysgu ledled Cymru (e.e. gwyddor ymddygiad yng Nghwm Taf Morgannwg, Dadansoddiad Ymylol Cyllidebu Rhaglenni ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, a model darparu gofal sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr).
- ❖ Gweithlu, meithrin gallu a mewnwleidiadau ymddygiadol - ariannu a darparu offeryn systemau ymddygiadol i helpu clinigwyr a chleifion i gydweithio'n well er mwyn rhannu rheolaeth gofal.

4.7.1.3 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Ysgogi'r gwaith o gynyddu arloesiadau lleol sydd â photensial ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cenedlaethol e.e. safoni llythyrau ACR sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu cydymffurfiaeth	Mawrth 2027
Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol i ddangos effaith ymyriadau	Mai 2026
Memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar arweinyddiaeth gydweithredol yn 2026/27	Mawrth 2026
Pecyn pwynt diagnosis wedi'i gyd-ddatblygu â chleifion, wedi'i lansio ac ar gael	Ebrill 2026

4.7.2 Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan

4.7.2.1 Cefndir

Wedi'i lansio ym mis Mehefin 2022, mae [Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan](#) yn cynnig cymorth wedi'i dargedu i bobl sydd mewn mwy o berygl o ddiabetes math 2, gyda'r nod o'u hatal rhag datblygu'r cyflwr hwn. Mae'r rhaglen yn golygu bod byrddau iechyd yn cyflwyno ymyriad byr i bobl sydd wedi cael prawf gwaed sy'n dangos eu bod yn wynebu risg uwch o ddiabetes math 2. Maent yn cyflogi gweithwyr cymorth gofal iechyd ymroddedig, hyfforddedig, gyda goruchwyliaeth gan ddeietegwyr.

4.7.2.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymadau cenedlaethol perthnasol

Arweiniodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gwerthusiad, [a gyhoeddwyd yn 2025](#), a ganfu bod Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn lleihau'r risg o bobl yn datblygu diabetes math 2 23% gyda gwelliannau sylweddol i iechyd ac arbedion i'r GIG a'r system ofal o driniaeth. Mae achos cryf dros gynyddu a lledaenu'r gwasanaeth ledled Cymru gyfan. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn 51 o'r 60 o glystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru, gyda'r mwyafrif yn cael eu hariannu drwy grant / buddsoddiad afreolaidd.

4.7.2.3 Y sefyllfa bresennol

Mae pob un o'r saith bwrdd iechyd wedi darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i ymestyn y cynllun i fwy o boblogaeth a thargedu'r clystyrau hynny sydd â'r anghydraddoldebau mwyaf yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn 51 allan o 60 o glystyrau gofal sylfaenol yng Nghymru, gan ddefnyddio'r model cyllid cymysg hwn. Mae

pedwar o saith bwrdd iechyd wedi nodi cyllid i sicrhau bod Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan ar gael ar draws pob un o'u clystyrau yn 2025/26, gyda chwmpas rhannol ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Fodd bynnag, dim ond un bwrdd iechyd, sef Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sydd wedi cadarnhau ffrwd ariannu reolaidd i gynnal darpariaeth y rhaglen ar ôl mis Ebrill 2026.

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
% y clystyrau sy'n cyflwyno Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan	<p>Cwmpas Cymru: 85% (51/60 o glystyrau)</p> <p>Cwmpas Bwrdd Iechyd: BIPCTM – 100% <u>BIPHDd</u> – 100% BIAP – 100% BIPBA – 100% BIPAB – 63% BIPBC – 85% BIPCF – 66%</p>	100%

Roedd mwy na 20,000 o bobl wedi cael cynnig y rhaglen erbyn blwyddyn dau, ledled Cymru, sy'n golygu y gellid atal 4,600 o bobl rhag symud ymlaen i ddiabetes.

4.7.2.4 Camau Gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i gwblhau a defnyddio'r modiwl Audit+ Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan fel bod gennym ffrwd data gweithgareddau gadarn ledled Cymru.	Mae'n Dibynnu ar Gytundeb Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru i weithio gyda byrddau iechyd i 'orfodi' cynyddu a lledaenu / prif ffrydio Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan ar draws pob clwstwr yng Nghymru drwy reoli perfformiad cynlluniau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig/bwrdd iechyd	Mae'n Dibynnu ar Gytundeb Llywodraeth Cymru

4.8 Anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd


4.8.1 Anghydraddoldebau iechyd

4.8.1.1 Cefndir


Mae ein strategaeth yn nodi ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae gennym raglen draws-sefydliadol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wedi'i ymgorffori yn ein chwe blaenoriaeth strategol. Rydym yn gwneud hyn drwy ffocws parhaus ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy ein gwasanaethau, cefnogi datblygu a gweithredu polisiau, gweithio gyda'n partneriaid a thrwyddynt gan gynnwys y system iechyd a gofal, defnyddio data, ymchwil, gwerthuso a dysgu rhyngwladol a gwella data anghydraddoldebau iechyd.

4.8.1.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwmiadau cenedlaethol perthnasol

Mae ein dadansoddiad diweddar (2021-2023) yn dangos bod Disgwyliad Oes Iach wedi gostwng am y trydydd cyfnod yn olynol, ar gyfer dynion a menywod; Ers 2020-2022, mae disgwyliad oes iach menywod wedi bod yn is na dynion.



At hynny, mae'r bwlch disgwyliad oes iach rhwng y rhai sy'n byw yn y pumed mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig o ardaloedd wedi bod yn cynyddu i fenywod a dynion.



4.8.1.3 Y sefyllfa bresennol

Rydym yn cynnal amrywiaeth o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy ein gwasanaethau a'n swyddogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Ein gwasanaethau a'n swyddogaethau:

- ❖ Adnewyddu ein Strategaeth Tegwch Sgrinio a chyflawni ein Cynllun Tegwch Sgrinio (gweler adran 2.1).
- ❖ Ymgorffori anghydraddoldebau iechyd mewn gwasanaethau Diogelu Iechyd a Pharodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb drwy ein Rhaglen Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd, gan gynnwys ein Cynllun Parodrwydd ar gyfer Pandemig a brofwyd yn ddiweddar yn Ymarfer Pegasus.
- ❖ Deall rhwystrau a galluogwyr i frechu ymhlith y boblogaeth GBMSM, menywod beichiog ac ardaloedd difreintiedig iawn.
- ❖ Datblygu tystiolaeth o anghydraddoldebau mewn clefydau heintus a chynnwys anghydraddoldebau yn ein hallbynnau gwylidwriaeth clefydau trosglwyddadwy arferol.

Cefnogi datblygu a gweithredu polisi:

- ❖ Fel aelodau o Fwrdd Cyflawni Cenedl Marmot/Tegwch Iechyd Llywodraeth Cymru, cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen drwy fewnbwn i fonitro a gwerthuso.
- ❖ Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Rheoliadau ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd a thrwy Fwrdd Prosiect ar y cyd yn cefnogi gweithredu'r Rheoliadau.
- ❖ Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i integreiddio iechyd a llesiant yn y Strategaeth Tlodi Plant.

- ❖ Cymhwyso dull gwerth cymdeithasol sy'n gyson fynd â'n gwaith yn yr Economi Llesiant a chyflawni Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop – Llywodraeth Cymru.

Gweithio gyda'n partneriaid a thrwyddynt gan gynnwys y system iechyd a gofal:

- ❖ Cefnogi clystyrau Gofal Sylfaenol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy baratoi adnoddau arbenigol, fel Pecyn Cymorth Iechyd Tegwch a Chynhwysiant ar gyfer Gofal Sylfaenol.
- ❖ Lansio cynllun gweithredu Teg i Bawb ar gyfer Gofal Sylfaenol, gan ddarparu camau ymarferol i dimau rheng flaen a llunwyr polisi.
- ❖ Ein Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Gofal Sylfaenol i nodi a diwallu anghenion poblogaethau sy'n wynebu anfantis eithafol a lluosog.
- ❖ Cyd-ddatblygu gwaith gyda HMPPS ar gyfer Parhad Gofal Iechyd ar gyfer Iechyd a Chyfiawnder o'r gymuned i'r carchar.

Defnyddio data, ymchwil, gwerthuso a dysgu rhyngwladol:

- ❖ Mae Platform Atebion Tegwch Iechyd Cymru (rhan o fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI)) yn rhoi mewnwelediad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac mae ein dau ddynodiad Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn cefnogi buddsoddiad ar gyfer iechyd a llesiant a thegwch iechyd digidol.
- ❖ Gwerthusiad o effaith ymyriadau fel Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan ar anghydraddoldebau iechyd; Sgwrs Genedlaethol Hapus.
- ❖ Mae ein Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso yn sicrhau bod anghydraddoldebau yn dylanwadu ar waith ymchwilwyr, partneriaethau ymchwil a chyllidwyr.
- ❖ Mae ymchwil Banc Data SAIL sy'n canolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys archwilio amrywiadau yn y defnydd o sgrinio; patrymau wrth roi'r gorau i ysmegu.

Gwella data anghydraddoldebau iechyd:

- ❖ Grŵp goruchwylio arbenigol i wella ein dealltwriaeth o anghydraddoldebau; monitro cynnydd wrth leihau anghydraddoldebau; a gwella gwybodaeth am anghydraddoldebau yn ein hallbynnau data.
- ❖ Diweddarau ein Offeryn Adrodd Canser i gynnwys canran yr achosion o ganser yn ôl cam ar ôl diagnosis yn ôl ardal amddifadedd; a darparu dadansoddiadau ethnigrydd newydd yn y Dangosfwrdd Iechyd a Llesiant Plant Ysgolion Uwchradd.

4.8.1.4 Camau gwella

Yn ystod 2026/2027, byddwn yn parhau i gryfhau ein dull sefydliadol tuag at anghydraddoldebau iechyd ac yn ceisio mesur ein heffaith.

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Cyflwyno ymyriadau i fynd i'r afael ag annhegwch o ran derbyn brechlynnau fel rhan o'r Rhaglen Anghydraddoldebau Diogelu Iechyd	Rhaglen dreigl barhaus
Cefnogi'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill i ddatblygu gwybodaeth a chymhwysedd mewn Asesu'r Effaith ar Iechyd, yn unol â'r rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd sy'n dod i rym.	Ebrill 2027
Meithrin gallu arwain o fewn y GIG drwy'r cynllun gweithredu Gofal Sylfaenol Tecach, ochr yn ochr â darparu hyfforddiant Rheoli Iechyd y Boblogaeth	Rhaglen dreigl barhaus
Rhannu'r Strategaeth Tegwch Sgrinio wedi'i hadnewyddu â phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu cydweithredol	Hydref 2026
Sefydlu Grŵp Iechyd a Chyfiawnder i wella parhad gofal i unigolion sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.	Gorffennaf 2026
Cynnal astudiaeth ansoddol ar leihau niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau ymhlith pobl yn y carchar ac ar ôl eu rhyddhau.	Rhagfyr 2026
Cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o'r rhaglen WHESRi	Mawrth 2027
Cynnal dadansoddiad cychwynnol i ddeall y sbardunau diweddar mewn tueddiadau o ran disgwyliad oes iach	Ebrill 2026

4.8.2 Penderfynyddion ehangach iechyd

4.8.2.1 Cefndir

Y penderfynyddion ehangach yw'r blociau adeiladu ar gyfer iechyd ac maent yn ysgogi canlyniadau iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Rydym yn gwneud gwahaniaeth i benderfynyddion ehangach iechyd drwy weithio gyda'n partneriaid a hysbysu, eirioli a pharatoi gweithredu. Mae ein gwaith ar y penderfynyddion ehangach yn dod o dan bedair thema: Y Blynyddoedd Cynnar; addysg a gwaith; lleoedd iach; cynllunio, trafniadaeth, tai; meddylfryd a nodau system (gan gynnwys

economi llesiant ac asesu'r effaith ar iechyd) a gweithio'n well gyda'n gilydd.

4.8.2.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Rydym yn monitro mesurau allweddol penderfynyddion ehangach iechyd yn ein [dangosfwrdd Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus](#) a'n [dangosfwrdd Trosolwg Cyflym](#). Mae'r dangosyddion a adroddwyd i'n Bwrdd yn cynnwys:

- ❖ Costau byw (Rhagfyr 2025) - Mae 62% o oedolion yn teimlo bod costau byw wedi cynyddu. Mae 21% o oedolion yn dweud nad oeddent yn gallu fforddio treuliau annisgwyl o £850. Mae 35% o oedolion yn dweud eu bod yn cael trafferth talu eu taliadau rhent neu forgais, ac mae 36% yn dweud eu bod yn cael trafferth talu eu biliau ynni
- ❖ Anweithgarwch economaidd - mae 24.5% o oedolion o oedran gweithio Cymru yn economaidd anweithgar (Tachwedd 2025), ac mae 31.2% o hyn oherwydd salwch hirdymor (Rhagfyr 2025).
- ❖ Tlodi - Mae 22% o bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl costau tai, gan gynnwys 31% o blant.

Byddwn yn parhau i fonitro'r dangosyddion hyn ochr yn ochr â'r gwaith i archwilio sut mae disgwiliad oes iach yn amrywio yn ôl meysydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a datblygu dull gwyliadwriaeth cynhwysfawr ar gyfer penderfynyddion ehangach iechyd.

4.8.2.3 Y sefyllfa bresennol

Ceir enghreifftiau o gamau gweithredu i ddylanwadu ar bolisi a'i weithredu polisi er mwyn mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd yn yr adran Anghydraddoldebau Iechyd (gweler uchod). Mae meysydd gwaith eraill yn cynnwys:

- ❖ Drwy'r Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach, sy'n asesu sut i wella cydweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant.
- ❖ Cyhoeddwyd *Dechrau Gorau mewn Bywyd*: Fframwaith Gweithredu Blynnyddoedd Cynnar, sef dull system gyfan i wella canlyniadau ar gyfer babanod, plant ifanc a theuluoedd.
- ❖ Datblygu ein cynnig i gyflogwyr drwy Raglen Cymru Iach ar Waith. Rydym yn ymchwilio i gymorth cyflogwyr i bobl ifanc 16-24 oed gyda ffocws ar iechyd meddwl.

- ❖ Darparu tystiolaeth ar sut i wella mynediad at gyflogaeth i'r rhai mewn iechyd gwael, gan hysbysu safleoedd arloeswyr yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- ❖ Llywio cynllunio gofodol i lunio lleoedd iachach drwy gyhoeddi Canllaw Cynllunio Lleoedd Iach a chryfhau cynlluniau datblygu lleol.
- ❖ Ymgysylltu â rhanddeiliaid ac unigolion sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer tai iach yng Nghymru.
- ❖ Meithrin gallu mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gymryd camau integredig ar y penderfynyddion ehangach, drwy ddulliau meddwl systemau cymhwysol (rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru).
- ❖ Adeiladu gallu gweithlu iechyd cyhoeddus drwy Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda 1,560 o gyfranogwyr mewn gweminarau a digwyddiadau.

4.8.2.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Cynllun gweithredu ar fod heb waith sydd o bryder iechyd cyhoeddus, gan gynnwys argaeledd gwaith teg a mynediad ato, cadw gwaith a gweithlu iach	Parhaus
Cymru Iach ar Waith yn lansio 'Llesiant yn y Gweithle: Camau Cyntaf' i gyflogwyr	Mai 2026
Cyhoeddi argymhellion i wella gweithredu ar y cyd ar dlodi plant	Mai 2026
Cryfhau cymorth i geisiadau cynllunio a thrwyddedu lleol	Parhaus
Gwerthusiad canol cyfnod o'r Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant a gweithredoedd grŵp Cryfhau Cenedlaethol BGC	Gorffennaf 2026
Cyhoeddi ymchwil ar effeithiau tai o ansawdd gwael ac ansicr ar iechyd plant a theuluoedd mewn tlodi ledled Cymru.	Mawrth 2026

5. Cryfhau'r sefydliad

5.1 Diwylliant

5.1.1 Cefndir

Yn 2022, penderfynodd ein Bwrdd yr angen i ddatblygu diwylliant sy'n cael ei ysgogi gan bwrpas ac sy'n canolbwyntio ar bobl ac yn 2023 gwnaethom ddefnyddio'r Rhestr Diwylliant Sefydliadol (OCI®), sef offeryn asesu blaenllaw sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i fesur ein diwylliant gweithredu presennol a nodi ein diwylliant delfrydol.

Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at fylchau a nodweddir gan yr angen i gynyddu ymddygiad amddiffynnol a chynlluniau gweithredu integredig lefel sefydliad a chyfarwyddiaeth wybodus, gan ddod â chanfyddiadau OCI ynghyd â chanlyniadau'r arolwg staff. Mae ein naratif diwylliannol a'n hymrwymiad i arweinyddiaeth dosturiol yn sail i'n Strategaeth Pobl. Mae gwaith ar ein blaenoriaethau diwylliant yn allweddol i liniaru ein risg strategol ar iechyd y sefydliad. Rydym wedi buddsoddi mewn datblygu cymuned o Eiriolwyr Diwylliannol ar draws y sefydliad, grŵp sy'n ymroddedig i hyrwyddo newid cadarnhaol a chwarae rôl allweddol wrth rannu arferion gorau lleol, yn enwedig gan gyfarwyddiaethau sydd wedi dangos y cynnydd mwyaf.

Cymerodd 852 o gydweithwyr (39.5%) ran yn ein harolwg pwls diwylliant diweddar, o'i gymharu â 423 yn ein hasesiad diwylliant gwreiddiol a dangos mwy o ymgysylltu. Mae newidiadau bach ond a allai fod yn ystyrlon wedi ymddangos ers Arolwg Diwylliant 2023. Mae canlyniadau cyfarwyddiaeth ac adrannol wedi'u hymgorffori mewn adolygiadau perfformiad canol a diwedd y flwyddyn, gan gadw diwylliant yn gadarn mewn ffocws ac yn flaenllaw drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn diweddarau ein rhaglen datblygu Hanfodion Rheolwr gan gydnabod rôl ganolog y rheolwr llinell wrth lunio diwylliant bob dydd a byddwn yn cyflwyno hyn o fis Ebrill 2026.

Yn 2025, adnewyddodd y sefydliad ei Strategaeth Pobl i sicrhau ei bod yn parhau i gyd-fynd yn llawn â'n strategaeth sefydliadol ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol. Cymeradwywyd y Strategaeth wedi'i hadnewyddu gan y Bwrdd ym mis Mai 2025. Mae wedi cael ei llunio gan ymgysylltu helaeth â'n pobl, ein rhwydweithiau staff, a'n partneriaid Undebau Llafur, sydd wedi bod yn hanfodol i sicrhau bod y Strategaeth yn adlewyrchu profiadau bywyd, dyheadau a heriau ein gweithlu. Mae'n nodi blaenoriaethau clir i ddenu, cadw, datblygu a chefnogi gweithlu hyblyg, cynaliadwy a ffyniannus ac mae'n ganolog i'n gallu i gyflawni ein

blaenoriaethau strategol hirdymora gwella iechyd a pherfformiad sefydliadol.

Gweithio mewn partneriaeth

Rydym wedi ymrwymo i bartneriaeth gref ac adeiladol gyda'n Hundebau Llafur cydnabyddedig: GMB, MiP, Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas y Radiograffwyr, UNSAIN, Unite a'r BMA. Mae cynrychiolwyr undebau llafur yn mynychu'r Bwrdd a'r holl bwyllgorau, gan roi mewnbwn gwerthfawr i drafodaethau a phenderfyniadau. Mae ein Fforwm Partneriaeth Lleol, elfen allweddol o'n fframwaith llywodraethu, yn gweithredu fel y mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, trafod a chyfathrebu ar faterion gweithlu strategol. Gyda'i gilydd, mae rheolwyr a chydweithwyr Undebau Llafur yn gweithio ar y cyd ar feysydd fel datblygu polisi, newid sefydliadol, moderneiddio'r gweithlu, a gwella diwylliannol.

Mae ein Cyd-bwyllgor Negodi Meddygol a Deintyddol (JMDNC) yn darparu gweithio mewn partneriaeth strwythuredig gyda chydweithwyr meddygol a deintyddol a'r BMA. Mae'r dull hwn yn sicrhau deialog agored, yn cefnogi llesiant staff, yn hyrwyddo datrysiad cynnar, ac yn cryfhau perchnogaeth ar y cyd o flaenoriaethau sefydliadol, gan gynnwys defnydd effeithiol o amser cyfleusterau ac ymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth ystyrlon.

Heriau Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu

Rydym yn parhau i brofi pwysau recriwtio a chadw, yn enwedig mewn rolau arbenigol, technegol ac anodd eu llenwi. Mae'r heriau hyn yn cael eu sbarduno gan brinder gweithlu cenedlaethol, argaeledd daearyddol sgiliau, cystadleuaeth yn y farchnad lafur a chyfyngiadau cyllido tymor byr, gyda'r effaith fwyaf yn cael ei theimlo ar draws swyddogaethau meddygol, digidol, data, gwyddonol a gweinyddol sy'n hanfodol i raglenni.

Mae ein Strategaeth Pobl wedi'i hadnewyddu yn cydnabod y cyfyngiadau system gyfan hyn ac yn ymrwymo i gryfhau cyflenwadau talent, ehangu mynediad i yrfaedd iechyd cyhoeddus a datblygu sgiliau sy'n barod i'r dyfodol o fewn y gweithlu presennol. Mewn ymateb, mae cynllunio'r gweithlu wedi'i ymgorffori yng nghynlluniau'r Gyfarwyddiaeth, gan gefnogi rhagfynegi cliriach o fylchau sgiliau, cynllunio ar gyfer olyniaeth a nodi rolau sydd â'r risg fwyaf yn gynnar. Mae ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu, llwybrau gyrfa gynnar, prentisiaethau, rhaglenni datblygu strwythuredig a gwell symudedd mewnol yn cael eu defnyddio i gryfhau gwydnwch a lleihau dibyniaeth ar arbenigedd allanol prin.

5.1.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Cyfradd ymateb canlyniadau arolwg staff	50.9% Rhagfyr 2025	Dd/B
Cydymffurfiaeth Fy Nghyfraniad (PADR) (targed: 85%)	85.59% Rhagfyr 2025	85%
FTE absenoldeb oherwydd salwch 12 mis treigl	Cyfanswm 4.58% Rhagfyr 2025 Tymor byr 1.51% Hirdymor 3.07%	3.25%
Cyfrif trosiant	7.55% Rhagfyr 2025	Dd/B

Ar gyfer Rhagfyr 2025, y % FTE absenoldeb treigl 12 mis oedd 4.58% (absenoldeb 1.51% tymor byr a 3.07% hirdymor), ac eithrio Perfformiad a Gwella GIG Cymru, o'i gymharu â 4.26% (absenoldeb 1.51% tymor byr a 2.75% hirdymor) ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

5.1.3 Y sefyllfa bresennol

Dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau ac ymgorffori diwylliant sefydliadol cadarnhaol. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar yr egwyddor bod diwylliant yn cael ei lunio gan ymddygiad bob dydd, y penderfyniadau a wnawn, a'r systemau rydym yn eu defnyddio. Mae ein Naratif Diwylliannol wedi'i adnewyddu, o fewn y Strategaeth Pobl, ochr yn ochr â chyflwyno sesiynau a digwyddiadau ymgysylltu mewnol yn atgyfnerthu ein gwerthoedd a'n disgwyliadau. Mae'r sesiynau ymgysylltu mewnol hyn yn dod â staff o bob rhan o'r sefydliad at ei gilydd, gan gynnwys ein cynadleddau staff yn ogystal â sesiwn cwestiynau ac atebion agored 'Amser gyda Tracey' yn fyw (ac wedi'i recordio) a 'Sbotolau ar' wahanol feysydd a phynciau ar draws y sefydliad. Mae'r Fframwaith Ymddygiad *Bod ar ein Gorau*, sy'n pwysleisio ymddiriedaeth, parch a siarad, yn cael ei ymgorffori mewn prosesau sefydliadol amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd Fy Nghyfraniad a thrafodaethau pennu amcanion.

Mae gallu arweinyddiaeth wedi'i gryfhau drwy'r Rhaglen Trawsnewid Arweinyddiaeth, yr ymgyrch "Un Peth yn Unig" i bwysleisio bod pawb yn cyfrannu at ddiwylliant drwy gamau gweithredu bob dydd, a bron 50 o

eiriolwyr diwylliannol achrededig sy'n cefnogi cyfarwyddiaethau ac uwch dimau. Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Integredig ar draws y sefydliad, wedi'i lywio gan arolygon staff ac asesiadau diwylliannol, ochr yn ochr â chynlluniau Cyfarwyddiaeth ac Adrannau wedi'u teilwra.

5.1.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Ailedrych ar ein Blaenoriaethau Lefel Uchel Diwylliannol i nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni ac adnewyddu ffocws ar y canlynol: Diogelwch seicolegol, gwella prosesau gwneud penderfyniadau, a mwy o gymorth i ymdrin ag ymddygiad annerbyniol	Mehefin 2026 (yn dibynnu ar ganlyniadau arolwg staff 2025)
Adnewyddu ein PADR (Fy Nghyfraniad) i sicrhau cydbwysedd cywir rhwng perfformiad, llesiant a chynnydd	Mawrth 2027
Diweddarau'r Cynlluniau Gweithredu Ymgysylltu Integredig (IEAP). Bydd cynnydd yn gliriach unwaith y bydd canlyniadau Arolwg Staff Cenedlaethol 2025 ar gael ac IEAP yn cael eu diweddarau.	Mehefin 2026
Datblygu parhaus ein cymuned Eiriolwyr Diwylliannol, gan eu cefnogi i chwarae rôl allweddol wrth rannu arfer gorau lleol yn enwedig gan gyfarwyddiaethau sydd wedi dangos y cynnydd mwyaf.	Parhaus
Datblygu dangosfwrdd cynhwysfawr ar gyfer 'Naws Sefydliadol', gan geisio triongli sgoriau diwylliant ac ymgysylltu â metrigau pobl a metrigau perfformiad gwasanaeth	Medi 2026

5.2 Arweinyddiaeth, llywodraethu ac ansawdd

Rydym wedi ymrwymo i arweinyddiaeth gref ar bob lefel, llywodraethu da a darparu gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus rhagorol ac effeithiol.

Mae ein Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yn disgrifio'r swyddogaethau, y galluogwyr, y fframwaith sicrwydd, y system llywodraethu integredig a'r canllawiau gweithredu sydd gennym ar waith i gefnogi llywodraethu da. Mae'n ddogfen fyw ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau'n addas at y diben. Yn dilyn ein harolwg diwylliannol, rydym yn cynnal amrywiaeth o gamau gweithredu gyda'r

nod o ddatblygu ein diwylliant sefydliadol a chryfhau arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.

Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori ansawdd ym mhopeth a wnawn a gweithredu System Rheoli Ansawdd, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer canlyniadau rhagorol ac wedi'i hysgogi gan anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae hyn yn ei dro yn galluogi diwylliant ac amgylchedd dysgu o ansawdd sy'n cefnogi ein staff ac yn darparu lle gwych i staff weithio a ffynnu. Mae'r dull hwn yn cefnogi cyflawniad ein strategaeth a'n blaenoriaethau strategol, a'n huchelgais am y diwylliant yr ydym ei eisiau fel sefydliad.

5.2.1 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Cydymffurfio â Hyfforddiant Statudol a Gorfodol	93%	85%
Fy Nghyfraniad / Arfarniadau ac Adolygiadau Datblygu	85.8%	85%
Cydymffurfio â chau digwyddiadau: Cau o fewn 30 diwrnod gwaith	79%	85% (Targed Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Cydymffurfio â chwynion ffurfiol: Cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith	100%	75%
Cydymffurfio â chwynion ffurfiol: Ymateb o fewn 30 diwrnod gwaith	80%	75%
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod	93.4%	100%
Diogelu Lefel 1 a 2	>85%	85%
Diogelu Lefel 3	79%	85%
VAWDASV	77%	85%

5.2.2 Y sefyllfa bresennol Arweinyddiaeth y Bwrdd

Gwnaethom groesawu Dr Catherine Purcell fel y Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgolion) ym mis Hydref 2025 sy'n golygu ein bod wedi

cyrraedd ein dyraniad llawn o Gyfarwyddwyr Anweithredol (Cadeirydd, Is-gadeirydd a x 6 Cyfarwyddwr Anweithredol). Ym mis Ionawr 2026, roedd yn ofynnol i Huw David (Cyfarwyddwr Anweithredol – Awdurdodau Lleol) gamu'n ôl o'r Bwrdd dros dro oherwydd ei ymgeisyddiaeth ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026.

Ni fu unrhyw newidiadau i'r Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Mae Angela Williams wedi dal swydd interim Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid, ac ym mis Hydref 2025, cafodd y swydd hon ei hailbroffilio a chynhaliwyd proses recriwtio sylweddol. Bydd Angela Williams yn ymddeol o'r sefydliad ar ôl 38 mlynedd o wasanaeth yn y GIG yng Nghymru a bydd ei holynydd yn ymuno â'r sefydliad ym mis Mai 2026. Mae pob aelod arall o'r Tîm Gweithredol mewn swyddi parhaol.

5.2.3 Llywodraethu

Sicrwydd Allanol: Aseiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2025

Daeth Aseiad Strwythuredig 2025 i'r casgliad bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal llywodraethu corfforaethol cryf ac effeithiol, gyda'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dryloyw ac yn defnyddio gwybodaeth glir o ansawdd uchel i gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau. Rydym wedi parhau i gryfhau trefniadau sicrwydd corfforaethol, mireinio ei gofrestrau risg strategol a chorfforaethol, gwella adrodd perfformiad, a chynnal olrhain cadarn o argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae datblygu mapiau llwybrau manwl ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, ochr yn ochr â phroses Cynllunio Tymor Canolig Integredig cydweithredol a seiliedig ar dystiolaeth, yn dangos dull cydlynol o gynllunio hirdymor. Tynnodd yr Aseiad sylw at ein hymrwymiad i wrando ar staff a defnyddwyr gwasanaethau, gyda dulliau adborth estynedig, rhwydweithiau staff cryfach, a mwy o driongli mewnwelediadau ar draws pwyllgorau. Mae llywodraethu ariannol yn parhau i fod yn gryfder mawr sy'n adlewyrchu ein bod wedi cyflawni'r holl ddyletswyddau ariannol, cyflawni arbedion wedi'u cynllunio, cynnal rheolaethau cryf, a dangos cynllunio ariannol disgybledig sy'n gyson â blaenoriaethau strategol.

Sicrwydd Allanol: Archwiliad Mewnol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Nid ydym wedi derbyn unrhyw archwiliadau sicrwydd cyfyngedig yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ystod y cylch archwilio mewnol ar gyfer 2025/26, mae chwe archwiliad mewnol wedi'u cwblhau a'u darparu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol i gael sicrwydd. Roedd yr archwiliadau hyn wedi'u cwblhau yn darparu lefelau sicrwydd yn amrywio

o Sylweddol i Resymol, gan nodi llywodraethu a rheolaeth gadarn ar y cyfan ar draws y meysydd a archwiliwyd.

Rydym yn cynnal traciwr archwilio cynhwysfawr i sicrhau bod unrhyw feysydd gwelliant a argymhellir yn cael eu gweithredu lle y bo hynny'n briodol. Yn ogystal, mae gennym Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cynhwysfawr a phrosesau sicrhau risg ar waith i sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn sicrwydd yn seiliedig ar ddull sy'n seiliedig ar risg, gyda golwg rheolaidd ar Gofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol yr Ymddiriedolaeth.

5.2.5 Ansawdd

Mae ein hymgais i fabwysiadu dull rheoli ansawdd ar draws y sefydliad yn ein galluogi i weithredu'r Ddyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd o fewn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020). Mae hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy clir ar anghenion y system a diben y sefydliad. Ar ôl cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, rydym yn parhau i weithio gyda'n staff a'n rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y ddwy ddyletswydd, gyda'r nod yn y pen draw o ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. Yn 2025-2026 roedd cyfanswm o:

- ❖ 1,604 o ddigwyddiadau, gyda chyfradd cau o 79% sy'n welliant sylweddol o fis Mehefin 2025 ar 59.7%.
- ❖ Cafwyd 118 o Ddatrysiadau Cynnar a chwynion ffurfiol. Rheolwyd 25% o'r rhain fel cwynion ffurfiol a rheolwyd 75% fel Datrysiad Cynnar.
- ❖ Cafwyd 152 o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Roedd 10 o'r rhain yn fwy na'r cydymffurfiaeth 20 diwrnod oherwydd cymhlethdod y ceisiadau. Mae rheoli perfformiad sylweddol wedi gwella cydymffurfiaeth ers 2024-25.
- ❖ Cafwyd 30 o Geisiadau Mynediad at Ddata gan y Testun. Roedd un o'r rhain yn fwy na'r cydymffurfiaeth un mis oherwydd cymhlethdod y cais.

Mae cydymffurfiaeth ar gyfer pob Lefel Diogelu 1 a 2 yn parhau i fod yn uwch na'r targed cenedlaethol o 85%. Mae cydymffurfiaeth yn erbyn Lefel Diogelu 3 ychydig yn is na'r targed o 85%, gyda hyfforddiant unioni wedi'i gynllunio. Ar y cyfan, rydym yn blaenoriaethu rheoli perfformiad Hyfforddiant Diogelu, yn seiliedig ar ofynion cymhwysedd rôl benodol.

System Rheoli Ansawdd

Mae ein System Rheoli Ansawdd wedi'i strwythuro o amgylch rheoli ansawdd, cynllunio, gwella a sicrwydd, gyda chefnogaeth adnoddau fel y Dangosfwrdd Goruchwyllo Ansawdd, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, Asesu'r Effaith ar Ansawdd, a'r Hyb Gwella ac Arloesi. Mae ein Grŵp Goruchwyllo Ansawdd (QuOG) yn darparu goruchwyliaeth weithredol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd, yn arwain hunanasesiad yn erbyn Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, yn dadansoddi canlyniadau drwy ddangosfwrdd cynhwysfawr, ac yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a threialu'r offeryn Asesu Effaith ar Ansawdd digidol newydd. Ar gyfer y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, rydym wedi cyd-ddatblygu safonau, gweithredu hunanasesiadau STEEEP sylfaenol, creu dangosfyrddau, a chyflwyno proses adolygu gan gymheiriaid a ddechreuodd ym mis Ionawr 2026.

Yn 2024, gwnaethom ychwanegu hyfforddiant Dyletswydd Ansawdd i'n holl staff i wella eu gwybodaeth am beth mae hyn yn ei olygu a sut i'w gymhwyso yn ymarferol. Mae'r hyfforddiant hwn yn orfodol ac yn barhaus i'r holl staff ac fe'i cyflwynir drwy'r platfform ESR. Rydym wedi cyflawni cyfradd cwblhau staff o 98.09%. Mae gennym dudalennau DoQ Mewnwyd/SharePoint ar gyfer gwybodaeth ac adnoddau i arwain a hysbysu staff, a chyhoeddwyd fideos animeiddiedig byr ar gyfer ein staff, i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth.

Atal a Rheoli Heintiau

Yn 2025-2026, datblygwyd Offeryn Asesu Risg Heintiau Anadlol yn dilyn trafodaethau gyda'r Arweinwyr Atal a Rheoli Heintiau cenedlaethol, gyda'r bwriad o safoni'r broses asesu. Disgwylir i'r Datganiad Ansawdd Atal a Rheoli Heintiau gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2026. Mae'r Safonau Glanhau a'r Cod Ymarfer bron â'u chwblhau ar hyn o bryd gyda chynghorwyr polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau ddarn cenedlaethol hyn wedi cael eu harwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae cyflwyno archwiliadau glanhau amgylcheddol Atal a Rheoli Heintiau AMaT wedi rhoi mwy o sicrwydd a goruchwyliaeth o feysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r Grŵp Cyflenwi Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd yn destun newidiadau i ymgorffori ffrydiau gwaith newydd, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar heintiau llif y gwaed, C. difficile, amgylchedd gofal, ac is-grwpiau cysylltiedig eraill, a fydd yn cyfrannu at y rhaglen waith gyffredinol. Cefnogir y grŵp hwn gan Bennaeth Nyrsio Atal a Rheoli Heintiau a HARP a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.

Goruchwyliaeth Glinigol Adferol (RCS)

Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2025, cafodd 136 o nyrsys a bydwragedd o bob rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru fynediad at Oruchwyliaeth Glinigol Adferol (RCS) a ddarperir drwy'r model Eiriolwr Nyrsio Proffesiynol (PNA) i gefnogi llesiant, datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â mandad y Prif Swyddog Nyrsio bod gan bob Nyrs a Bydwraig fynediad at RCS. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi blaenoriaethu'r uchelgais hon ac wedi buddsoddi mewn hyfforddi 12 PNA.

Y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol (ACF)

Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol wedi arwain y gwaith o ddatblygu datganiad ansawdd diogelu cenedlaethol a metrigau wedi'u cysoni ar gyfer GIG Cymru, gan sefydlu dull cyson, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o fesur effeithiolrwydd diogelu a chryfhau sicrwydd a goruchwyliaeth system gyfan. Mae rhaglen gynhwysfawr o welliant cenedlaethol ar gael ar gais.

Rheoli risg

Yn ystod 2025/2026, gwnaethom gwblhau gweithredu ein Cynllun Datblygu Rheoli Risg. Gwnaed gwaith sylweddol i ailfynegi a chryfhau dealltwriaeth o risgiau strategol y sefydliad a'u perthynas â'n Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig). Mae rhaglen dreigl o risg strategol dan arweiniad y Weithrediaeth, gan gynnwys gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, yn cefnogi gwell asesu, mapio rhyng-ddibyniaeth a pherchnogaeth weithredol o bob risg strategol.

5.3 Gweithlu – Ein Pobl

5.3.1 Cefndir

Ar 31 Ionawr 2026, cyfanswm nifer y staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd 2,256 o bobl, sy'n cyfateb i 2,012.74 cyfwerth ag amser llawn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn parhau i gryfhau ein dull o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda chynnydd clir ar draws sawl dangosydd. Rydym wedi cynnal ymgysylltiad cryf â'n saith rhwydwaith staff ac yn ogystal â'r rhwydweithiau mae gennym Is-grŵp Niwroamrywiaeth, Caffi Menopos a Chaffi Moon. Rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2025 cynyddodd aelodaeth y rhwydwaith 110, i 907 aelod o staff yn cymryd rhan, o 30% i 34% o'n gweithlu.

Rydym yn meddu ar lefel Aur gyda Rhagoriaeth yng Nghynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru. Dyma lefel uchaf y cynllun sy'n

cael ei asesu'n annibynnol gan UK Investors in Equality and Diversity (UKIED). Rydym wedi gwella ein hachrediad Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ac wedi cynnal lefelau uchel o adroddiadau data ESR. Rydym yn gefnogwr balch o Gyfamod y Lluoedd Arfog, ac roedd ein Cais Adnewyddu Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn llwyddiannus a bydd yn ddilys am bum mlynedd arall o fis Rhagfyr 2025.

Er bod ein bwlch cyflog rhywedd wedi parhau i leihau, rydym yn cydnabod bylchau sy'n ehangu ar gyfer rhai grwpiau ac wedi ymrwymo camau wedi'u targedu drwy Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu i fynd i'r afael â chynnydd annheg, canlyniadau recriwtio a defnydd anghymesur o brosesau ffurfiol.

Arolwg Staff

Ar y cyfan, roedd canlyniadau arolwg staff 2024 yn parhau i fod yn gyson yn fras â'r flwyddyn flaenorol, gyda chryfderau parhaus mewn cefnogaeth rheolwyr llinella sgysiau llesiant. Dangosodd sgoriau rheoli dros 75% o bositifrwydd. Mae ein Cynlluniau Ymgysylltu Integredig ar lefel sefydliadol a chyfarwyddiaeth yn triongli data o'r Arolwg Staff, Arolwg Pwls Diwylliant, Graddfa Ymgysylltu Meddygol, gwaith ar gadw nyrsys a mathau eraill o lais gweithwyr i dargedu meysydd lle mae cydweithwyr wedi dweud wrthym fod angen i ni wella fwyaf. Darperir sicrwydd i'r Tîm Arweinyddiaeth, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol ddwywaith y flwyddyn.

Ym mis Ionawr 2026, cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol Codi Llais heb Ofn i'r Pwyllgor Bwrdd Datblygu Pobl a Sefydliadol, sy'n dangos cynnydd mewn adroddiadau, sy'n dangos bod ein gweithwyr yn teimlo'n fwy abl i adrodd am faterion a phryderon. Daeth adroddiad Archwilio Mewnol Codi Llais heb Ofn yn 2025 i'r casgliad sicrwydd rhesymol ac mae'r materion allweddol sy'n gofyn am sylw rheolwyr yn cael eu gweithredu.

Defnyddio asiantaethau

Nid yw cyfran sylweddol o'r gwariant ar asiantaethau gweinyddol a chlercol o fewn y sefydliad yn adlewyrchu rolau gweinyddol traddodiadol. Mae'n cynnwys swyddi digidol a thechnegol arbenigol sydd wedi'u recriwtio'n benodol i gyflawni ein blaenoriaethau, fel datblygu seilwaith cwmwl, trawsnewid digidol, ac i ddarparu rhaglenni a ariennir yn allanol. Mae'r rolau hyn yn hanfodol i gyflawni sefydliadol ac yn aml maent yn seiliedig ar gyfyngiadau amser, ac mae angen paratoi cyflym.

5.3.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Y sefyllfa bresennol	Targed
Gwariant ar asiantaethau - % o gyfanswm y bil cyflog	1% Rhagfyr 2025	≤1.7%
Cynllunio swyddi – 12 mis treigl	55% Ionawr 2026	90% o fewn cyfnod treigl o 12 mis
Absenoldeb oherwydd salwch – 12 mis treigl	4.58% Rhagfyr 2025	3.25%

5.3.3 Y sefyllfa bresennol

Gwariant ar Asiantaethau

Ers mis Ionawr 2024, mae'r sefydliad wedi bod yn cymryd camau i weithredu gofynion WHC/2024/031 a WHC/2023/046, i gefnogi lleihau gweithlu asiantaethau a thrawsnewid gweithlu ehangach. Mae cynllunio ar gyfer lleihau'r defnydd o asiantaethau wedi'i ymgorffori mewn adroddiadau perfformiad mewnol, gyda gwariant asiantaethau ar hyn o bryd yn 1% o gyfanswm y bil cyflog ym mis 9, gyda tharged o gyflawni o dan lefel 2024/25, sef 30%. Adroddir am wariant ar asiantaethau yn fisol i'r Bwrdd.

Mae gwariant ar asiantaethau gweinyddol a chlercol wedi gostwng o £105K ym mis 1 i £40K ym mis 9. Fodd bynnag, mae'r costau asiantaeth yn M1-M9 2025/26 yn peri risg i gyflawni'r targedau wedi'u diweddarau ar gyfer gwariant asiantaeth, yn benodol mewn perthynas â gwariant asiantaeth Gweinyddol a Chlercol.

Mae'r defnydd o asiantaethau gweinyddol a chlercol yn parhau i leihau (ar hyn o bryd 10 o weithwyr asiantaethau A ac C). Fodd bynnag, mae cyfran o'r defnydd hwn o asiantaethau yn darparu rolau digidol, technegol a rhaglen-hanfodol arbenigol yn hytrach na swyddogaethau gweinyddol traddodiadol. Mae'r swyddi hyn wedi bod yn ofynnol i gyflawni blaenoriaethau sy'n seiliedig ar amser, rhaglenni a ariennir yn allanol, a datblygiadau seilwaith hanfodol fel trawsnewid digidol a gwaith peirianeg cwmwl. Byddai dileu'r defnydd o asiantaethau yn gyfan gwbl yn cario risg weithredol sylweddol, gan gynnwys tarfu ar raglenni gwaith strategol, oedi i brosiectau digidol a thrawsnewid, llai o allu sefydliadol, a mwy o bwysau ar staff presennol.

Cynllunio Swyddi

Ym mis Ionawr 2026, mae gan 55% o Ymgynghorwyr Meddygol a Deintyddol gynllun swydd wedi'i gwblhau (wedi'i gwblhau o fewn y cyfnod 12 mis blaenorol) naill ai ar y system cynllunio e-swyddi Allocate neu fel fersiwn bapur. Mae gweithredu'r system cynllunio e-swyddi yn llawn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda champau ategol, gan gynnwys: hyfforddiant, deunyddiau canllaw, a chymorth uniongyrchol i dimau. Nod yr ymdrechion hyn yw gwella sicrwydd a thryloywder ynghylch cydymffurfiaeth â chynllunio swyddi.

Salwch a Llesiant

Mae'r FTE absenoldeb oherwydd salwch 12 mis treigl wedi amrywio o gwmpas 4% dros y tair blynedd diwethaf. Ar gyfer Rhagfyr 2025, y % FTE absenoldeb treigl 12 mis oedd 4.58% (absenoldeb 1.51% tymor byr a 3.07% hirdymor), ac eithrio Perfformiad a Gwella GIG Cymru, o'i gymharu â 4.26% (absenoldeb 1.51% tymor byr a 2.75% hirdymor) ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Felly, ni fydd y sefydliad yn cyflawni gostyngiad mewn absenoldeb oherwydd salwch yn 2025/26 o'i gymharu â 2024/25.

Yn ddiweddar, mae Archwiliad Mewnol o effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i fonitro, cefnogi ac ymateb i absenoldeb oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl wedi archwilio cydymffurfiaeth ag agweddau ar Bolisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru gyfan ac wedi dod i'r casgliad 'Sicrwydd Rhesymol' yn gyffredinol. Mae cynllun gweithredu bellach ar waith i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad a gwneud gwelliannau pellach.

Mae gorbryder, straen, iselder a salwch seiciatrig eraill yn parhau i fod yn brif achosion absenoldeb hirdymor ar draws y sefydliad. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses o godio rhesymau absenoldeb a chryfhau hyder rheolwyr wrth gymhwyso'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan. Mae'r sefydliad wedi cynyddu gweithgarwch Llesiant rhagweithiol, gan gynnwys cyfathrebu sy'n tynnu sylw at y gyfres lawn o gymorth Llesiant, adnoddau gwydnwch, a llwybrau i staff geisio help.

5.3.4 Camau gwella

Cam gwella	Dyddiad cyflawni
Cryfhau rheolaeth asiantaeth drwy gymhwyso prosesau craffu gwell yn gyson ac adrodd misol parhaus i olrhain cynnydd yn erbyn targedau lleihau.	Parhaus, gydag adroddiadau misol
Gweithredu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad Mewnol diweddar a'r gwelliannau y cytunwyd arnynt drwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ym mis Ionawr 2026, gan sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Pholisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfana defnydd cyson o adnoddau llesiant.	Mehefin 2026
Gwella cymorth ymyrraeth gynnar a llesiant drwy ehangu Clinigau AD, gwella'r broses o gyfeirio i adnoddau llesiant, a darparu cymorth wedi'i dargedu i feysydd sydd â heriau salwch parhaus.	Mehefin 2026
Gwella cyflawnrwydd data EDI drwy gynyddu hunan-adrodd ESR, gyda chefnogaeth cyfathrebu a monitro â ffocws ar lefel y Gyfarwyddiaeth.	Medi 2026
Mynd i'r afael â chynnydd annheg, canlyniadau recriwtio a defnydd anghymesur o brosesau ffurfiol drwy gyflwyno camau gweithredu o Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu 2025 (WRES). Datblygu set o ddangosyddion EDI sy'n rhychwantu tegwch recriwtio, bylchau cyflog, amrywiaeth y gweithlu a datgeliad wedi'i ddadgrynhoi i lefel cyfarwyddiaeth ac wedi'i hintegreiddio yn y fframwaith perfformiad a sicrwydd i alluogi olrhain y broses a gwerthuso'r camau a gymerwyd.	Hydref 2026 Adolygiad cynnydd yn parhau
Cyflymu cydymffurfiaeth cynllunio swyddi drwy nodiadau atgoffa rheolaidd, cymorth wedi'i dargedu i ymgynghorwyr a rheolwyr, a gweithredu parhaus y system cynllunio e-swyddi.	90% wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2026

5.4 Cyllid a chynllunio

5.4.1 Cefndir

Gwnaethom ddechrau 2025/2026 gyda Chynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig) cytbwys yn ariannol a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Cymeradwywyd hyn wedyn gan Ysgrifennydd y Cabinet ac mae'n parhau â'n record o ddatblygu a chyflawni ein Cynllun Strategol yn llwyddiannus a dychwelyd i sefyllfa o adennill costau bob blwyddyn.

Mae gennym hanes o berfformiad a stiwardiaeth ariannol cryf, ar ôl derbyn barn archwilio ddiamod, gan gynnwys cyflawni'r holl ddyletswyddau ariannol statudol bob blwyddyn ers ein sefydlu yn 2009. Rydym yn dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys incwm craidd Llywodraeth Cymru, grantiau nad ydynt yn graidd Llywodraeth Cymru, incwm CLG byrddau iechyd ac incwm arall nad yw'n gysylltiedig â'r GIG. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hynny i

sicrhau a gwneud y mwyaf o'r cyllid i ddarparu ein gwasanaethau clinigol, iechyd cyhoeddus ac atal rheng flaen, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am tua dwy ran o dair o'n sefydliad a 67% o gyfanswm ein gwariant.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ein Cynllun Ariannol drafft ar gyfer 2026/27, wrth aros i dderbyn ein llythyr dyraniad cyllid a'n cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, rydym yn rheoli nifer o bwysau costau sy'n mynd i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd, gan gynnwys amcangyfrif o bwysau costau chwyddiant sylweddol o tua £1.5m sy'n gysylltiedig yn bennaf â gwasanaethau heintiau a chyflwyno sgrinio a chontractau digidol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnal Perfformiad a Gwella GIG Cymru (NHSWPI). Fel corff a gynhelir, nid yw cyllid NHSWPI wedi'i gynnwys yn y perfformiad ariannol a drafodir yn yr adran hon.

5.4.2 Dangosyddion perfformiad allweddol ac ymrwymïadau cenedlaethol perthnasol

Dangosydd	Ionawr 2025	Targed
Targed ariannol refeniw Diffyg/(Gwarged)	Y mis cyfredol - £35K YTD - (34K)	Adennill costau
Gwariant ariannol cyfalaf a tharged	Y mis cyfredol - £1,390K YTD - £2,395K	Adennill costau
Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus	Y mis cyfredol - 97.32% YTD - 97.19%	>96%
Gwariant asiantaeth fel % o Gyfanswm y Tâl	Y mis cyfredol - 0.8% YTD - 1.0%	<1.7%
Statws Cyflawni'r Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig)	Statws carreg filltir ar M10: Mae 48% o'n cynllun gwaelodlin wedi'i gwblhau ar gyfer y flwyddyn hyd yma. O'r cynllun sy'n weddill, mae 75% yn adrodd fel gwyrdd, ar y trywydd iawn.	Dd/B

5.4.3 Y sefyllfa bresennol

Mae'r perfformiad ariannol cyfredol, ym mis 10, yn dangos:

- ❖ Rydym yn adrodd am warged bach o £33k ym mis 10 ac yn rhagweld sefyllfa adennill costau erbyn diwedd y flwyddyn yn unol â'n Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy.
- ❖ Mae ein cynllun ariannol i adennill costau yn cynnwys cyflawni targed arbedion rhyddhau arian parod rheolaidd o 1% o £1.174m yn 2025/26. Mae pob un o gynlluniau arbed Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i raddio'n wyrdd gan Coch Oren Gwyrdd a rhagwelir y byddant yn cyflawni'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.
- ❖ Rydym yn rhagweld y byddwn yn defnyddio ein dyraniad cyfalaf yn ôl disgrisiwn o £1.613m a'n dyraniad cyfalaf strategol o £3.1m yn llawn.
- ❖ Rydym wedi talu 97.19% o anfonebau nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn y cyfnod targed o 30 diwrnod hyd at fis 10 2025/26 ac rydym ar y trywydd iawn i aros yn uwch na'r isafswm targed o 95% ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn.

6. Materion lleol

6.1 Digidol a data

6.1.1 Cefndir

Rydym wedi datblygu rhaglen o waith digidol i foderneiddio darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ein cyfraniad at raglenni cenedlaethol a chyflawni mentrau lleol. Rydym yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid i alluogi darpariaeth lwyddiannus, gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

6.2.2 Y sefyllfa bresennol

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth ddatblygu ein gallu digidol a data gyda buddsoddi adnoddau mewn meysydd fel saernïaeth, cwmwl, peirianeg data, gwyddor data a diogelwch clinigol digidol ymhlith eraill. Mae hyn wedi arwain at welliannau a datblygiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gydag offeryn carfan canser y fron newydd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, awtomeiddio rhai agweddau ar y broses atgyfeirio ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig ac ail-lwyfannu'r system Sgrinio Newydd-anedig yn llwyddiannus. Mae'r ail-lwyfannu'r Sgrinio Newydd-anedig wedi mynd i'r afael ag un o'n prif faterion etifeddiaeth a seiber yn ogystal â chreu sylfaen gadarn ar gyfer datblygiadau ar gyfer mathau newydd o sgrinio. Rydym yn gweithio'n agos gyda DHCW ac eraill i gyflawni yn erbyn rhai o'r prif Raglenni Cenedlaethol. Ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, y prif raglenni yw:

- ❖ Adnodd Data Cenedlaethol – rydym wedi nodi uchelgais strategol i gynnal ein dadansoddiad o'r Plattform Dadansoddi Data Cenedlaethol. Rydym yn dechrau'r cyntaf o'n mudo ym mis Ionawr 2026 gyda'r nod o fudo ein dadansoddiad yn llawn i'r Plattform Dadansoddeg Data Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2027.
- ❖ LIMS 2 - Mae ein gwasanaethau microbiolog a sgrinio yn rhannau allweddol o'r rhaglen. Mae hon wedi bod yn rhaglen heriol gyda'r dyddiad diweddaraf ar gyfer mynd yn fyw bellach wedi'i drefnu ar gyfer 11 Mai 2026.

Ochr yn ochr â'r rhaglenni cenedlaethol hyn, mae gennym nifer o brif raglenni sy'n cael eu harwain a'u cyflwyno gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- ❖ Y Rhaglen Diogelu Iechyd Digidol - a fydd yn moderneiddio ac yn gwella mynediad at system diogelu iechyd gan sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys mynediad at fyrddau

iechyd a'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion ar gyfer pandemigau a bygythiadau yn y dyfodol. Mae'r system yn cwmpasu clefydau trosglwyddadwy, bygythiadau amgylcheddol ac ymateb brys. Disgwylir i'r rhaglen gael ei chyflwyno erbyn mis Ionawr 2028.

- ❖ Sgrinio canser yr ysgyfaint - lle byddwn yn darparu'r seilwaith digidol angenrheidiol i gefnogi'r rhaglen newydd.
- ❖ Cynllun Gweithredu Seiber - i gynllunio ein hagwedd at flaenoriaethau seiberddiogelwch a llywio sut rydym yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'n seilwaith digidol

Ar hyn o bryd, ein heriau allweddol yw cyflwyno LIMS 2 a chysoni'r holl bartneriaid cyflenwi mewn rhaglenni cenedlaethol allweddol a mynediad at ddata gofal sylfaenol.

Atodiad A: Partneriaethau Strategol

Rydym wedi sefydlu amrywiaeth o bartneriaethau a threfniadau strategol cenedlaethol a rhyngwladol i gefnogi'r gwaith o ddarparu ein gwasanaethau iechyd cyhoeddus clinigol a'n swyddogaethau ehangach. Yn ogystal, mae gennym drefniadau cytundebol ffurfiol ar waith gyda'r holl gyrff iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Darperir crynodeb o'r partneriaethau isod:

- Cymorth Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Heddlu Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Cymdeithas Tai Bron Afon
- Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Sefydliad Iechyd Byd-eang Heidelberg
- Heddlu De Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Tai Taf
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Cymru)
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Coleg Nyrsio Brenhinol
- Yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
- Sefydliad Iechyd y Byd (Ewrop)
- Y Gymdeithas Ryngwladol o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol